Arolygiaeth Prawf EF

# Arolygiadau cyfiawnder ieuenctid

# Parth dau a safonau dioddefwyr

# Rheolau a chanllawiau asesiadau achos (CARaG)

v 1.3 Mawrth 2025

Mae cwestiynau ac awgrymiadau ar gyfer parth dau a'r safonau dioddefwyr yn cael eu hategu gan y rheolau a chanllawiau asesu achosion (CARaG). Mae'r rhain yn set gynhwysfawr o reolau a chanllawiau cyhoeddedig i'w dilyn gan arolygwyr ac aseswyr lleol wrth iddynt asesu achosion. Mae'r CARaG yn hyrwyddo tryloywder a chysondeb wrth i ni arolygu achosion. Dylai staff arolygu ac aseswyr lleol ddefnyddio CARaG fel dogfen gyfeirio wrth asesu achos plentyn neu ddioddefwr.

Mae'r CARaG yn darparu canllawiau ar y cwestiynau ac awgrymiadau. Mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyson ag unrhyw newidiadau a wnawn i safonau, cwestiynau ac awgrymiadau, fel eu bod yn parhau i fod yn gysylltiedig â thystiolaeth. Mae'r CARaG hefyd yn cynnwys dolenni, lle bo hynny'n berthnasol, at ganllawiau manylach a datganiadau sefyllfa Arolygiaeth Prawf EF mewn meysydd arbenigol.

Ar gyfer pob achos parth dau, bydd arolygwyr yn adolygu'r canlynol:

- pob gweithgarwch asesu neu gynllunio sydd wedi cyfrannu at y penderfyniad neu'r canlyniad rydym yn ei arolygu (fel adroddiad cyn-dedfrydu, sgrinio datrysiadau y tu allan i'r llys neu adnodd neu asesiad gwneud penderfyniadau, unrhyw weithgarwch sy'n ymwneud â'r cyfnod yn y ddalfa ac ailsefydlu, neu weithgarwch ac asesiad mechnïaeth a remánd)
- yr holl weithgarwch a wneir yn ystod y penderfyniad/canlyniad, mechnïaeth a remánd, gwaith y tu allan i'r llys, y ddalfa ac ailsefydlu
- unrhyw waith sy'n parhau yn yr un amserlen ddisgwyliedig â'r gweithgarwch rydym yn ei arolygu; lle mae gweithgarwch yn digwydd ar yr un pryd (fel datrysiadau y tu allan i'r llys yn rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd), byddwn yn archwilio'r holl weithgarwch
- nes bydd y datrysiad/canlyniad/gorchymyn/pennod a arolygwyd yn cael ei ddisodli gan ddatrysiad gwahanol neu nes bydd yr ymyriad datrysiad/canlyniad yn dod i ben neu ar fin dod i ben.

## Allwedd:

| Enghraifft | Fformat y cwestiwn | Yn cynrychioli: |
|---|---|---|
| A yw asesiad yn adnabod ac yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | Cefndir llwyd tywyll | Cwestiwn sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag awgrym yn y safonau arolygu.<br>Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y dyfarniad cryno ar lefel cwestiynau allweddol. |
| Oes gan y plentyn anabledd? | Cefndir llwyd golau | Cwestiwn gwybodaeth, y gofynnwyd iddo ddarparu gwybodaeth gefndir ychwanegol am yr achos, ond sydd heb gysylltiad mor gryf â chwestiynau dyfarniad ddiannod. |
| **A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut** | **Testun trwm ar gefndir llwyd tywyll** | Cwestiwn dyfarniad cryno, yn ateb cwestiwn allweddol o'r safonau arolygu. |

| i sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn? | | |
|---|---|---|

## Gwybodaeth am y plentyn

| | Gwybodaeth am yr achos | |
|---|---|---|
| 2.0.01 | A yw'r plentyn wedi cael profiad o ofal gan yr awdurdod lleol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod yr oedd y GCI yn ymwneud ag ef? | Os yw'r plentyn yn blentyn sydd â phrofiad o ofal ar hyn o bryd, rydym yn gwirio a yw'r GCI sy'n cael ei arolygu yn gweithredu fel GCI 'cartref' neu 'lletyol' y plentyn.<br>• Os mai'r GCI a arolygwyd yw'r GCI cartref a bod y plentyn wedi byw yn yr ardal a wasanaethir gan y GCI a arolygwyd ar gyfer y ddedfryd gyfan sy'n cael ei harolygu, rydym yn archwilio'r achos yn ôl yr arfer.<br>• Os mai'r GCI a arolygwyd yw'r GCI cartref a bod y plentyn wedi byw y tu allan i'r ardal a wasanaethir gan y GCI hwnnw am unrhyw ran o'r ddedfryd sy'n cael ei harolygu, rydym yn archwilio'r achos yn ôl yr arfer. Byddem yn disgwyl i'r GCI sicrhau bod y GCI lletyol yn asesu, yn cynllunio ac yn darparu'n ddigonol i ddiwallu anghenion y plentyn.<br>• Os nad y GCI a arolygwyd yw'r GCI cartref y plentyn, rydym yn eithrio'r achos o'r sampl arolygu. |
| 2.0.05 | Hunaniaeth rhywedd | Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell yr opsiynau i ateb y cwestiwn hwn fel arfer gorau. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI yn cael sgwrs briodol i oedran gyda'r plentyn i sefydlu sut mae'n gweld ei hunaniaeth o ran rhywedd, ac i hynny gael ei gofnodi'n gywir ar gofnodion achos. |
| 2.0.06 | Categori hil ac ethnigrwydd | Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell yr opsiynau i ateb y cwestiwn hwn fel arfer gorau. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI yn cael sgwrs â'r plentyn i sefydlu sut maent yn nodi eu hil a'u categori ethnig, ac i hynny gael ei gofnodi'n gywir ar gofnodion achos. |
| 2.0.07 | Dewis iaith | Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI yn cynnal trafodaeth ynglŷn â dewis iaith y plentyn, ac i hynny gael ei gofnodi'n gywir ar gofnodion achos. |
| 2.0.08 | Crefydd/ffydd | Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell yr opsiynau i ateb y cwestiwn hwn fel arfer gorau. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI wedi cael sgwrs â'r plentyn i sefydlu sut maent yn nodi eu crefydd, ac i hynny gael ei gofnodi'n gywir ar gofnodion achos. |
| 2.0.09 | Hunaniaeth rywiol | Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymell yr opsiynau i ateb y cwestiwn hwn fel arfer gorau. At ei gilydd, credwn y gellir defnyddio'r cwestiynau hyn yn briodol i gofnodi unrhyw anfantais a brofir gan blant sy'n gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI wedi cael sgwrs briodol i oedran gyda'r plentyn i sefydlu sut mae'n gweld ei hunaniaeth rywiol, ac i beidio â gwneud tybiaethau heteronormadol. Rydym yn disgwyl i'r GCI gydnabod efallai na fydd rhai plant eisiau, neu y |

| | | |
|---|---|---|
| | | byddant yn teimlo na fyddant yn gallu, disgrifio eu hunaniaeth rywiol, neu efallai eu bod yn ansicr yn ei chylch, ac i hynny gael ei gofnodi'n gywir ar gofnodion achos. |
| 2.0.10 | Oes gan y plentyn anabledd? | Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, rydym yn diffinio anabledd fel 'amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu plentyn i wneud gweithgarwch arferol o ddydd i ddydd. Y geiriau allweddol yw 'sylweddol' a 'tymor hir'. Mewn llawer o achosion, bydd diagnosis ffurfiol o gyflwr penodol. Mewn achosion lle nad oes diagnosis penodol, rydym yn disgwyl i'r GCI gydnabod unrhyw symptomau a brofir gan y plentyn a'r effaith ar ei fywyd, a allai fod yn ddigonol i'w cynnwys o dan y diffiniad o anabledd. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI wedi cael sgwrs â'r plentyn (ac, os yw'n berthnasol, â'i rieni neu ofalwyr) ynglŷn â natur unrhyw anabledd, ac i hynny gael ei gofnodi'n gywir ar gofnodion achos. |
| 2.0.14 | A wnaeth y GCI gynnig priodol i'r llys pan roddwyd y cyfnod mechnïaeth neu remánd? | Dim ond mewn achosion mechnïaeth neu remánd y gofynnir y cwestiwn hwn.<br><br>Bydd arolygwyr yn ystyried a oedd y cynnig yn realistig ynglŷn ag amgylchiadau'r trosedd honedig a chyd-destun y plentyn. Rydyn ni'n disgwyl bod anghenion y plentyn wedi cael eu hystyried, gan gynnwys anghenion sy'n ymwneud â llety amrywiaeth y plentyn, trefniadau cymorth, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, amgylchiadau teuluol, llesiant, anghenion iechyd ac aeddfedrwydd. Rydym hefyd yn disgwyl i'r GCI fod wedi ystyried anghenion diogelu'r plentyn, gan gynnwys sefydlogrwydd a phriodoldeb lleoliad, a phryderon am ecsbloetio neu risg y tu allan i'r cartref. Rydym yn disgwyl i gynnig ystyried ymarferoldeb rhyddhau plentyn ar fechnïaeth a'r hyn y gallai fod angen i becyn mechnïaeth ei gynnwys. Dylai unrhyw gynnig fod yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth priodol a dylai fod yn gytbwys ac yn rhesymol.<br><br>Dylai cynnig priodol hefyd sicrhau diogelwch y dioddefwr, dioddefwyr posibl ac eraill.<br><br>Lle cynigir remandio, disgwyliwn i'r holl opsiynau eraill fod wedi cael eu hystyried. Dylai'r cynnig ystyried yr opsiynau remandio mwyaf priodol, fel remandio i ofal yr awdurdod lleol, neu i gartref diogel i blant, ysgol ddiogel, canolfan hyfforddi ddiogel neu Sefydliad Troseddwyr Ifanc. |
| 2.0.29 | A oedd y math o ddatrysiad y tu allan i'r llys yn addas, o ystyried yr holl wybodaeth a oedd ar gael adeg gwneud y penderfyniad? | Dim ond mewn achosion o ddatrysiad y tu allan i'r llys y gofynnir y cwestiwn hwn.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r matrics disgyrchiant plant gael ei ystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch datrysiadau.<br><br>Dylid bod wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau a chasglu gwybodaeth i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys asesiadau arbenigol lle bo hynny'n berthnasol. Dylai'r datrysiad ystyried amgylchiadau unigol y plentyn, gan gynnwys rhwydweithiau cefnogi, trefniadau byw, anghenion amrywiol, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, cymhelliant ac ymgysylltiad. Bydd arolygwyr yn ystyried a yw dymuniadau a diogelwch y dioddefwyr wedi cael eu hystyried. Rydym yn disgwyl i weithgarwch asesu |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhesymol fod wedi cael ei gynnal, a bod y plentyn, y rhiant neu'r gofalwyr yn cael cyfle i gyfrannu at hyn. Dylai euogfarnau, troseddu neu ymddygiad blaenorol y plentyn, gan gynnwys datrysiadau blaenorol, fod wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Rydym yn disgwyl gweld dadansoddiad priodol sy'n ystyried perthnasedd y rhain ynglŷn ag ymddygiad presennol y plentyn. Dylid ystyried diogelwch y plentyn ac eraill, gan gynnwys rôl asiantaethau partner eraill.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r penderfyniad fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dargyfeirio priodol, lle bo hynny'n briodol, i atal y plentyn rhag ymuno'n ffurfiol â'r system cyfiawnder ieuenctid, ac i gefnogi gwaith i sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i ohirio erlyniad, lle bo hynny'n briodol.<br><br>Dylai'r penderfyniad gael ei lywio gan ddull amlasiantaeth, brysbennu neu drafodaeth banel, a dylai gynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol sydd â gwybodaeth am y plentyn. |

# Asesu

| | | |
|---|---|---|
| **2.1** | **Mae asesu yn seiliedig ar wybodaeth ac yn bersonol, gan ddadansoddi'n effeithiol sut i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a'r gymuned yn ddiogel.** | |
| | **Mae 'asesu' yn cynnwys pob gweithgarwch asesu,** nid dim ond paratoi asesiad ysgrifenedig. Rydym yn chwilio am dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cofnodion achos, asesiadau ysgrifenedig (fel AssetPlus, Adnodd Asesu Atal a Dargyfeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (PDAT) ac offer a ddatblygwyd yn lleol), asesiadau penodol neu arbenigol (fel SAVRY, AIM, a fformwleiddiadau achos), nodiadau o gyfarfodydd mewnol neu amlasiantaethol am y plentyn, a'r cyfweliad â staff y GCI. Rydym yn barnu ansawdd y broses asesu yn ei chyfanrwydd. Nid oes angen defnyddio unrhyw adnodd asesu penodol ar gyfer unrhyw fath penodol o waith; rydym yn edrych ar asesu yn ei gyfanrwydd i sicrhau bod digon o wybodaeth am y plentyn a'i amgylchiadau wedi cael ei chasglu a'i dadansoddi. Rydym yn disgwyl i'r asesiad cychwynnol gael ei gwblhau'n ddigon cynnar yn ymgysylltiad y plentyn â'r GCI i gefnogi'r gwaith cynllunio a darparu.<br><br>**Dylai asesu fod yn gymesur** ag anghenion y plentyn, natur ei droseddu a'i amgylchiadau.<br><br>O dan y safon hon, rydym yn disgwyl gweld **ailasesu ac adolygu deinamig ac amserol**, pan fydd amgylchiadau'r plentyn yn newid. Nid ydym yn chwilio am adolygiad ysgrifenedig yn unig, ond am dystiolaeth ar draws amrywiaeth o ffynonellau i ddangos bod ymatebion parhaus a gweithredol i unrhyw amgylchiadau sy'n newid a myfyrio arnynt.<br><br>**Mewn achosion lle mae'r plentyn wedi cael dedfryd o garchar neu wedi cael ei remandio i lety cadw ieuenctid,** rydym yn disgwyl i'r GCI fodloni ein holl safonau i asesu yn ystod cyfnodau o garchar a (lle bo hynny'n berthnasol) ar ôl rhyddhau o'r ddedfryd. | |
| | **Cwestiwn arolygu** | **CARaG** |
| **2.1.1** | **A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?** | |
| 2.1.01 | A yw asesu yn dadansoddi cyd-destun y plentyn, gan gynnwys yr amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach? | Fel rhan o ddull plentyn cyfan unigol a chyd-destunol, dylai asesu ystyried profiad byw y plentyn, gan gynnwys ei deulu a'i gyd-destun amgylcheddol a chymdeithasol. Gall hyn gynnwys materion ymarferol fel byw mewn ardal wledig neu allu'r plentyn i fynychu apwyntiadau. Dylid ystyried ffactorau personol, fel problemau gydag ymlyniad, anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, ac anawsterau neu anableddau dysgu, gan gynnwys anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth. Dylai staff y GCI hefyd ystyried a yw'r plentyn wedi profi trawma, a pha effaith y gallai hyn ei chael ar ddeall y plentyn, ei ymddygiad a'i allu i gymryd rhan mewn ymyriad.<br><br>Ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd â phrofiad o ofal, rydym yn disgwyl i asesu ystyried y diffyg ymddiriedaeth posibl y gallai plant ei chael mewn gweithwyr proffesiynol, neu anawsterau y gallent eu cael wrth ymgysylltu, sy'n deillio o'u profiadau. Bydd arolygwyr yn disgwyl i staff y GCI fod yn ymwybodol o ymchwil sy'n tynnu sylw at effaith trawma neu brofiadau negyddol ar blant sydd â phrofiad o ofal yn y |

| | | |
|---|---|---|
| | | system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys ffactorau fel ansefydlogrwydd lleoliadau, ac wedi ystyried y rhain yn eu gweithgarwch asesu.<br><br>Dylai asesu egluro a dadansoddi cyd-destun teuluol ehangach troseddu'r plentyn, a'r cyd-destun cymdeithasol y mae'r plentyn yn byw ynddo. Dylai staff y GCI gynnwys gwybodaeth gan rieni ac unrhyw ofalwyr eraill, gan gynnwys gofalwyr lle nad yw'r plentyn yn byw yng nghartref y teulu. Bydd arolygwyr hefyd yn chwilio am dystiolaeth bod staff y GCI wedi ystyried unrhyw faterion a nodwyd a allai fod gan y rhieni neu'r gofalwyr, fel iechyd meddwl, cam-drin domestig, troseddu neu broblemau cyffuriau neu alcohol, a pha effaith y gallai'r rhain ei chael ar y plentyn.<br><br>Pan fydd plentyn mewn amgylchedd diogel neu yn y carchar (boed wedi'i gael yn euog neu ar remánd), dylai staff y GCI ystyried effaith hyn ochr yn ochr â ffactorau fel pellter oddi wrth y teulu a mynediad atynt. |
| 2.1.02 | A yw asesu yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | Lle bo'n briodol, rydym yn disgwyl gweld dull amlasiantaeth o lunio naratif am y plentyn er mwyn creu darlun cyflawn o fywyd y plentyn. Rydym yn disgwyl gweld archwiliadau gyda'r heddlu, gofal cymdeithasol plant, gwasanaethau iechyd, unrhyw ddarparwr addysg a, lle bo hynny'n briodol, archwiliadau gyda'r gwasanaeth prawf. Dylai'r GCI ofyn am wybodaeth ychwanegol gan sefydliadau partner neu wirfoddol eraill sy'n adnabod y plentyn, fel gweithwyr ieuenctid neu weithwyr cymorth. Os oes gan y plentyn brofiad o ofal/yn derbyn gofal, dylai'r GCI gael gwybodaeth gan weithiwr cymdeithasol neu gynghorydd personol y plentyn.<br><br>Er mwyn i hyn fod yn ddigonol, dylai staff y GCI fod wedi ystyried y prif ffynonellau gwybodaeth perthnasol. Nid yw rhestru'r materion yn unig yn ddigon; mae angen dadansoddi. Dylai hyn gynnwys unrhyw asesiadau ychwanegol sydd wedi'u cwblhau gan asiantaethau eraill, fel sgrinio ac asesiadau ecsbloetio plant, cyfweliadau 'dychwelyd adref', a gwybodaeth gan yr heddlu. Dylid cynnwys gwybodaeth o gynlluniau amddiffyn plant yn y gorffennol neu'r presennol, asesiadau plant mewn angen, adolygiadau niwed y tu allan i'r cartref, asesiadau cymorth cynnar, cynlluniau addysg, iechyd a gofal ac adolygiadau profiad gofal. Ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid Cymru, gall asesiadau perthnasol gynnwys asesiadau cynllun gofal a chymorth neu gynlluniau datblygu unigol sy'n asesu anghenion dysgu ychwanegol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.<br><br>Dylid cyfeirio at wybodaeth hanesyddol, ei dadansoddi a'i gwerthuso yn yr amgylchiadau presennol. Os yw'r plentyn wedi bod yn ymwneud ag asiantaethau eraill, dylai staff gael gwybodaeth am ba mor dda y buont yn ymgysylltu â'r asiantaeth honno, pa waith sydd wedi'i gwblhau neu sy'n mynd rhagddo, ac unrhyw beth a oedd yn hwyluso neu'n llesteirio ymgysylltiad y plentyn.<br><br>Ar gyfer plant yn y ddalfa, dylai staff geisio gwybodaeth berthnasol gan y sefydliad. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am anghenion ac ymddygiad y plentyn yn yr amgylchedd hwn. Dylai hefyd gynnwys unrhyw |

| | | |
|---|---|---|
| | | wasanaethau arbenigol, fel addysg a seicoleg; dogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT); rhestrau 'cadw ar wahân', ac adroddiadau ar ddigwyddiadau, gan gynnwys timau ymyrryd ac ataliadau. |
| 2.1.03 | A yw asesu yn cynnwys cyfranogiad gweithredol a chyd-gynhyrchu gyda'r plentyn? | Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod y plentyn wedi cymryd rhan lawn mewn gweithgarwch asesu. Rydym yn disgwyl i'r GCI ddefnyddio iaith neu adnoddau sy'n hwyluso dealltwriaeth y plentyn. Ar gyfer cydgynhyrchu, rydym yn disgwyl i'r plentyn fod wedi cael cyfle i deimlo bod rhywun yn gwrando arno, i gael ei gynnwys yn ystyrlon, ac i gael ei gefnogi i ymgysylltu â'r gweithgarwch asesu. Rydym yn chwilio am dystiolaeth glir o ddealltwriaeth o safbwynt y plentyn ar ei ymddygiad, ac rydym yn disgwyl gweld llais, barn ac anghenion y plentyn yn cael eu hymgorffori a'u dadansoddi drwy gydol y broses asesu.<br><br>Er mwyn asesu'n effeithiol, mae meithrin perthynas, gofyn cwestiynau agored, a sicrhau bod y plentyn yn deall yn hanfodol. Mae'r pwyslais ar gyfranogiad ystyrlon, lle gall plant ddweud eu dweud a rhoi eu barn am bob mater sy'n effeithio arnynt, gyda'u barn yn cael ei hystyried o ddifrif a'i pharchu'n briodol. Rydym yn disgwyl gweld y plentyn yn cael llais ac yn cael ei gefnogi i fuddsoddi yn y broses asesu. Dylid rhoi cyfle i blant gydweithio a chymryd rhan ystyrlon mewn gweithgarwch asesu. |
| 2.1.04 | A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol a ellid gwneud gwaith ar y cyd â rhieni neu ofalwyr y plentyn, a fyddai'n sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn? | Mae arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod asesu wedi cynnwys rhieni neu ofalwyr ac wedi dadansoddi eu gallu i gefnogi'r plentyn i sicrhau newid cadarnhaol. Dylai asesu gynnwys y ddau riant yn gyfartal, gan gynnwys rhieni nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, lle mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Dylai staff y GCI ystyried rôl gofalwyr eraill, fel gofalwyr maeth, rhieni corfforaethol, gofalwyr cysylltiedig, staff preswyl a theulu estynedig, a'u gallu i gefnogi'r plentyn i sicrhau newid cadarnhaol. Dylai rhieni a gofalwyr gael eu cynnwys a'u cynnwys yn ystyrlon yn y broses asesu a dylai eu barn gael ei chynnwys a'i hystyried. Gall arolygwyr roi ateb cadarnhaol os yw'r asesiad wedi nodi'n rhesymol nad yw'n bosibl cydweithio â rhieni neu ofalwyr y plentyn. |
| 2.1.05 | A yw asesu yn dadansoddi cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn gan gynnwys y ffactorau strwythurol allweddol sy'n effeithio ar y plentyn? | Bydd arolygwyr yn chwilio am ffordd glir o adnabod cryfderau'r plentyn er mwyn helpu i wneud newid cadarnhaol. Dylai hyn gynnwys nodweddion personol fel ymdeimlad o hunan-effeithiolrwydd a chymhelliant i newid. Mae ymchwil yn dangos bod cryfderau plentyn yn cael eu siapio gan nodweddion, profiadau ac amgylchiadau personol. Gall y plentyn, y rhieni neu'r gofalwyr, y darparwr addysg, neu unrhyw weithiwr proffesiynol cysylltiedig arall nodi cryfderau. Gellir eu hadnabod hefyd drwy weithio gyda'r plentyn ac ymgysylltu ag ef, yn ogystal ag unrhyw hunanasesiad. Dylid dadansoddi'r wybodaeth hon yn nhermau effaith pob un ar y plentyn. Dylai staff y GCI gymryd gofal i osgoi asesiadau sy'n seiliedig ar ddiffyg sy'n canolbwyntio ar risgiau neu bryderon y plentyn yn unig. Dylent sicrhau bod yr asesu'n gytbwys, gan gynnwys cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn.<br><br>Dylid nodi ffactorau amddiffynnol ar lefel yr unigolyn, y teulu, y gymuned a chymdeithas, gan gydnabod pwysigrwydd ystyried y plentyn yng nghyd-destun ei fywyd. Gall ffactorau amddiffynnol gynnwys y rheini |

| | | |
|---|---|---|
| | | sy'n ymwneud â'r plentyn, fel defnydd cadarnhaol o amser hamdden ac ymgysylltu ag addysg, a ffactorau sy'n ymwneud â'r teulu ehangach, cyfoedion a rhwydweithiau cymunedol. Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod y GCI wedi nodi unrhyw gryfderau a ffactorau amddiffynnol gwirioneddol, ac unrhyw ffactorau y gellid eu gwella. Bydd arolygwyr hefyd yn chwilio am dystiolaeth bod y GCI wedi nodi cyfnodau pan nad oedd unrhyw droseddu, ac yn archwilio beth oedd y plentyn yn teimlo a oedd yn mynd yn dda iddo bryd hynny.<br><br>Gall ffactorau strwythurol fod yn rhwystrau sy'n atal y plentyn rhag cael mynediad digonol at wasanaethau cyffredinol fel addysg neu ofal iechyd. Mae gwahardd o'r ysgol yn rhwystr strwythurol arbennig o sylweddol, gan y gall wneud plentyn yn agored i ecsbloetio a thrais ieuenctid difrifol. Er y gallai plentyn fod yn derbyn rhyw fath o addysg, bydd arolygwyr yn ystyried a yw'r ddarpariaeth ei hun yn ddigonol. Er enghraifft, gall amserlenni byrrach a phecynnau amgen (gan gynnwys lleoliad mewn uned cyfeirio disgyblion) fod yn rhwystr strwythurol i'r plentyn. Os oes gan y plentyn anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol, dylai'r asesiad ystyried a oes gan y plentyn fynediad at ddarpariaeth, cefnogaeth ac adnoddau i ddiwallu ei anghenion. Gallai rhwystrau i ofal iechyd gynnwys rhestrau aros ar gyfer llwybrau arbenigol, fel gwasanaethau iechyd meddwl, neu anawsterau o ran cael gafael ar ofal iechyd sylfaenol ar gyfer anghenion iechyd corfforol, rhywiol a deintyddol.<br><br>Gellir ystyried dedfryd o garchar yn rhwystr strwythurol, a dylai asesu ystyried effaith hyn. Ar gyfer achosion adsefydlu, dylai asesu ystyried rhwystrau strwythurol critigol, fel llety addas i'w ryddhau. Pan fydd plentyn wedi cael ei remandio, dylai'r asesiad ystyried a oes digon o lety ar gael ac a oes opsiynau wedi cael eu hystyried i alluogi'r plentyn i gael mechnïaeth. |
| 2.1.06 | A yw asesu yn dadansoddi'r gallu i newid, cymryd rhan, ac integreiddio cymunedol? | Rydym yn disgwyl i'r GCI ddadansoddi gallu'r plentyn i newid, a'i allu i gymryd rhan ac ymgysylltu â'r gymuned y mae'n byw ynddi.<br><br>Dylai asesu ystyried y gymuned lle mae'r plentyn yn byw a'i ymdeimlad o gymryd rhan, perthyn, integreiddio, a chysylltiad â'r gymuned honno. Dylai ystyried ffactorau ym mywyd y plentyn a allai effeithio ar y rhain.<br><br>Dylai asesu ystyried hunaniaeth, cymhelliant a gallu'r plentyn i newid. Dylid canolbwyntio'n glir ar gryfderau er mwyn sicrhau newid cadarnhaol.<br><br>Dylai asesu fod yn seiliedig ar yr holl wybodaeth a nodwyd. Dylai gynnwys asesiad o unrhyw gysylltiad blaenorol â gwasanaethau, gan gynnwys dealltwriaeth ynghylch a oedd y plentyn wedi mynychu apwyntiadau, wedi ymgysylltu'n weithredol â'r gwasanaeth neu wedi ymddieithrio oddi wrtho, a'r rhesymau dros hynny.<br><br>Os yw'n berthnasol, dylai'r GCI ystyried effaith carcharu neu remandio ar y plentyn, yn enwedig os mai dyma ddedfryd gyntaf y plentyn yn y ddalfa neu gyfnod ar remánd. Dylai gyfeirio at unrhyw wybodaeth o |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfnodau blaenorol yn y ddalfa, gan gynnwys dalfa'r heddlu neu remánd, a'r effaith y mae'r rhain wedi'i chael ar y plentyn. |
| 2.1.07 | A yw asesiad yn adnabod ac yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | Mae arolygwyr yn disgwyl gweld archwiliad ystyrlon o unrhyw ffactorau amrywiaeth sy'n berthnasol i'r plentyn, gan gynnwys tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>Rydym yn cydnabod y naw nodwedd warchodedig (rhyw, oedran, hil, crefydd a chred, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, hunaniaeth rywiol, ailbennu rhywedd a phriodas neu bartneriaeth sifil) ac yn disgwyl gweld y rhain yn cael eu cydnabod a'u dadansoddi ar gyfer y plentyn.<br><br>Dylai asesu ystyried yr holl feysydd allweddol o groestoriadedd, hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol sy'n effeithio ar brofiad bywyd y plentyn. Dylai asesu ddadansoddi a chydnabod anghydraddoldebau, allgáu a gwahaniaethu y gallai'r plentyn eu profi. Mae angen iddo gydnabod unrhyw niwroamrywiaeth, ac iechyd meddwl a llesiant y plentyn, ac ystyried materion fel anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, awtistiaeth, anghenion lleferydd ac iaith, neu anaf i'r ymennydd, a'u heffaith ar y plentyn. Dylid nodi crefydd a'i ystyried yn briodol.<br><br>Ar ôl nodi a chydnabod anghenion amrywiol y plentyn, rydym yn disgwyl gweld dadansoddiad priodol ohonynt. Mae angen i hyn fynd y tu hwnt i restru unrhyw ffactorau sy'n berthnasol i'r plentyn unigol yn unig a chynnwys dadansoddiad o'u heffaith ar y plentyn.<br><br>Rydym yn disgwyl i ymarferwyr chwilio am wybodaeth am anghenion amrywiol y plentyn a'i gwerthuso'n feirniadol, a mabwysiadu dull agored, gonest a myfyriol o'u hadnabod a'u dadansoddi. Mae hyn yn hanfodol, er mwyn lleihau gwallau, lleihau'r potensial ar gyfer rhagfarn ymwybodol neu ddiarwybod, a sicrhau bod gweithredoedd yn gytbwys, yn rhesymegol ac yn seiliedig ar dystiolaeth dda. Mae'r dadansoddiad hwn yn hanfodol wrth ddylanwadu a phenderfynu ar ansawdd cyffredinol asesu ac a yw wedi dadansoddi'n ddigonol sut i sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn. |
| 2.1.08 | A yw asesu yn dadansoddi agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn o fewn cyd-destun y plentyn? | Mae cyd-destun y plentyn yn bwysig. Mae angen i ymarferwyr ystyried sut beth yw bywyd i'r plentyn a sut y gallai ei ymddygiad fod yn ymateb i'w amgylchiadau a'i gyd-destun, er mwyn deall agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn. Dylid cofnodi barn y plentyn yn glir.<br><br>Mae arolygwyr yn chwilio am ddadansoddiad o agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn a sut mae'r rhain wedi cyfrannu at ymddygiad troseddol y plentyn. Rydym yn disgwyl i reolwyr achos asesu pam y cyflawnodd y plentyn y drosedd, yn ogystal â sut.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r dadansoddiad archwilio beth ddigwyddodd a beth oedd barn y plentyn amdano, ar y pryd ac ar ôl hynny. Dylai ymarferwyr hefyd asesu a yw'r plentyn wedi derbyn cyfrifoldeb, a'i agwedd tuag at y drosedd neu ei gymhelliant i gyflawni'r trosedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Lle bu troseddu blaenorol neu ymddygiad sy'n peri pryder, rydym yn disgwyl i'r asesiad nodi ac ymgorffori gwybodaeth sy'n berthnasol i'r trosedd presennol, yn ogystal ag unrhyw hanes blaenorol o droseddu neu ymddygiad cysylltiedig, fel digwyddiadau heb eu collfarnu, a ryddhawyd dan ymchwiliad, neu ymddygiad hysbys arall. Os nad yw ymddygiad blaenorol y plentyn yn berthnasol i'w ymddygiad presennol, rydym yn disgwyl gweld dadansoddiad digonol i ganfod hyn.<br><br>Mae barn rhieni a gofalwyr am droseddu ac ymddygiad y plentyn hefyd yn bwysig er mwyn deall cyd-destun y plentyn. Dylai asesu archwilio effaith barn ac agweddau'r rhieni neu'r gofalwyr ar y plentyn. Dylai ymarferwyr ystyried, er enghraifft, a yw'r rhain yn parhau, yn hyrwyddo neu'n goddef ymddygiad sydd o blaid troseddu neu'n cefnogi newid a newid hunaniaeth. |
| 2.1.09 | A yw asesu yn ymateb i newid, gan gynnwys sicrhau trefniadau effeithiol parhaus i reoli'r materion hynny sydd wedi cael eu nodi er mwyn sicrhau newid cadarnhaol? | Bydd arolygwyr yn barnu a yw'r broses asesu gyffredinol yn ystyried, yn dadansoddi ac yn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn. Dylai asesu ymateb i wybodaeth newydd a gwybodaeth sy'n newid yn brydlon a sicrhau bod hyn yn cefnogi trefniadau effeithiol sy'n galluogi'r plentyn i sicrhau newid cadarnhaol.<br><br>Mae angen i asesu fod yn ddeinamig ac yn amserol, ac ystyried yn weithredol unrhyw newidiadau yng nghyd-destun y plentyn a'i amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach, cryfderau, ffactorau amddiffynnol a strwythurol, y gallu i newid, integreiddio cymunedol, cyfranogi a chyd-gynhyrchu, amrywiaeth, ac agweddau, cymhelliant ac ymddygiad. Rhaid i'r GCI ddangos tystiolaeth bod asesu'n ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau neu wybodaeth newydd.<br><br>Rhaid ystyried newidiadau fel remandio i lety cadw ieuenctid neu lety awdurdod lleol, dedfrydau o garchar, rhyddhau ar fechnïaeth, neu ryddhau yn dilyn dedfryd o garchar mewn modd amserol. Dylai asesu hefyd gydnabod a yw gorchymyn neu ddatrysiad yn dod i ben. Dylai ymarferwyr ddadansoddi'n briodol yr hyn y gallai fod ei angen i gefnogi cynllunio ymadael a nodi'r adnoddau neu'r gefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn.<br><br>Lle bo'n briodol, dylai hyn gynnwys cael gwybodaeth gan bobl eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn i sicrhau bod dealltwriaeth gyfredol a rennir o'r plentyn, a bod gwybodaeth berthnasol a chyfredol yn hysbys a bod ei heffaith yn cael ei dadansoddi a'i deall. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei wneud mewn modd amserol ac ymatebol pan fydd newid neu pan fydd gwybodaeth newydd ar gael.<br><br>Mae bod yn ymatebol i newid yn cynnwys asesu ymgysylltiad y plentyn hyd yma, a'i ymatebion i'r gweithgarwch a'r ymyriadau sydd wedi cael eu darparu.<br><br>Dylai'r plentyn gymryd rhan weithredol mewn gweithgarwch asesu parhaus a thrafodaethau ynghylch newid, yn ogystal â marcio ei gynnydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid ydym bob amser yn disgwyl gweld adolygiad ysgrifenedig ffurfiol ond rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth sy'n dangos bod asesu wedi ymateb yn briodol i newid. Gall tystiolaeth ddod o adolygiadau ysgrifenedig, asesiadau ffurfiol, cofnodion achos parhaus, neu o drafodaeth gyda rheolwr yr achos.<br><br>Os yw gwybodaeth am newidiadau perthnasol yn hysbys, ond nad yw'r GCI wedi ymateb i hyn mewn modd ymatebol, deinamig ac amserol, bydd arolygwyr yn ateb y cwestiwn hwn yn negyddol. |
| 2.1.10 | Ym mha faes yr oedd angen gwneud newidiadau ar gyfer y plentyn? | Gofynnir i arolygwyr nodi ffactorau o'r rhestr ganlynol sy'n berthnasol i'r plentyn. Ni fwriedir i'r rhestr fod yn gynhwysfawr, ond mae'n nodi ffactorau y byddem yn disgwyl i staff y GCI eu nodi a mynd i'r afael â nhw:<br><br>• camddefnyddio sylweddau<br>• dysgu ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (gan gynnwys addysg gymdeithasol)<br>• trefniadau byw<br>• llesiant emosiynol<br>• lleferydd, iaith a chyfathrebu<br>• ffordd o fyw/gweithgarwch cadarnhaol<br>• niwroamrywiaeth<br>• perthnasau teuluol/cymheiriaid<br>• agwedd at droseddu. |
| **2.1.11** | **A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol sut i sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?** | Bydd arolygwyr yn barnu a yw'r asesiad cyffredinol yn ystyried anghenion y plentyn ac yn dadansoddi'n ddigonol sut i sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn, beth bynnag fo natur yr achos, y ddedfryd, y datrysiad neu'r gefnogaeth.<br><br>Mae asesu sy'n dadansoddi ac yn cydnabod anghenion amrywiol y plentyn yn ddigonol yn elfen hollbwysig pan fydd arolygwyr yn ystyried eu dyfarniadau ynghylch ddigonolrwydd. Dylai'r asesiad cychwynnol fod yn brydlon ac yn gymesur ag anghenion y plentyn, a dylid ei gynnal yn ddigon cynnar yn ystod y cyfnod o weithio gyda'r plentyn i lywio'r gwaith cynllunio a darparu. Dylai asesu parhaus fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn amserol.<br><br>Dylai llais y plentyn fod yn amlwg drwy gydol y broses, ac rydym yn disgwyl i'r broses asesu ddangos bod staff y GCI yn deall y plentyn yng nghyd-destun ei fywyd.<br><br>Gall asesu digonol ar gyfer plentyn sydd â hanes cyfyngedig o droseddu ac ychydig o anghenion fod yn llai manwl nag ar gyfer plentyn sydd wedi ymwneud mwy â chyfiawnder troseddol neu sydd â lefel uwch o angen. Dylai'r broses asesu fod yn bwrpasol i'r plentyn. Dylai ddibynnu ar anghenion, nodweddion ac amgylchiadau unigol y plentyn, natur y drosedd a chyd-destun cysylltiad y plentyn â'r GCI. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae angen i arolygwyr ystyried eu hatebion i'r holl gwestiynau yn yr adran hon a phenderfynu a yw'r cryfderau'n gorbwyso unrhyw ddiffygion. Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd, ond rydym eisiau asesiad digonol o'r ffactorau pwysig er mwyn sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn.<br><br>Os oes bylchau yn y gweithgarwch asesu, bydd arolygwyr yn ystyried eu heffaith yng nghyd-destun y plentyn. Mewn rhai amgylchiadau, gall hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad annigonol. Er enghraifft, efallai y bernir bod asesu a fethodd ystyried anabledd dysgu plentyn yn annigonol, hyd yn oed os oedd yn cynnwys yr holl ffactorau eraill a oedd yn berthnasol i gyflawni newid cadarnhaol i'r plentyn. |

| 2.1.2 | A yw asesu'n dadansoddi'n ddigonol sut i sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned? | |
|---|---|---|
| | **Cwestiwn arolygu** | **CARaG** |
| 2.1.20 | A yw asesu'n nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn? | Gall risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn gynnwys nifer o ffactorau a dod o amrywiaeth o ffynonellau. Gellir eu rhannu'n dri chategori'n fras:<br>• pryderon y tu allan i'r cartref<br>• pryderon yn y cartref<br>• ymddygiad y plentyn.<br><br>Mae amrywiaeth o ffactorau cadarnhaol a negyddol sy'n gallu dylanwadu ar ddiogelwch a llesiant plentyn. Disgwylir i'r GCI ystyried y rhain yn eu gweithgarwch asesu, yn ogystal â chydnabod y berthynas gymhleth rhyngddynt. Gallai'r ffactorau gynnwys cam-drin teuluol, esgeulustod, rhieni'n camddefnyddio sylweddau, trais domestig, diogelwch neu ddiffyg llety, pa mor gyffredin yw mynediad at gyffuriau ac alcohol yn y gymuned, tlodi, ynysu cymdeithasol (gan gynnwys gwahardd o'r ysgol neu amserlenni llai), ecsbloetio, bwlio, hunaniaethau o blaid troseddu, iechyd meddwl a chorfforol, niwroamrywiaeth, hunanwerth isel, hunan-niweidio, cyfnodau coll, ac ymddygiad (ganddyn nhw eu hunain neu eraill) sy'n rhoi'r plentyn mewn perygl o ran eu diogelwch a'u llesiant.<br><br>Gall profiad o ofal, trawma, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac adfyd presennol olygu bod risgiau i ddiogelwch a llesiant y plentyn yn cynyddu. Rydym yn disgwyl i'r GCI ystyried a dadansoddi'r rhain wrth asesu diogelwch a llesiant y plentyn.<br><br>Mae pryderon diogelwch sy'n ymwneud â'r plentyn a phobl eraill, fel cario cyllyll neu arfau eraill, bod ym meddiant cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a dylanwad cyfoedion, yn aml yn gorgyffwrdd ac yn cydblethu. Bydd arolygwyr yn disgwyl i ymarferwyr fod wedi ystyried hyn yn eu gweithgarwch asesu.<br><br>Ar ôl nodi'r pryderon ynghylch diogelwch a llesiant, dylai ymarferwyr ddadansoddi effaith bosibl y pryderon hynny ar y plentyn. Dylent ystyried yr amgylchiadau a'r cyd-destun lle mae'r pryderon ynghylch diogelwch a llesiant yn debygol o ddigwydd.<br><br>Dylai asesu nodi unrhyw gymorth, strwythurau amddiffynnol ac ymyriadau presennol sydd ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn a sut y gellir adeiladu ar y rhain. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch beth yw'r cymorth, ac esboniad o sut mae'r plentyn yn ymateb iddo. Gallai cymorth gynnwys cymorth a roddir ar waith gan rieni neu ofalwyr, cwnsela, dulliau sy'n seiliedig ar drawma, cymorth addysgol, neu wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag afiechyd meddwl neu gorfforol, neu gamddefnyddio sylweddau. Gallai hefyd gynnwys cefnogaeth fwy ffurfiol, fel amodau |

| | | |
|---|---|---|
| | | mechnïaeth neu weithdrefnau amddiffyn plant. Pan fydd risgiau i'r plentyn y tu allan i'r cartref, mae arolygwyr yn disgwyl gweld dull diogelu cyd-destunol i sicrhau bod risgiau'n cael eu deall a'u hasesu'n briodol. Dylid hefyd ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, gan gynnwys ffactorau amddiffynnol mewnol (fel teimlad o hunan-effeithiolrwydd a hunaniaeth rhag-gymdeithasol) wrth nodi'r hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch a llesiant y plentyn. Dylai llais a barn y plentyn gael eu hymgorffori a bod yn amlwg drwyddi draw a dylai barn rhieni a gofalwyr gael ei chynnwys a'i hystyried.<br><br>Mae egwyddorion 'Plentyn yn gyntaf' yn nodi bod mynd i'r afael â'r risgiau o niwed **i'r plentyn** neu eraill yn hanfodol er mwyn darparu lle diogel ar gyfer datblygiad plentyn, ac ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Gellir deall hyn mewn ffordd gadarnhaol, fel cadw pawb yn ddiogel, ac iechyd a diogelwch, ac rydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth ohono wrth asesu gweithgarwch.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir bod y GCI wedi gofyn i asiantaethau eraill am wybodaeth am ddiogelwch a llesiant y plentyn ac wedi'i defnyddio'n briodol fel rhan o'i weithgarwch asesu. Mae hyn yn cynnwys ceisio gwybodaeth ychwanegol ac asesiadau a gwblhawyd gan asiantaethau eraill, fel addysg, iechyd, iechyd meddwl, sefydliadau cadw, a gofal cymdeithasol plant, i lywio gweithgarwch asesu. Gall gwybodaeth gan yr heddlu a MAPPA (trefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn y cyhoedd) fod yn berthnasol hefyd.<br><br>Dylid cael asesiad penodol o'r effaith y bydd dedfryd o garchar neu remandio i lety cadw ieuenctid yn ei chael ar y plentyn, lle bo hyn yn berthnasol. Dylai asesu ystyried effaith y ffaith bod y plentyn i ffwrdd o'i gartref, ei deulu a'i grŵp cyfoedion, a'r risgiau diogelu posibl o gael ei roi mewn lleoliad caethiwo. Dylid asesu effaith carcharu ar iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol y plentyn. Gallai hyn gynnwys risgiau gan eraill mewn lleoliad diogel, defnydd posibl o ataliaeth, a risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. |
| 2.1.21 | A yw asesu yn nodi'n glir ac yn dadansoddi'r hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch pobl eraill, gan ystyried risgiau'n ddigonol? | Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth asesu beth sydd ei angen i sicrhau diogelwch pobl eraill yn sgil troseddu neu ymddygiad y plentyn, ac rydym yn disgwyl gweld ystyriaeth o'r **holl ffactorau perthnasol** ac nid dim ond y rheini lle mae risg o **niwed difrifol** i ddiogelwch pobl eraill.<br><br>Gallai pobl eraill gynnwys aelodau o'r cyhoedd, staff, aelodau o'r teulu, ffrindiau, partneriaid, dioddefwyr hysbys neu ddioddefwyr anhysbys posibl.<br><br>Rydym yn disgwyl i ymarferwyr nodi a dadansoddi'n glir yr hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch pobl eraill ac mae angen i hyn ystyried eu diogelwch a'u llesiant corfforol, rhywiol, seicolegol ac emosiynol. Mae asesu'n glir angen nodi natur unrhyw bryderon, pryd y gallai'r rhain ddigwydd (gan gynnwys amgylchiadau, cyd-destun a thebygolrwydd), pam y gallent ddigwydd, ac i bwy.<br><br>Ar ôl nodi unrhyw bryderon sy'n ymwneud â phobl eraill, dylai'r GCI nodi a dadansoddi'r hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch pobl eraill a dylai ddadansoddi'r effaith bosibl os na chyflawnir hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dylai asesu nodi unrhyw gymorth ac ymyriadau presennol sydd ar waith neu y mae angen iddynt fod ar waith i hyrwyddo diogelwch pobl eraill a sut y gellir adeiladu ar y rhain. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch beth yw'r cymorth, ac esboniad o sut mae'r plentyn yn ymateb iddo. Gallai cymorth gynnwys cymorth a roddir ar waith gan rieni neu ofalwyr, cwnsela, dulliau sy'n seiliedig ar drawma, cymorth addysgol, neu wasanaethau a ddarperir gan asiantaethau allanol. Gallai hefyd gynnwys ffactorau fel amodau mechnïaeth neu drwydded, parthau cyfyngu/gwahardd, gwaith gyda dioddefwyr, cynlluniau neu weithdrefnau rheoli risg a chynlluniau cyd-destun. Dylid hefyd ystyried cryfderau'r plentyn, gan gynnwys ffactorau amddiffynnol mewnol (fel teimlad o hunan-effeithiolrwydd a hunaniaeth rhag-gymdeithasol) wrth nodi'r hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch bobl eraill.<br><br>Dylid cynnwys llais a barn y plentyn a dylai hyn fod yn amlwg drwy gydol y broses. Dylai fod tystiolaeth bod y plentyn wedi cyfrannu at asesu'r pryderon ac wedi ystyried y tebygolrwydd y bydd y pryder(on) yn digwydd. Dylid cynnwys ac ystyried barn rhieni a gofalwyr.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir bod y GCI wedi mynd ati i ofyn i asiantaethau eraill am wybodaeth ac wedi'i defnyddio'n briodol fel rhan o'i weithgarwch asesu. Mae hyn yn cynnwys ceisio gwybodaeth ychwanegol gan yr heddlu a MAPPA, ac o asesiadau a gwblhawyd gan asiantaethau eraill, fel addysg, iechyd, iechyd meddwl, sefydliadau cadw, a gofal cymdeithasol plant.<br><br>Mae arolygwyr yn disgwyl i ymarferwyr archwilio cofnodion y GCI i gael gwybodaeth am euogfarnau presennol a blaenorol y plentyn, ymddygiad blaenorol (gan gynnwys y rhai na arweiniodd at ganlyniad troseddol ond sy'n berthnasol i ymddygiad neu droseddu'r plentyn), dogfennau erlyn, a gwybodaeth am unrhyw ddatrysiadau anffurfiol neu y tu allan i'r llys. Rydym yn disgwyl gweld bod y GCI wedi ystyried effaith ffactorau fel anawsterau dysgu, profiad o drawma, a niwroamrywiaeth ar ymddygiad y plentyn yn y dyfodol.<br><br>Mae egwyddorion 'Plentyn yn gyntaf' yn nodi bod mynd i'r afael â'r risgiau o niwed i'r plentyn **neu eraill** yn hanfodol er mwyn darparu lle diogel ar gyfer datblygiad plentyn, ac ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Gellir deall hyn mewn ffordd gadarnhaol, fel cadw pawb yn ddiogel, ac iechyd a diogelwch, ac rydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth ohono wrth asesu gweithgarwch.<br><br>Mae pryderon diogelwch sy'n ymwneud â'r plentyn a phobl eraill, fel cario cyllyll neu arfau eraill, bod ym meddiant cyffuriau anghyfreithlon, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a dylanwad cyfoedion, yn aml yn gorgyffwrdd ac yn cydblethu. Bydd arolygwyr yn disgwyl i'r GCI fod wedi ystyried hyn yn eu gweithgarwch asesu. Gall anghenion unigol y plentyn fod yn berthnasol hefyd, fel anawsterau dysgu neu niwroamrywiaeth a lle bo'r rhain yn berthnasol, dylid eu hystyried wrth gadw pobl eraill yn ddiogel. |
| 2.1.22 | A yw asesu yn nodi ac yn dadansoddi'n | Mae amrywiaeth o ffactorau a all wneud plentyn yn agored i niwed, neu mewn perygl o gael ei erlid neu ei ecsbloetio. Gall y rhain gynnwys profiad o drawma, cam-drin domestig, esgeulustod, llety, tlodi, |

| | | |
|---|---|---|
| | ddigonol materion sy’n ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio? | anawsterau dysgu, niwroamrywiaeth neu anghenion addysgol arbennig, peidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, profiad o ofal, cyfnodau ar goll o’r cartref, dylanwad cyfoedion, profedigaeth, tarfu ar berthnasoedd â chyfoedion, y cyd-destun neu’r amgylchedd y maent yn byw ynddo, yr angen am ymdeimlad o berthyn, anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu anawsterau ariannol. Efallai y bydd adegau allweddol o risg i’r plentyn, fel gwahardd o’r ysgol neu symud rhwng lleoliadau gofal.<br><br>Mae angen i’r GCI fod yn ymwybodol o ddangosyddion o ran bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio a sicrhau eu bod wedi nodi a dadansoddi unrhyw ffactorau perthnasol ym mywyd y plentyn yn ddigonol. Wrth gynnal asesiadau, dylai ymarferwyr ddangos chwilfrydedd proffesiynol am yr hyn sy’n digwydd ym mywyd y plentyn, a bod yn effro i’r amrywiaeth o fathau posibl o ecsbloetio, a all gynnwys y canlynol:<br>• ecsbloetio troseddol a rhywiol, gan gynnwys llinellau cyffuriau<br>• caethwasiaeth fodern a masnachu pobl<br>• ecsbloetio gan gyfoedion<br>• radicaleiddio<br>• trais difrifol, gan gynnwys trais sy’n gysylltiedig â grŵp neu gyfoedion<br>• ecsbloetio ar-lein ar y rhyngrwyd (troseddau cyswllt a digyswllt)<br>• priodas dan orfod, cam-drin ar sail anrhydedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod.<br><br>Mae arolygwyr yn disgwyl gweld ymarferwyr yn defnyddio offer sgrinio priodol i ganfod a dadansoddi’n ddigonol unrhyw achosion o fod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio’r plentyn.<br><br>Mae angen i’r GCI ddefnyddio iaith briodol wrth nodi a dadansoddi risgiau i’r plentyn ac ystyried a rhoi sylw i ffactorau fel trin plant fel oedolyn a beio’r dioddefwr.<br><br>Dylid ymgorffori llais a barn y plentyn o ran ei erledigaeth, ecsbloetio a bod yn agored i niwed, a dylai hyn fod yn amlwg wrth asesu. Dylid cynnwys ac ystyried barn rhieni a gofalwyr.<br><br>Os dedfrydir plentyn i’r ddalfa neu ei remandio, bydd arolygwyr yn disgwyl gweld asesiad priodol o ran bod yn agored i niwed a thuedd y plentyn i gael ei erlid neu ei ecsbloetio mewn cofnodion sy’n ymwneud â’r argymhelliad lleoli cychwynnol. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth bod y GCI yn argymell lleoliad mewn sefydliad penodol (fel ysgol ddiogel, canolfan hyfforddi ddiogel neu gartref diogel i blant) fel rhan o’u gweithgarwch asesu. |
| 2.1.23 | A yw’r asesu yn ymgorffori anghenion a | Nid yw’r cwestiwn hwn yn berthnasol mewn achosion mechnïaeth neu remánd.<br><br>Mae arolygwyr yn disgwyl i anghenion a dymuniadau dioddefwyr gael eu cynnwys yn y gwaith o asesu, lle mae dioddefwyr yn cael eu hadnabod. |

| | | |
|---|---|---|
| | dymuniadau'r dioddefwyr? | Os yw dioddefwr wedi ymgysylltu â'r sawl sy'n gweithio gyda dioddefwyr neu weithiwr cyfiawnder adferol yn y GCI ac wedi mynegi ei anghenion a'i ddymuniadau, neu os yw anghenion a dymuniadau'r dioddefwr yn hysbys, dylid cofnodi ac ystyried y rhain yn glir mewn gweithgarwch asesu ar gyfer y plentyn. Gall hyn gynnwys unrhyw anghenion neu ddymuniadau a nodwyd gan ddioddefwr ynglŷn â'i gadw'n ddiogel rhag niwed gan y plentyn yn y dyfodol. Dylid ystyried a chynnwys gwybodaeth o bapurau'r erlyniad, datganiadau effaith ar y dioddefwr neu unrhyw ffynonellau gwybodaeth eraill sy'n ymwneud ag anghenion a dymuniadau'r dioddefwr mewn gweithgarwch asesu (yn enwedig os yw dioddefwr wedi dewis peidio ag ymgysylltu neu os nad yw'r GCI wedi cael manylion cyswllt neu ganiatâd i gysylltu).<br><br>Unrhyw farn y gallai'r dioddefwr fod wedi'i mynegi ynghylch y datrysiad (er enghraifft, os yw datrysiad y tu allan i'r llys yn cael ei ystyried), gwneud iawn neu unrhyw weithgarwch adferol, fel llythyr ymddiheuro, cyfryngu gwennol, gwneud iawn uniongyrchol neu anuniongyrchol, neu (lle bo hynny'n briodol) dylid cynnwys cyfarfod adferol mewn gweithgarwch asesu.<br><br>Os yw dioddefwr yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgarwch adferol, dylai'r GCI ystyried capasiti, gallu ac addasrwydd y plentyn a'r dioddefwr i gymryd rhan yn y gweithgarwch hwn. Dylid ystyried unrhyw geisiadau gan y dioddefwr o ran diogelwch (i'r plentyn a'r dioddefwr), a dylid eu cydbwyso â gofynion y datrysiad, ac ymwybyddiaeth o amserlenni a statws y datrysiad. |
| 2.1.24 | A yw asesu yn dadansoddi'n ddigonol a ellid gwneud gwaith ar y cyd â rhieni neu ofalwyr y plentyn a fyddai'n cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel? | Gall rhieni a gofalwyr gadw gwybodaeth amhrisiadwy am y plentyn a chyd-destun ei fywyd. Rydym yn disgwyl i'r GCI gydnabod mai rhieni a gofalwyr yn aml sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion a chryfderau eu plentyn, gan gynnwys sut mae ymgysylltu a chyfathrebu â nhw, a'u bod yn gallu chwarae rhan gydweithredol bwysig o ran cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Dylai ymarferwyr fynd ati'n rhagweithiol i greu cyfleoedd i rieni a gofalwyr gymryd rhan weithredol mewn asesiadau risg, cynllunio diogelwch, ymyriadau ac adolygiadau, a chynnig ffyrdd iddynt gyfrannu fel partneriaid yn y gwaith sy'n cael ei wneud.<br><br>Dylai'r GCI ystyried rôl rhieni neu ofalwyr y plentyn o ran cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Dylai sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hymgorffori ac ystyried a oes modd gwneud gwaith ar y cyd â nhw i gefnogi diogelwch y plentyn a phobl eraill. Dylai asesu ystyried gallu, capasiti a chymhelliant rhieni a gofalwyr i gydweithio â'r GCI, i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o'r graddau y mae rhieni a gofalwyr yn cydnabod effaith ymddygiad y plentyn, a'u parodrwydd a'u gallu i gymryd rhan mewn gwaith a fydd yn cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel.<br><br>Mae'n bosibl nad yw pob rhiant a gofalwr yn gallu bod yn bartneriaid yn y gwaith o ddiogelu'r plentyn neu'r gymuned, am amrywiaeth o resymau. Lle bo hyn yn wir, rydym yn disgwyl i'r GCI fod wedi cwblhau dadansoddiad a thystiolaeth ddigonol sy'n dangos pam nad yw hyn yn briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rydym yn disgwyl gweld y GCI yn nodi a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol ar rieni a gofalwyr i gydweithio, er enghraifft defnyddio dehonglwyr.<br><br>Ar gyfer plentyn sydd â phrofiad o ofal, dylid cynnwys barn y gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n gweithio gyda'r plentyn hefyd. |
| 2.1.25 | A yw asesu yn ymateb i newid, gan gynnwys sicrhau trefniadau effeithiol parhaus i reoli'r materion hynny a nodwyd er mwyn sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned? | Bydd arolygwyr yn barnu a yw'r broses asesu gyffredinol yn ystyried, yn dadansoddi ac yn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn sydd wedi effeithio, neu a allai effeithio, ar ddiogelwch y plentyn a'r gymuned (yn gadarnhaol ac yn negyddol).<br><br>Dylai asesu ymateb i wybodaeth newydd a gwybodaeth sy'n newid yn brydlon a sicrhau bod hyn yn cefnogi trefniadau effeithiol i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Mae angen i asesu fod yn ddeinamig ac yn amserol, ac ystyried yn weithredol unrhyw newidiadau i gyd-destun y plentyn a'i amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach, ei gryfderau, ei ffactorau amddiffynnol a strwythurol. Gall troseddu pellach neu ymddygiad sy'n peri pryder, newidiadau mewn meddyginiaeth, ymgysylltu, iechyd meddwl, neu lety, er enghraifft, leihau neu gynyddu pryderon mewn perthynas â'r plentyn a'r gymuned. Rhaid i'r GCI ddangos tystiolaeth bod asesu'n ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau neu wybodaeth newydd.<br><br>Rhaid ystyried newidiadau fel remandio i lety cadw ieuenctid neu lety awdurdod lleol, dedfrydau o garchar, rhyddhau ar fechnïaeth, a rhyddhau yn dilyn dedfryd o garchar mewn modd amserol. Dylai ymarferwyr ystyried yn llawn eu heffaith ar ddiogelwch y plentyn a diogelwch y gymuned.<br><br>Dylai asesu hefyd ystyried a yw gorchymyn neu ddatrysiad yn dod i ben a dadansoddi'n briodol y cynllunio ar gyfer ymadael a'r adnoddau neu'r gefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned.<br><br>Lle bo'n briodol, dylai hyn gynnwys cael gwybodaeth gan bobl eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn i sicrhau bod dealltwriaeth gyfredol a rennir o'r plentyn, a bod gwybodaeth berthnasol a chyfredol yn hysbys a bod ei heffaith yn cael ei dadansoddi a'i deall. Rydym yn disgwyl i hyn gael ei wneud mewn modd amserol ac ymatebol pan fydd newid neu pan fydd gwybodaeth newydd ar gael.<br><br>Mae bod yn ymatebol i newid yn cynnwys asesu ymgysylltiad y plentyn hyd yma, a'i ymatebion i'r gweithgarwch a'r ymyriadau sydd wedi cael eu darparu; a sut gallai hyn effeithio ar gynnydd tuag at ddiogelwch i'r plentyn a'r gymuned.<br><br>Dylai'r plentyn gymryd rhan weithredol mewn gweithgarwch asesu parhaus a thrafodaethau ynghylch newid, yn ogystal â'i gynnydd.<br><br>Nid yw arolygwyr o reidrwydd yn disgwyl gweld adolygiad ysgrifenedig ffurfiol ond maent yn disgwyl gweld tystiolaeth sy'n dangos bod asesu wedi ymateb yn briodol i newid. Gall tystiolaeth ddod o |

| | | |
|---|---|---|
| | | adolygiadau ysgrifenedig, asesiadau ffurfiol, cofnodion achos parhaus, neu o drafodaeth gyda rheolwr yr achos. Os yw gwybodaeth berthnasol am newidiadau yn hysbys, ond nad yw'r GCI wedi ymateb i hyn mewn modd deinamig ac amserol, bydd hyn yn cael ei ystyried yn annigonol. |
| 2.1.26 | Beth yw dosbarthiad lefel diogelwch a llesiant y plentyn, **yn ôl y rheolwr achos?** | Dylai pob achos fod â lefel benodol o bryder sy'n ymwneud â diogelwch a llesiant y plentyn; dylid cofnodi hyn yn gywir ac yn gyson. Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y dosbarthiad ar ddyddiad gwaith maes yr arolygiad.<br><br>Mae gan fframwaith AssetPlus y diffiniadau canlynol o bryderon diogelwch a llesiant am y plentyn:<br><br>• Isel: Ni nodwyd unrhyw risgiau i ddiogelwch a llesiant y person ifanc neu mae'r risgiau a nodwyd yn annhebygol o ddigwydd ac ni fyddent yn effeithio ar ddiogelwch a llesiant uniongyrchol y person ifanc.<br>• Canolig: Nodwyd rhai risgiau i ddiogelwch a llesiant y person ifanc ac maent yn debygol o ddigwydd. Mae diogelwch a llesiant uniongyrchol y person ifanc yn annhebygol o gael ei beryglu ar yr amod bod camau gweithredu penodol yn cael eu cymryd.<br>• Uchel: Nodwyd risgiau amlwg i ddiogelwch a llesiant y plentyn neu'r person ifanc. Mae'r risgiau'n debygol o ddigwydd a byddai'r effaith yn peryglu diogelwch a llesiant y person ifanc. Mae angen gweithredu yn y dyfodol agos ac maent yn debygol o gynnwys asiantaethau eraill yn ogystal â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.<br>• Uchel iawn: Nodwyd risgiau amlwg i ddiogelwch a llesiant y person ifanc. Maent ar fin digwydd ac nid yw'r person ifanc yn ddiogel. Mae angen cymryd camau ar unwaith i amddiffyn y person ifanc, a fydd yn cynnwys (neu sydd eisoes wedi cynnwys) atgyfeiriad at wasanaethau amddiffyn plant statudol.<br><br>Ar gyfer asesu sydd wedi defnyddio PDAT, mae arolygwyr yn cydnabod y bydd ymarferwyr yn defnyddio'r pedwar dosbarthiad a nodir yn y canllawiau:<br><br>• Isel: Nid oes unrhyw bryderon am ddiogelwch a llesiant y plentyn wedi cael eu nodi, nac yn debygol o ddigwydd, a fyddai'n cael effaith ar ddiogelwch a llesiant y plentyn.<br>• Canolig: Mae rhai pryderon ynghylch diogelwch a llesiant wedi cael eu nodi, ond nid ydynt yn debygol o achosi canlyniadau diogelwch a llesiant niweidiol difrifol i'r plentyn oni bai fod amgylchiadau'n newid. Dylid cymryd camau i liniaru hyn.<br>• Uchel: Nodwyd pryderon am ddiogelwch a llesiant y plentyn sy'n digwydd ar hyn o bryd neu a allai ddigwydd yn y dyfodol agos a gallai'r effaith bosibl fod yn ddifrifol. Mae angen gweithredu nawr neu'n fuan i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Uchel iawn: Mae pryderon amlwg am ddiogelwch y plentyn yn uniongyrchol neu ar unwaith ac mae angen cymryd camau yn syth i amddiffyn y plentyn. Os na chymerir y cam hwn, gallai'r effaith ar y plentyn fod yn ddifrifol iawn |
| 2.1.28 | Ydy dosbarthiad y rheolwr achos o lefel diogelwch a llesiant y plentyn yn rhesymol? | Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y dosbarthiad ar ddyddiad gwaith maes yr arolygiad.<br><br>Wrth wneud yr asesiad hwn, bydd arolygwyr yn ystyried yr holl wybodaeth am y plentyn a oedd ar gael i'r GCI ar ddyddiad yr arolygiad ac yn arwain ato.<br><br>Bydd arolygwyr yn ystyried a yw'r dosbarthiad yn gywir, yn adlewyrchu amgylchiadau'r plentyn a'r wybodaeth a oedd gan y GCI am y plentyn, ac yn rhesymol ar sail yr wybodaeth hon.<br><br>Rydym yn disgwyl esboniad clir a rhesymegol o'r rhesymau pam mae lefel benodol o ddiogelwch a llesiant wedi cael ei gosod. Dylai'r rhain gael eu llywio gan yr wybodaeth sydd ar gael a chan ddiffiniadau o AssetPlus, PDAT neu adnoddau a gynlluniwyd yn lleol.<br><br>Bydd arolygwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon wrth farnu a yw dosbarthiad yr asesiad yn rhesymol.<br><br>Rydym yn cydnabod bod union lefel diogelwch a llesiant yn bwynt ar gontinwwm, ac ar gyfer achosion sy'n agos at y ffin rhwng dwy lefel, bod y dosbarthiad yn gofyn am farn fanwl.<br><br>Gall ffactorau sy'n gallu arwain at gamddosbarthu gynnwys y canlynol:<br><br>• defnydd gwael o adnoddau asesu a dogfennau annigonol, gan arwain at anwybyddu ffactorau pwysig<br>• diffyg chwilfrydedd proffesiynol neu ddadansoddiad gwael o wybodaeth<br>• anwybyddu ffactorau arwyddocaol sy'n rhoi'r plentyn mewn perygl, gyda sylwadau sy'n peri pryder gan y plentyn am risgiau ddim yn cael eu harchwilio<br>• ffocws annigonol ar bryderon diogelwch ochr yn ochr â ffactorau diogelu a nodwyd<br>• dim digon o sylw'n cael ei roi i ddiogelu cyd-destunol neu niwed y tu allan i'r cartref<br>• diffyg ystyriaeth i bryderon/cryfderau posibl yn y dyfodol a chanlyniadau andwyol/cadarnhaol<br>• rhagdybiaeth bod risgiau'n cael sylw drwy gyfnodau yn y ddalfa<br>• methiant i adnabod gwybodaeth am bryderon cynyddol neu is wrth adolygu.<br><br>**Os bydd arolygydd yn ystyried bod y dosbarthiad yn afresymol, ni fydd hynny ar ei ben ei hun yn arwain at ddyfarniad cryno negyddol.** |
| 2.1.29 | Beth yw dosbarthiad lefel diogelwch pobl eraill a'r gymuned, | Dylai pob achos fod â lefel o ddiogelwch wedi'i dynodi'n glir i bobl eraill, ni waeth pa adnodd asesu a ddefnyddir. Dylid cofnodi hyn yn gywir ac yn gyson.<br><br>Mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y dosbarthiad ar ddyddiad gwaith maes yr arolygiad. |

| | | |
|---|---|---|
| | **yn ôl y rheolwr achos?** | Ar gyfer asesu sydd wedi defnyddio adnodd asesu AssetPlus, mae arolygwyr yn cydnabod y bydd y dosbarthiad yn cyfeirio at ddiffiniad o niwed difrifol. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn diffinio niwed difrifol fel 'marwolaeth neu anaf (corfforol neu seicolegol) sy'n peryglu bywyd a/neu'n drawmatig ac y disgwylir i'r broses wella fod yn anodd, yn anghyflawn neu'n amhosibl'.<br><br>Mae gan fframwaith AssetPlus y diffiniadau canlynol o risg o niwed difrifol:<br><br>• Risg isel: Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i ddangos y tebygolrwydd o ymddygiad niweidiol difrifol yn y dyfodol.<br>• Risg ganolig: Mae rhywfaint o risg wedi'i nodi ond nid yw'r person ifanc yn debygol o achosi niwed difrifol oni bai fod yr amgylchiadau'n newid. Gellir mynd i'r afael â materion perthnasol fel rhan o'r broses oruchwylio arferol.<br>• Risg uchel: Mae risg o niwed difrifol wedi'i nodi. Gallai'r digwyddiad posibl ddigwydd unrhyw bryd a byddai'r effaith yn ddifrifol. Dylid cymryd camau yn y dyfodol agos a bydd angen goruchwyliaeth a monitro ychwanegol ar yr achos, er enghraifft goruchwyliaeth gan reolwyr canol neu uwch reolwyr, neu gofrestriad lleol.<br>• Risg uchel iawn: nodwyd bod risg o niwed difrifol ar fin digwydd. Bydd y person ifanc yn ymddwyn yn y ffordd sydd wedi'i nodi cyn gynted ag y daw'r cyfle, a byddai'r effaith yn ddifrifol. Mae'n debygol y bydd angen gweithredu amlasiantaethol ar unwaith. Mae'r digwyddiad posibl yn fwy tebygol na pheidio o ddigwydd yn fuan iawn.<br><br>Ar gyfer asesu gan ddefnyddio PDAT, mae arolygwyr yn cydnabod y bydd staff y GCI yn asesu diogelwch a llesiant eraill a allai ddeillio o ymddygiad y plentyn, nid niwed difrifol yn unig. Mae pedwar dosbarthiad:<br><br>• Isel: Nid oes unrhyw bryderon am ddiogelwch a llesiant tuag at bobl eraill wedi cael eu nodi, nac yn debygol o ddigwydd, a fyddai'n cael effaith ar ddiogelwch a llesiant pobl eraill.<br>• Canolig: Mae rhai pryderon ynghylch diogelwch a llesiant wedi cael eu nodi, ond nid ydynt yn debygol o achosi canlyniadau andwyol diogelwch a llesiant difrifol oni bai fod amgylchiadau'n newid. Dylid cymryd camau i liniaru hyn.<br>• Uchel: Nodwyd pryderon am ddiogelwch a llesiant pobl eraill yn sgil ymddygiad y plentyn. Mae'r rhain yn digwydd ar hyn o bryd neu gallent ddigwydd yn y dyfodol agos a gallai'r effaith bosibl fod yn ddifrifol. Mae angen gweithredu nawr neu'n fuan i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.<br><br>Uchel iawn: Mae pryderon clir am ddiogelwch a llesiant pobl eraill yn sgil ymddygiad y plentyn. Bydd hyn yn digwydd ar unwaith neu mae ar fin digwydd ac mae angen gweithredu'n syth i ddiogelu eraill. Os na chymerir y cam hwn, gallai'r effaith ar bobl eraill fod yn ddifrifol iawn.<br><br>Os defnyddir unrhyw adnodd asesu arall, rydym yn dal i ddisgwyl gweld fframwaith dosbarthu gyda diffiniadau tebyg i'r rhain yn cael ei ddefnyddio. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.1.31 | Ydy dosbarthiad y rheolwr achos o lefel diogelwch pobl eraill a’r gymuned yn rhesymol? | Mae’r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y dosbarthiad ar ddyddiad gwaith maes yr arolygiad.<br>Wrth wneud yr asesiad hwn, bydd arolygwyr yn ystyried yr holl wybodaeth am y plentyn a oedd ar gael i’r GCI ar ddyddiad yr arolygiad ac yn arwain ato.<br>Bydd arolygwyr yn ystyried a yw’r dosbarthiad yn gywir, yn adlewyrchu’r amgylchiadau a’r wybodaeth a oedd gan y GCI am y plentyn, ac yn rhesymol ar sail yr wybodaeth hon.<br>Rydym yn disgwyl esboniad clir a rhesymegol o’r rhesymau pam mae lefel benodol o ddiogelwch a llesiant i bobl eraill a’r gymuned wedi cael ei gosod. Dylai’r rhain gael eu llywio gan yr wybodaeth sydd ar gael a chan ddiffiniadau o AssetPlus, PDAT neu adnoddau a gynlluniwyd yn lleol. Bydd arolygwyr yn defnyddio’r wybodaeth hon wrth farnu a yw dosbarthiad yr asesiad yn rhesymol.<br>Rydym yn cydnabod bod union lefel diogelwch a llesiant i bobl eraill a’r gymuned yn bwynt ar gontinwwm, ac i achosion sy’n agos at y ffin rhwng dwy lefel, bod y dosbarthiad yn gofyn am farn fanwl.<br>**Os bydd arolygydd yn ystyried bod y dosbarthiad yn afresymol, ni fydd hynny ar ei ben ei hun yn arwain at ddyfarniad cryno negyddol.** |
| **2.1.37** | **A yw asesu’n dadansoddi’n ddigonol sut i gadw’r plentyn a’r gymuned yn ddiogel?** | Mae pryderon diogelwch sy’n ymwneud â’r plentyn a’r gymuned yn aml yn gorgyffwrdd ac yn cydblethu. Gallant gynnwys y pethau canlynol:<br>• cario cyllyll neu arfau eraill<br>• meddu ar gyffuriau anghyfreithlon<br>• camddefnyddio cyffuriau ac alcohol<br>• adfyd a thrawma<br>• ecsbloetio troseddol, gan gynnwys llinellau cyffuriau<br>• poblemau iechyd meddwl<br>• cam-drin domestig<br>• materion teuluol<br>• dylanwadau negyddol gan gyfoedion.<br>Mae ymchwil yn nodi bod angen i ni feddwl amdanyn nhw fel dwy ochr o’r un geiniog.<br>Wrth ateb y cwestiwn hwn, bydd arolygwyr yn ystyried a yw **diogelwch a llesiant y plentyn a’r gymuned wedi cael eu dadansoddi’n ddigonol.** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd arolygwyr yn barnu pa mor dda y maent yn asesu dadansoddiadau o sut i sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned, beth bynnag fo natur yr achos, y ddedfryd, y datrysiad neu'r gefnogaeth.<br><br>Dylai'r asesiad cychwynnol fod yn brydlon ac yn gymesur â lefel a natur y pryderon ynghylch diogelwch y plentyn a'r gymuned, a dylid ei gynnal yn ddigon cynnar yn ystod y cyfnod o weithio gyda'r plentyn i lywio'r gwaith cynllunio a darparu. Dylai asesu parhaus fod yn ddeinamig, yn amserol ac yn ymatebol i unrhyw newidiadau mewn ffactorau sy'n ymwneud â chadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel.<br><br>Dylai llais y plentyn fod yn amlwg drwy gydol y broses, ac rydym yn disgwyl i'r broses asesu ddangos bod staff y GCI yn deall y plentyn yng nghyd-destun ei fywyd.<br><br>Gall asesu digonol ar gyfer plentyn sydd â hanes cyfyngedig o droseddu ac ychydig neu ddim pryderon ynghylch cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel fod yn llai manwl nag ar gyfer plentyn sydd wedi ymwneud mwy â chyfiawnder troseddol neu lefelau uwch o bryder am eu diogelwch neu ddiogelwch pobl eraill a'r gymuned. Dylai'r broses asesu fod yn bwrpasol i'r plentyn. Dylai ddibynnu ar nodweddion, amgylchiadau unigol ac anghenion diogelwch a llesiant y plentyn, natur y drosedd a chyd-destun cysylltiad y plentyn â'r GCI.<br><br>**Nid yw pryderon am ddosbarthiadau diogelwch a llesiant a nodwyd i'r plentyn a'r gymuned ar eu pen eu hunain yn pennu'r dyfarniad cryno ar gyfer digonolrwydd.** Y ffactorau pwysicaf yw a yw asesu'n nodi ac yn dadansoddi'n ddigonol y ffactorau sy'n gysylltiedig â sicrhau diogelwch i'r plentyn a'r gymuned. Mae angen i arolygwyr ystyried eu hatebion i'r holl gwestiynau yn yr adran hon a phenderfynu a yw'r cryfderau'n gorbwyso unrhyw ddiffygion. Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd, ond rydym eisiau asesiad digonol o'r ffactorau pwysig sy'n ymwneud â sicrhau diogelwch i'r plentyn a'r gymuned.<br><br>Os oes bylchau yn y gweithgarwch asesu, bydd arolygwyr yn ystyried eu heffaith yng nghyd-destun y plentyn, a chadw'r plentyn a phobl eraill yn ddiogel. Felly, mewn rhai amgylchiadau, gall hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad annigonol. Er enghraifft, gellid barnu bod asesu'n annigonol pe bai'n nodi pryderon yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd yn gyffredinol, ond yn anwybyddu pryderon yn ymwneud â diogelwch rhieni neu frodyr a chwiorydd. |

## Cynllunio

| | |
|---|---|
| **2.2** | **Mae gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, gan ganolbwyntio ar sut i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a'r gymuned yn ddiogel.** |
| | **Mae 'cynllunio' yn cynnwys pob gweithgarwch cynllunio,** nid dim ond paratoi cynllun ysgrifenedig. Rydym yn disgwyl gweld cynllunio sy'n gymesur â natur anghenion, troseddu, ymddygiad ac amgylchiadau'r plentyn. Rydym yn chwilio am dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cofnodion achos, cynlluniau ysgrifenedig (fel y rheini yn AssetPlus, yr Adnodd Asesu Atal a Dargyfeirio neu offer cynllunio a ddatblygwyd yn lleol), nodiadau gyda chynlluniau o gyfarfodydd mewnol neu amlasiantaethol am y plentyn, a chyfweliadau â rheolwyr achos. Rydym yn barnu ansawdd y broses gynllunio yn ei chyfanrwydd.<br><br>Nid oes angen defnyddio unrhyw adnodd penodol ar gyfer unrhyw fath penodol o waith; rydym yn edrych ar gynllunio yn ei gyfanrwydd i sicrhau bod digon o wybodaeth am y plentyn a'i amgylchiadau wedi cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i defnyddio wrth gynllunio. Rydym yn disgwyl i'r cynllunio cychwynnol gael ei gwblhau'n ddigon cynnar yn ymgysylltiad y plentyn â'r GCI i gefnogi'r gwaith darparu.<br><br>**Dylai cynllunio fod yn gymesur** ag anghenion y plentyn, natur ei droseddu/ymddygiad a'i amgylchiadau, nid â'r datrysiad. Os oes gan y plentyn anghenion na ellir eu diwallu drwy'r datrysiad presennol, rydym yn disgwyl gweld cynllunio ar gyfer yr anghenion hynny'n cael ei ddiwallu gan asiantaethau eraill a chynlluniau gadael, atgyfeirio ymlaen neu drosglwyddo priodol.<br><br>O dan y safon hon, rydym yn disgwyl gweld **ailgynllunio ac adolygu** deinamig ac amserol, pan fydd amgylchiadau'r plentyn yn newid. Nid ydym yn chwilio am adolygiad ysgrifenedig yn unig, ond am dystiolaeth ar draws amrywiaeth o ffynonellau i ddangos bod myfyrio parhaus a gweithredol i unrhyw amgylchiadau sy'n newid, a bod hyn yn cael ei ystyried a'i gymhwyso i gynllunio yn y dyfodol.<br><br>Os yw gweithgarwch asesu wedi methu â nodi a dadansoddi sut i sicrhau newid cadarnhaol, a diogelwch i'r plentyn ac i bobl eraill, bydd arolygwyr yn dal i ddisgwyl gweld gweithgarwch cynllunio sy'n ystyried, yn cydnabod ac yn cynllunio'n llawn yr hyn sydd ei angen i sicrhau newid cadarnhaol, diogelwch a sefydlogrwydd i'r plentyn ac i gadw pobl eraill yn ddiogel. **Mewn achosion gorchymyn cyfeirio,** mae'r contract gyda'r panel yn nodi'r hyn y dylid ei gyflawni. Rydym yn disgwyl gweld rhagor o gynllunio manwl gan y GCI ynghylch sut bydd hyn yn cael ei wneud.<br><br>**Mewn achosion lle mae'r plentyn wedi cael dedfryd o garchar,** rydym yn disgwyl i'r GCI fodloni ein holl safonau i gynllunio yn ystod cyfnodau o garchar ac ar ôl rhyddhau o'r ddedfryd.<br><br>**Mewn achosion mechnïaeth neu remánd,** rydym yn cydnabod y bydd cynllunio'n cael ei wneud yng nghyd-destun amserlenni a chanlyniadau ansicr ynglŷn â chyfnod ymwneud neu ymyrraeth y plentyn â'r GCI. Bydd y dyfarniadau ynghylch digonolrwydd yn cydnabod hyn. |
| **2.2.1** | **A yw gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn?** |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2.01 | A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i gyd-destun y plentyn, gan gynnwys amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | Fel rhan o ddull plentyn cyfan unigol a chyd-destunol, dylai cynllunio ystyried profiad uniongyrchol y plentyn, gan gynnwys ei gyd-destun teuluol, amgylcheddol a chymdeithasol, a chynllunio ar gyfer sut y gallai hyn effeithio ar allu'r plentyn i gymryd rhan mewn ymyriadau ac adlewyrchu hynny. Mae'n allweddol bod cynllunio'n trosi'r asesiad o anghenion a chryfderau'r plentyn i'r hyn sydd angen ei wneud a'i fod yn cydnabod unigrywiaeth y plentyn a'r ffactorau a nodwyd yn ei asesiad.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio nodi lle bydd gweithgarwch ac ymyriadau'n cael eu darparu a dylai sicrhau bod hyn yn gyraeddadwy i'r plentyn. Gallai hyn gynnwys ystyried lefel y gefnogaeth i deuluoedd, cysylltiadau trafnidiaeth lleol ac effaith byw mewn ardal wledig. Dylai cynllunio ystyried y cyd-destun y mae'r plentyn yn byw ynddo, adeiladu ar gymorth personol, teuluol a strwythurol, a nodi sut i gefnogi a datblygu cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio ar gyfer darparu ystyried unrhyw ymrwymiadau addysgol neu gyflogaeth sydd gan y plentyn a sicrhau bod y rhain yn cael eu bodloni.<br><br>Rydym yn disgwyl i staff y GCI ystyried cyd-destun cymdeithasol a phrofiad uniongyrchol y plentyn. Dylai'r gwaith cynllunio ystyried rôl y teulu ehangach, o ran y gefnogaeth y gallant ei chynnig, yn ogystal ag unrhyw rôl ofalu sydd gan y plentyn yn y teulu. Bydd arolygwyr hefyd yn chwilio am dystiolaeth bod staff y GCI wedi defnyddio gwybodaeth ar unrhyw faterion a allai fod gan y rhieni neu'r gofalwyr (fel iechyd meddwl, cam-drin domestig, troseddu neu broblemau cyffuriau neu alcohol) ac wedi ystyried eu heffaith ar y plentyn.<br><br>Dylai staff y GCI ddefnyddio gwybodaeth wedi'i hasesu ynghylch a yw'r plentyn wedi profi trawma, cynllunio ar gyfer yr effaith y gallai hyn ei chael ar allu'r plentyn i gymryd rhan mewn ymyriad a chynllunio'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau a fydd yn diwallu anghenion y plentyn.<br><br>I blant sy'n gadael y ddalfa, gall y trawsnewid i'r gymuned fod yn heriol ac yn drawmatig. Rydym yn disgwyl gweld cynllunio clir i liniaru effaith hyn. |
| 2.2.02 | A yw gwaith cynllunio yn cynnwys cyfranogiad gweithredol a chyd-gynhyrchu gyda'r plentyn? | Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod y plentyn wedi cymryd rhan weithredol, ystyrlon a llawn mewn gweithgarwch cynllunio.<br><br>Proses gydweithredol yw cydgynhyrchu. Yn ystod y broses gynllunio, mae meithrin perthynas, gofyn cwestiynau agored, a sicrhau bod y plentyn yn deall yn hanfodol. Mae'r pwyslais ar gyfranogiad ystyrlon, lle gall plentyn ddweud eu dweud a rhoi eu barn am bob mater sy'n effeithio arnynt, gyda'u barn yn cael ei hystyried o ddifrif a'i pharchu'n briodol. Dylid cefnogi'r plentyn i fuddsoddi yn y broses gynllunio a chael llais yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau. Rhaid i'r GCI ddangos ei fod wedi rhoi cyfleoedd i'r plentyn fynegi ei farn a chyfleoedd i gael ei glywed. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dylai'r GCI weithio ochr yn ochr â'r plentyn i ddeall pa addasiadau neu ddulliau sy'n gweithio orau iddo a chynnwys y rhain wrth gynllunio. Rydym yn disgwyl gweld y GCI yn mynd ati'n rhagweithiol i greu cyfleoedd i'r plentyn arfer rheolaeth a dewis yn y gwaith sydd wedi'i gynllunio gyda nhw. Dylai barn y plentyn fod yn glir, gan gynnwys beth mae'n credu fydd yn gweithio iddo, fel gwybodaeth am ei hoff ddulliau dysgu, addasrwydd amseroedd ar gyfer apwyntiadau a beth fydd yn hwyluso ac yn cefnogi ei ymgysylltiad â'r cynllun. Gall hyn gynnwys cyfeirio at ei brofiad o gyswllt blaenorol â'r GCI a gwasanaethau eraill, os yw hynny'n berthnasol. Dylid annog y plentyn i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ei gynllun, cael ei rymuso i ddod o hyd i'w atebion ei hun a nodi beth fydd yn ei gefnogi i gyflawni ei nodau a'i ddyheadau. Dylai cynllunio fod yn broses ddysgu sy'n galluogi'r plentyn i feddwl sut y byddai'n hoffi bod yn y dyfodol, a sut y gall ddatblygu ac ennill y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni hyn.<br><br>Dylai'r iaith a ddefnyddir gyda phlant wrth ddatblygu gweithgarwch cynllunio fod yn gadarnhaol, yn ddifyr, yn rymusol a pheidio â stigmateiddio. Rhaid iddo fod yn briodol i oedran ac yn unol â datblygiad a dealltwriaeth y plentyn.<br><br>Ar ddiwedd y broses gynllunio, dylid cael cyd-ddealltwriaeth o ddisgwyliadau'r cynllun, gyda gweithgarwch ac ymyriadau wedi'u cynllunio wedi'u nodi'n glir ac yn fanwl. Mae cynllun nad yw'r plentyn yn ei ddeall yn ddigonol, nad yw wedi cyfrannu ato, neu nad yw'n cytuno ag ef, yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus.<br><br>Os nad yw'r plentyn wedi cymryd rhan weithredol ac wedi cyd-gynhyrchu'r gwaith cynllunio, bydd arolygwyr yn ateb yn negyddol i'r cwestiwn hwn. |
| 2.2.03 | A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, gan gynnwys y ffactorau strwythurol allweddol sy'n effeithio ar y plentyn ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain er mwyn meithrin gwydnwch? | Gall dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau a pherthnasoedd helpu i sicrhau bod cynllunio'n symud y tu hwnt i ganolbwyntio ar risg ac ymddygiad, gan gynnwys meithrin cysylltiadau a pherthnasoedd go iawn â'r plentyn. Gall hyn arwain at well dealltwriaeth o fywyd y plentyn, a thrwy hynny wella eu diogelwch a'u gwarchodaeth a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i sicrhau newid cadarnhaol.<br><br>Mae angen i gynllunio gefnogi'r plentyn i adnabod ei ddyheadau, ei gryfderau a'i sgiliau ac i nodi'r newidiadau yr hoffai eu gwneud iddo'i hun. Dylai'r gwaith cynllunio adeiladu ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol a nodwyd i gefnogi'r plentyn i gyflawni newid cadarnhaol. Yn hytrach na chanolbwyntio ar anghenion a nodwyd yn unig, mae angen i'r gwaith cynllunio adeiladu ar ddiddordebau, gwybodaeth, profiad, sgiliau a rhwydwaith cefnogi'r plentyn.<br><br>Mae hyn yn cynnwys cynllunio i ddatblygu cryfderau mewnol yn ogystal â ffactorau amddiffynnol allanol. Mae'r cysyniad o wydnwch systemig yn cydnabod pwysigrwydd cryfhau'r ffactorau amddiffynnol o amgylch y plentyn, gan symud y tu hwnt i farn unigol sy'n nodi gwydnwch fel un o nodweddion y plentyn yn unig.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio fynd ati i hwyluso presenoldeb y plentyn mewn gweithgarwch cadarnhaol ac adeiladu ar unrhyw weithgarwch cadarnhaol sydd eisoes yn bodoli a nodwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod cynllunio'n mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol allweddol sy'n atal y plentyn rhag cyflawni ei botensial. Gallai'r rhain gynnwys sut i ailintegreiddio'r plentyn i addysg, neu dystiolaeth o gynllunio i ddiwallu anghenion llety'r plentyn. Dylai'r gwaith cynllunio ystyried y ffordd orau o ddefnyddio cymysgedd o wasanaethau penodol, arbenigol a phrif ffrwd sydd ar gael i adeiladu ar gryfderau'r plentyn.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio ddatblygu unrhyw weithgarwch cadarnhaol y gall y plentyn gael mynediad atynt tra bydd yn y ddalfa, gan mai darparu gwasanaeth parhaus rhwng y ddalfa a'r gymuned sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau ar gyfer adsefydlu'n llwyddiannus. |
| 2.2.04 | A yw gwaith cynllunio yn creu cyfleoedd ar gyfer newid, cyfranogiad ac integreiddio cymunedol? | Mae arolygwyr yn chwilio am gynllunio sy'n creu cyfleoedd ar gyfer newid cadarnhaol, gan nodi gwasanaethau a/neu weithgarwch a fydd yn helpu'r plentyn i ymatal rhag troseddu ac integreiddio i'r gymuned.<br><br>Dylai gwaith cynllunio ystyried y gymuned lle mae'r plentyn yn byw ynddi, a'i ymdeimlad o gymryd rhan, integreiddio, perthyn a chysylltiad â'r gymuned honno. Dylai gwaith cynllunio ystyried hobïau a diddordebau'r plentyn, ei grwpiau cyfoedion, a'r gymuned y mae'n byw ynddi, ac edrych ar sut i weithio gyda'r plentyn i hwyluso a chreu cyfleoedd ar gyfer cyfranogi ac integreiddio cymunedol. O ran gorchmynion cyfeirio, rydym yn disgwyl gweld gwirfoddolwyr cymunedol sy'n ymwneud â datblygu'r cynllun neu'r contract a chyfranogiad ac integreiddio cymunedol yn cael eu hystyried yn briodol mewn gweithgarwch cynllunio.<br><br>O ran y ddalfa neu remánd, dylai'r gwaith cynllunio ystyried ailintegreiddio yn y gymuned a sut mae cyflawni hyn. |
| 2.2.05 | A yw'r gwaith cynllunio yn cynnwys ac yn ystyried holl faterion amrywiaeth y plentyn yn ddigonol? | Mae arolygwyr yn disgwyl gweld cynllunio ystyrlon i fodloni'r holl ffactorau amrywiaeth sy'n berthnasol i'r unigolyn. Dylai'r gwaith cynllunio ddefnyddio dull plentyn cyfan sy'n bersonol, yn gyd-destunol ac sy'n ystyried anghenion penodol y plentyn (gan gynnwys nodweddion gwarchodedig a nodweddion unigryw'r plentyn). Dylai'r gwaith cynllunio nodi sut bydd y rhain yn cael eu darparu. Rydym yn cydnabod y naw nodwedd warchodedig (rhyw, oedran, hil, crefydd a chred, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, hunaniaeth rywiol, ailbennu rhywedd a phriodas neu bartneriaeth sifil) ac yn disgwyl gweld gwaith cynllunio sy'n cydnabod ac yn ystyried pob un o'r rhain lle maent yn berthnasol i'r plentyn.<br><br>Er enghraifft, dylai'r gwaith cynllunio:<br><br>• ystyried hil neu gefndir ethnig y plentyn yn benodol yng nghyd-destun ei gymuned a'r effaith y gallai hyn ei chael ar waith gyda'r plentyn, er enghraifft i sicrhau bod sylw clir ar degwch a chynhwysiant ac i fynd i'r afael â materion anghymesuredd a gwahaniaethu<br>• nodi'n glir sut bydd darparu yn bodloni unrhyw ofynion o ran unrhyw anableddau, anawsterau dysgu, iechyd meddwl neu niwroamrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | • ystyried sut y gall anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu'r plentyn effeithio ar ei ddealltwriaeth a'i ymgysylltiad, a chynllunio ar gyfer sut y bydd gwaith yn cael ei deilwra'n briodol ac yn bersonol i'r plentyn<br>• ystyried effaith rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd ar y plentyn<br>• darparu ar gyfer unrhyw ymrwymiadau crefyddol neu gyfrifoldebau gofal plant y plentyn<br>• ystyried yr holl feysydd allweddol o groestoriadedd, hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol sy'n effeithio ar brofiad bywyd y plentyn.<br><br>Mae'n hanfodol bod pob plentyn yn elwa ar wasanaeth cefnogol, personol o ansawdd uchel, beth bynnag fo'i gefndir neu ei amgylchiadau a'i nodweddion unigol. Mae angen i'r gwaith cynllunio ystyried yr holl ffactorau perthnasol yn ddigonol.<br><br>Dylai cynlluniau fod yn gymesur ag anghenion y plentyn. Dylid trefnu ymyriadau a gweithgarwch yn y ffordd fwyaf effeithiol a hylaw i'r plentyn, gan ystyried hyd y datrysiad neu'r ymyriad. Dylid bod yn ofalus wrth gynllunio i beidio â gorlwytho'r plentyn. Dylid rhoi unrhyw gymorth sydd ei angen ar y plentyn i ddatblygu strwythur a threfn ac i sicrhau newid cadarnhaol. Efallai y bydd angen rhannu gweithgarwch ac ymyriadau yn nifer fach o 'ddarnau' neu 'gamau' gydag amcanion realistig, tymor byr.<br><br>Mae'r cwestiwn hwn yn hollbwysig fel sail i gynllunio er mwyn sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn. |
| 2.2.06 | A oes digon o gynllunio ar gyfer darpariaeth gyda gwasanaethau eraill, gan gynnwys cynllunio ar gyfer gadael ac atgyfeiriad at wasanaethau prif ffrwd? | Dylai'r cynllunio bob amser ystyried gwaith asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn er mwyn cydlynu, cysoni ac ategu cynlluniau a darpariaeth yn well. Mae angen i'r gwaith cynllunio nodi llinellau cyfrifoldeb clir i'r gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn, gydag eglurder ynghylch pwy fydd yn gwneud beth a phryd. Dylai'r gwaith cynllunio ystyried sut bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i chasglu i sicrhau bod gan yr holl sefydliadau partner ddealltwriaeth gyfannol a rennir o'r plentyn.<br><br>Gall cynllunio ar y cyd hefyd nodi gwasanaethau y gallai asiantaethau eraill eu darparu ar ôl i ymyriad a chymorth y GCI ddod i ben, yn enwedig pan fydd cyfnod y plentyn yn ymwneud â'r GCI yn debygol o fod yn fyr.<br><br>Os oes gan y plentyn anghenion cymhleth, mae angen i'r gwaith cynllunio gydnabod y gall fod angen cymorth hirdymor helaeth arno ar lefel yr unigolyn, y teulu a'r gymuned. Dylai'r GCI ystyried sut bydd hyn yn hwyluso, yn cydlynu ac yn parhau ar ôl i gysylltiad y plentyn â'r GCI ddod i ben.<br><br>Mae angen i'r GCI ystyried cynllunio i drosglwyddo i wasanaethau prif ffrwd, os oes angen, er mwyn sicrhau parhad yn y cymorth i'r plentyn fel y gall barhau i sicrhau newid cadarnhaol.<br><br>Os yw'r plentyn i fod i droi'n 18 oed cyn diwedd ei ymyriad, rydym yn disgwyl gweld ystyriaeth briodol o drefniadau pontio rhwng pobl ifanc ac oedolion, a thystiolaeth o ddulliau diogelu trosiannol. Dylai hyn gynnwys y gwasanaeth prawf yn benodol, lle bo hynny'n briodol, ond dylai hefyd gynnwys unrhyw |

| | | |
|---|---|---|
| | | wasanaethau eraill sy'n galw am bontio ar gyfer y plentyn (iechyd, iechyd meddwl ac addysg, er enghraifft). Mae'n bosibl y bydd y GCI hefyd yn bwriadu parhau i ymwneud â'r plentyn, os yw hynny'n briodol.<br><br>Os nad yw asiantaethau eraill wedi bod yn ymwneud â chynllunio ac y dylent fod wedi gwneud hynny, bydd arolygwyr yn ateb yn negyddol i'r cwestiwn hwn. |
| 2.2.07 | A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i allu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain yn ôl yr angen? | Bydd arolygwyr yn chwilio am waith cynllunio sy'n ystyried gallu a chymhelliant y plentyn i newid ac sy'n nodi'r ymyriadau sydd fwyaf addas i'w hanghenion.<br><br>Dylai staff y GCI hefyd ystyried lefel cymhelliant y plentyn i fynd i'r afael â'r materion sydd wrth wraidd ei ymddygiad troseddol. Dylai cynllunio ganolbwyntio'n glir ar sut i gynyddu, datblygu neu gynnal cymhelliant y plentyn i newid. Dylid ystyried aeddfedrwydd y plentyn wrth gynllunio ymyriadau a chymorth. |
| 2.2.08 | A yw gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn yng nghyd-destun y plentyn hwnnw? | Mae arolygwyr yn chwilio am waith cynllunio sy'n nodi gwasanaethau a/neu weithgarwch sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad y plentyn yng nghyd-destun y plentyn hwnnw. Dylai'r cynllunio gydnabod agwedd y plentyn tuag at ei droseddu a'i ymddygiad, yr hyn sy'n ei gymell ac ym mha gyd-destun y mae'r ymddygiad wedi digwydd. Dylai gynllunio ar gyfer sut i feithrin ymgysylltiad cadarnhaol gyda gweithgarwch ystyrlon a fydd yn cefnogi'r plentyn i wneud newidiadau cadarnhaol.<br><br>Mae angen i'r gwaith cynllunio ystyried hunaniaeth y plentyn a, lle bo hynny'n briodol, sut i annog y plentyn i symud o hunaniaeth sydd o blaid troseddu i hunaniaeth rhag-gymdeithasol.<br><br>Dylai'r cynllunio ystyried sut i drefnu a blaenoriaethu gweithgarwch yn ôl agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn a nodi'r cyfleoedd a'r ymyriadau cywir ar adegau 'addysgadwy'. Dylai ganolbwyntio ar flaenoriaethu ymyriadau a chymorth, yng nghyd-destun y plentyn, a fydd yn cymell y plentyn ac yn ei annog i ymgysylltu. Gallai hyn gynnwys meithrin perthynas a gweithio o safbwynt sy'n ystyriol o drawma. Gall gynnwys camau bach, graddol i sicrhau bod gwaith yn cael ei deilwra'n briodol i anghenion unigol y plentyn.<br><br>Ar gyfer plant yn y ddalfa, dylai cynllunio ar gyfer rhyddhau ddechrau yn y cam cynllunio dedfryd cychwynnol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer achosion remánd, lle nad yw'r dyddiad rhyddhau'n hysbys o bosibl, a rhaid i'r amserlenni ar gyfer cwblhau amcanion adlewyrchu'r diffyg sicrwydd hwn. Rydym yn disgwyl i lety gael ei ystyried yn gynnar er mwyn gallu cynllunio a pharatoi'n ddigonol, a pharhad cynllunio i fynd i'r afael ag anghenion addysgol ac iechyd, gan gynnwys cysylltu â darpariaeth gymunedol. Lle nad oes ymyriadau penodol ar gael yn y ddalfa, dylai'r gwaith cynllunio ystyried sut y gellir dechrau ar y rhain cyn gynted â phosibl ar ôl rhyddhau. |
| 2.2.09 | A gynlluniwyd gwasanaethau digonol i fynd i'r afael â'r | Lle bo arolygwyr wedi nodi meysydd angen i'r plentyn (cwestiwn 2.1.10), disgwyliwn weld cynllunio digonol ar gyfer y ffactorau y nodwyd eu bod yn berthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| | ffactorau y nodwyd eu bod yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol yn yr achos hwn? | |
| **2.2.10** | **A yw gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn?** | Bydd arolygwyr yn barnu a yw'r cynllunio cyffredinol yn ystyried anghenion y plentyn ac yn eu cefnogi'n ddigonol i sicrhau newid cadarnhaol, beth bynnag fo natur yr achos, y ddedfryd, y datrysiad neu'r gefnogaeth.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio cychwynnol fod yn brydlon ac yn gymesur ag anghenion y plentyn, a dylid ei gynnal yn ddigon cynnar yn ystod y cyfnod o weithio gyda'r plentyn i lywio'r gwaith darparu. Dylai cynllunio parhaus fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn amserol.<br><br>Mae asesu sy'n dadansoddi ac yn cydnabod anghenion amrywiol y plentyn yn ddigonol yn elfen hollbwysig pan fydd arolygwyr yn ystyried eu dyfarniadau ynghylch ddigonolrwydd.<br><br>Dylai llais y plentyn fod yn amlwg drwy gydol y broses, ac rydym yn disgwyl i'r broses gynllunio ddangos bod staff y GCI yn deall y plentyn yng nghyd-destun ei fywyd.<br><br>Gall cynllunio digonol ar gyfer plentyn sydd â hanes cyfyngedig o droseddu ac ychydig o anghenion fod yn llai manwl nag ar gyfer plentyn sydd wedi ymwneud mwy â chyfiawnder troseddol neu sydd â lefel uwch o angen. Gall cynllunio hefyd gynnwys camau bach hylaw a chanlyniadau neu gynnydd 'meddal'. Gall ganolbwyntio i ddechrau ar sefydlogi'r plentyn a meithrin perthynas gadarnhaol ag ef. Dylai'r broses gynllunio fod yn bwrpasol i'r plentyn. Dylai ddibynnu ar anghenion, nodweddion ac amgylchiadau unigol y plentyn, natur y drosedd a chyd-destun cysylltiad y plentyn â'r GCI.<br><br>Mae angen i arolygwyr ystyried eu hatebion i'r holl gwestiynau yn yr adran hon a phenderfynu a yw'r cryfderau'n gorbwyso unrhyw ddiffygion. Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd, ond rydym yn chwilio am ddigon o weithgarwch cynllunio i'r ffactorau pwysig sy'n gysylltiedig â sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn a galluogi'r ymyriadau cywir i gael eu rhoi ar waith.<br><br>Os oes bylchau yn y gweithgarwch asesu, bydd arolygwyr yn ystyried eu heffaith yng nghyd-destun y plentyn. Efallai y gall arolygwyr ddod i'r casgliad bod y cynllunio cyffredinol yn ddigonol yn y cyd-destun hwnnw. Ar y llaw arall, mewn rhai amgylchiadau, gall hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad annigonol. Er enghraifft, efallai y bernir bod gwaith cynllunio a fethodd ystyried niwroamrywiaeth plentyn yn annigonol, hyd yn oed os oedd yn cynnwys yr holl ffactorau eraill a oedd yn berthnasol i gyflawni newid cadarnhaol i'r plentyn. |

| | |
|---|---|
| **2.2.2** | **A yw gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel?** |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2.20 | A yw gwaith cynllunio yn nodi sut y mae sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd i'r plentyn fel sylfeini ar gyfer newid? | Mae egwyddorion 'Plentyn yn gyntaf' yn nodi bod mynd i'r afael â'r risgiau o niwed **i'r plentyn** neu eraill yn hanfodol er mwyn darparu lle diogel ar gyfer datblygiad plentyn, ac ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Gellir deall hyn mewn ffordd gadarnhaol, fel cadw pawb yn ddiogel, ac iechyd a diogelwch, ac rydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth ohono yn y gweithgarwch cynllunio.<br><br>Gall amrywiaeth o ffactorau cadarnhaol a negyddol ddylanwadu ar ddiogelwch a llesiant plentyn. Rydym yn disgwyl i'r GCI ystyried yr holl ffactorau perthnasol yn y gweithgarwch cynllunio, yn ogystal â chydnabod y berthynas gymhleth rhyngddynt. Mae pryderon diogelwch sy'n ymwneud â'r plant eu hunain a phobl eraill yn aml yn gorgyffwrdd ac yn cydblethu. Bydd arolygwyr yn disgwyl i ymarferwyr fod wedi ystyried hyn yn eu gweithgarwch cynllunio.<br><br>Dylai cynllunio i sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd gynnwys gwaith i'w wneud yn uniongyrchol gyda'r plentyn a rhieni neu ofalwyr, a gwaith i'w wneud gan y GCI, o bosibl ar sail amlasiantaeth neu bartneriaeth.<br><br>Dylai cynllunio gydnabod a rhagweld y ffactorau a allai arwain at newid yn yr hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch y plentyn. Dylai nodi'r camau i'w cymryd, pryd a chan bwy, ac ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd os bydd y ffactorau hyn yn newid a'r risgiau i ddiogelwch y plentyn yn cynyddu neu'n lleihau.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio nodi gweithgarwch, gwasanaethau ac ymyriadau sy'n cefnogi diogelwch a llesiant y plentyn. Dylid ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn, gan gynnwys ffactorau amddiffynnol mewnol (megis teimlad o hunan-effeithiolrwydd a hunaniaeth rhag-gymdeithasol) wrth gynllunio'r hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch a llesiant y plentyn, gan ganolbwyntio ar gryfhau'r rhain pan fo hynny'n bosibl.<br><br>Dylai gwaith cynllunio hefyd hyrwyddo unrhyw fesurau rheoli ac ymyriadau sydd eisoes ar gael, cefnogaeth fewnol a/neu allanol ac ymyriadau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn a'i gadw'n ddiogel. Dylai'r gwaith cynllunio nodi'n glir sut y bydd y rhain yn cael eu monitro. Gallai cymorth gynnwys cymorth a roddir ar waith gan rieni neu ofalwyr, cwnsela, dulliau sy'n seiliedig ar drawma, cymorth addysgol, a gwasanaethau a ddarperir gan asiantaethau allanol i fynd i'r afael ag afiechyd meddwl neu gorfforol, neu gamddefnyddio sylweddau. Gallai hefyd gynnwys ffactorau mwy ffurfiol, fel amodau mechnïaeth, gweithdrefnau amddiffyn plant, cynllunio diogelwch penodol gyda'r heddlu, rhoi hysbysiadau rhybuddio am herwgydio plant ar waith, a gosod cyfyngiadau ar weithgarwch.<br><br>Pan fydd pryderon ynghylch niwed i blentyn y tu allan i'r cartref, mae arolygwyr yn disgwyl gweld dull diogelu cyd-destunol i sicrhau bod risgiau a phryderon yn cael eu deall a bod cynlluniau'n cael eu paratoi'n briodol ar eu cyfer. Mae angen i waith cynllunio gydnabod y ddeinameg gymhleth a all fod ar waith ar gyfer y plentyn. Dylai ystyried ymateb cyfannol i'r plentyn sy'n cael ei gydlynu'n glir gyda'r holl asiantaethau ac unigolion dan sylw. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os yw'r plentyn yn y ddalfa, dylai'r gwaith cynllunio fod yn gysylltiedig â chynlluniau'r ddalfa, a chael ei gydlynu â nhw, fel rheoli ymddygiad, ACCT, gwrth-fwlio a chynllunio SECURE STAIRS[i]. Dylai ystyried unrhyw ddulliau rheoli a ddarperir gan leoliad y ddalfa i gadw'r plentyn yn ddiogel, fel lleoliad yr ystafell, monitro galwadau ffôn, a rheoli cysylltiad. Rydym hefyd yn disgwyl bod gwaith cynllunio yn rheoli'r broses o drosglwyddo'r unigolyn yn ddiogel yn ôl i'r gymuned pan gaiff ei ryddhau.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio gynnwys yn glir farn y plentyn am ei ddiogelwch a'i lesiant, a'r hyn sydd ei angen o'i safbwynt ef er mwyn bod yn ddiogel. Dylai'r plentyn fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau diogelwch mewn ffordd gydweithredol, yn hytrach na gwaith cynllunio'n cael ei 'wneud' ar ran y plentyn.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir bod y GCI wedi cynnwys gwybodaeth am ddiogelwch a llesiant y plentyn gan bobl eraill berthnasol ac wedi defnyddio hynny'n briodol fel rhan o'u gweithgarwch cynllunio. |
| 2.2.21 | A yw gwaith cynllunio yn nodi'r hyn sydd ei angen i gadw pobl eraill yn ddiogel, gan roi digon o sylw i'r risgiau? | Dim ond mewn achosion lle mae pryderon wedi'u nodi am ddiogelwch pobl eraill y mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol.<br><br>Mae nifer o ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio beth sydd ei angen i gadw pobl eraill yn ddiogel a mynd i'r afael â risgiau yn ddigonol. Rydym yn disgwyl gweld **yr holl ffactorau perthnasol** yn cael eu hystyried ac nid dim ond y rheini lle mae risg o **niwed difrifol** i ddiogelwch pobl eraill. Gallai pobl eraill gynnwys aelodau o'r cyhoedd, staff, aelodau o'r teulu, ffrindiau, partneriaid, dioddefwyr hysbys neu ddioddefwyr anhysbys posibl.<br><br>Mae egwyddorion 'Plentyn yn gyntaf' yn nodi bod mynd i'r afael â'r risgiau o niwed i'r plentyn neu eraill yn hanfodol er mwyn darparu lle diogel ar gyfer datblygiad plentyn, ac ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Gellir deall hyn mewn ffordd gadarnhaol, fel cadw pawb yn ddiogel, ac iechyd a diogelwch, ac rydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth ohono yn y gweithgarwch cynllunio.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio nodi'r gweithgarwch, y gwasanaethau a'r ymyriadau sy'n cryfhau'r ffactorau amddiffynnol presennol ar gyfer cadw pobl eraill yn ddiogel, hyrwyddo'r cymorth a'r ymyriadau presennol a/neu'r dulliau rheoli allanol sydd ar waith, a nodi unrhyw ddulliau rheoli a/neu ymyriadau newydd sydd eu hangen. Dylai'r gwaith cynllunio nodi pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r rhain a nodi'n glir sut y bydd y rhain yn cael eu monitro.<br><br>Gallai dulliau rheoli, cymorth ac ymyriadau posibl gynnwys y canlynol (ond nid y rhain yn unig):<br>• trefniadau penodol gyda'r plentyn a'i riant neu ofalwr<br>• gwaith cynllunio diogelwch gyda staff y cartref plant a/neu'r heddlu<br>• mesurau sy'n anelu at gyfyngu ar allu'r plentyn i achosi niwed, fel cyrffyw anffurfiol neu nodi llety addas |

| | | |
|---|---|---|
| | | • monitro gweithgarwch gan staff y GCI, yr heddlu neu eraill i sicrhau bod y plentyn yn ymgysylltu ac yn cydymffurfio â gwasanaethau ac i nodi newidiadau mewn ffactorau risg<br>• amodau trwydded penodol, ardaloedd dan waharddiad, amodau mechnïaeth a rhannu gwybodaeth<br>• gweithgarwch adeiladol sy'n mynd i'r afael â ffactorau mewnol sy'n galluogi'r plentyn i ddatblygu hunan-effeithiolrwydd a hunanreolaeth<br>• ymyriadau i fynd i'r afael â ffactorau penodol, fel gwaith gyda dioddefwyr, rheoli dicter, ymyriadau camddefnyddio sylweddau, ac ymyriadau troseddau gyda chyllyll.<br><br>Dylai gwaith cynllunio gydnabod a rhagweld y ffactorau a allai arwain at newid yn yr hyn sydd ei angen i gadw pobl eraill yn ddiogel. Dylai nodi'r camau y mae angen eu cymryd, a phryd a chan bwy y dylid eu cymryd. Dylai hefyd ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd os bydd y ffactorau hyn yn newid a bod y risg i eraill yn cynyddu neu'n lleihau.<br><br>Bydd arolygwyr yn barnu a yw'r gwaith cynllunio'n nodi beth sy'n rhesymol i gadw pobl eraill yn ddiogel a yw'r risgiau wedi cael digon o sylw.<br><br>Dylai gwaith cynllunio gynnwys gwaith i'w wneud yn uniongyrchol gyda'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr, a gwaith i'w wneud gan y GCI, o bosibl ar sail amlasiantaeth neu bartneriaeth.<br><br>Dylai llais a barn y plentyn gael eu cynnwys a bod yn amlwg drwyddi draw a dylid cael tystiolaeth bod y plentyn wedi cyfrannu at y gwaith cynllunio ynglŷn â deall y risgiau i bobl eraill, y tebygolrwydd y bydd y pryder(on) yn codi a'r hyn sydd ei angen i gadw pobl eraill yn ddiogel.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir bod y GCI wedi cynnwys gwybodaeth am ddiogelwch a llesiant pobl eraill o sefydliadau a phartneriaid perthnasol ac wedi defnyddio hynny'n briodol fel rhan o'u gweithgarwch cynllunio.<br><br>Os yw'r plentyn yn y ddalfa, dylai'r gwaith cynllunio fod yn gysylltiedig â chynlluniau'r ddalfa, a chael ei gydlynu â nhw, fel rheoli ymddygiad, ACCT, gwrth-fwlio a chynllunio SECURE STAIRS. Dylai ystyried unrhyw ddulliau rheoli a ddarperir gan leoliad y ddalfa i gadw pobl eraill yn ddiogel, fel lleoliad yr ystafell, monitro galwadau ffôn, a rheoli cysylltiad. Dylai gynnwys staff o'r ddalfa. Dylai'r gwaith cynllunio ystyried sut y bydd lleoliad y ddalfa yn cadw pobl eraill yn ddiogel. Dylai staff y GCI ystyried dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl yn y ddalfa ac yn y gymuned. Rydym hefyd yn disgwyl bod gwaith cynllunio yn rheoli'r broses o drosglwyddo'n ôl i'r gymuned ar ôl rhyddhau, mewn ffordd sy'n helpu i gadw pobl eraill yn ddiogel, fel trefniadau ar gyfer llety (gan gynnwys osgoi bod yn agos at ddioddefwyr neu ddioddefwyr posibl), addysg a ffactorau hollbwysig eraill. Os yw'r plentyn yn debygol o fod angen lleoliad arbenigol, dylid dechrau cynllunio ar gyfer hyn yn gynnar. Dylai'r GCI a'r sefydliad rannu'r gwaith cynllunio. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2.22 | A yw gwaith cynllunio yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio? | Dim ond os oes materion wedi'u nodi o ran bod yn agored i niwed, erledigaeth neu gamfanteisio ar gyfer y plentyn y mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio roi digon o sylw i faterion sy'n ymwneud â pha mor agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetiaeth yw'r plentyn. Dylai ystyried ffactorau fel profiad y plentyn o drawma, cam-drin domestig, esgeulustod ac anghenion niwroamrywiol, ond nid y rhain yn unig, a'u heffaith ar ba mor agored i niwed yw'r plentyn a pha mor dueddol yw o gael ei erlid neu ei ecsbloetio.<br><br>Gallai pryderon ynghylch pa mor agored i niwed yw'r plentyn, a risgiau mewn perthynas ag erledigaeth neu ecsbloetio, gynyddu mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys os yw'r plentyn:<br>• yn mynd i'r ddalfa<br>• yn symud i lety oddi wrth ei gartref, ei deulu a'i grŵp cyfoedion<br>• yn cael ei wahardd o'r ysgol<br>• yn cael profiad o ofal.<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio ystyried beth sy'n digwydd ym mywyd plentyn a bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sy'n dangos y gallai fod yn agored i niwed neu mewn mwy o berygl o gael ei ecsbloetio.<br><br>Mae angen i waith cynllunio gydnabod y ddeinameg gymhleth a all fod ar waith o ran pa mor agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetiaeth yw'r plentyn. Dylai nodi sut i fynd i'r afael â'r rhain mewn ffordd gyfannol. Dylai'r gwaith cynllunio ystyried risg y tu allan i'r cartref a dulliau diogelu cyd-destunol fel ymateb i bryderon am natur agored i niwed, erledigaeth neu ecsbloetiaeth, fel y bo'n briodol.<br><br>Mae angen i'r GCI sicrhau bod iaith briodol yn cael ei defnyddio i ddeall materion sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetiaeth, a sicrhau bod ffactorau fel cael eu trin fel oedolion a beio dioddefwyr yn cael sylw mewn gweithgarwch cynllunio. Mae angen i'r gwaith cynllunio sicrhau nad yw'r dadansoddiad yn cynnwys beio (er enghraifft, nid yw'n defnyddio iaith fel 'wedi ymddieithrio', 'rhoi eu hunain mewn perygl', neu 'allan o reolaeth'), a'i fod yn blaenoriaethu diogelwch a llesiant y plentyn. Mae angen i gynllunio fod yn ymwybodol o'r holl wahaniaethu a stereoteipiau negyddol ynglŷn â'r plentyn, a allai arwain at ragdybiaethau ffug ynghylch bai a chyfrifoldeb, a rhaid i'r gwaith cynllunio herio hyn.<br><br>Os yw'r plentyn yn y ddalfa, dylai'r gwaith cynllunio ystyried sut y bydd yn cael ei gadw'n ddiogel rhag cael ei erlid a'i ecsbloetio yn y ddalfa. Dylai gwaith cynllunio gynnwys staff o'r ddalfa.<br><br>Dylid ymgorffori llais a barn y plentyn o ran ei erledigaeth, ecsbloetiaeth a bod yn agored i niwed a dylai hyn fod yn amlwg wrth gynllunio. |
| 2.2.23 | A yw gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r | Nid yw'r cwestiwn hwn yn ymwneud â diogelwch y dioddefwr; mae'r cwestiwn nesaf yn ymdrin â hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| | dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol? | Gall dioddefwyr fynegi eu dymuniadau drwy'r sawl sy'n gweithio gyda dioddefwyr, Swyddog Cyswllt Dioddefwyr, gweithiwr cyfiawnder adferol neu berson arall a ddynodir yn lleol, neu gallant fod ar gael drwy waith papur megis datganiadau effaith ar ddioddefwyr, dogfennau Gwasanaeth Erlyn y Goron, neu ddogfennau'r heddlu.<br><br>Pan fydd dioddefwr wedi mynegi ei anghenion neu ei ddymuniadau a bod y rhain ar gael, rydym yn disgwyl i'r GCI sicrhau bod digon o sylw'n cael ei roi i'r rhain a'u bod yn cael eu cynnwys fel rhan o'r gweithgarwch cynllunio. Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol (lle bo hynny'n briodol) fel rhan o weithgarwch cynllunio.<br><br>Gall gweithgarwch a gynllunir gynnwys gweithgarwch gwneud iawn uniongyrchol neu anuniongyrchol, llythyr esboniadol, datganiad effaith ar ddioddefwr, y gellir eu defnyddio mewn gwaith ymwybyddiaeth o ddioddefwyr, a gweithgarwch cyfiawnder adferol eraill. Os nad yw dioddefwr wedi dewis cymryd rhan mewn datrysiad adferol, gellid cynnwys ei ddymuniadau posibl yn y gwaith cynllunio, er enghraifft ysgrifennu llythyr ymddiheuro, i aros ar ffeil. Mae angen i gynllunio ar gyfer gweithgarwch cyfiawnder adferol sicrhau diogelwch y dioddefwr a'r plentyn.<br><br>Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol mewn achosion mechnïaeth neu remánd, nac mewn achosion lle nad oes dioddefwyr y gellir eu hadnabod. |
| 2.2.24 | A yw gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? | Dim ond os oes dioddefwyr gwirioneddol neu ddioddefwyr posibl y gellir eu hadnabod y mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol.<br><br>Bydd archwilwyr yn chwilio am waith cynllunio sy'n mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl. Rydym yn disgwyl gweld cynllunio clir i gadw dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl yn ddiogel. Dylai ymarferwyr gael dealltwriaeth glir o'r effaith y mae troseddau wedi'i chael ar ddioddefwyr a dylent fod wedi defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael i gael y ddealltwriaeth hon. Dylai'r gwaith cynllunio ganolbwyntio ar nodi gweithgarwch priodol i leihau'r risg i ddioddefwyr posibl neu ddioddefwyr y gellir eu hadnabod a lleihau'r tebygolrwydd y bydd dioddefwyr yn dioddef eto neu ragor o droseddu yn eu herbyn. Gallai hyn fod drwy ofynion ffurfiol fel gweithgarwch cyfyngedig, ardaloedd dan waharddiad, amodau, gorchmynion atal, neu weithgarwch anffurfiol sy'n cefnogi diogelwch dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl.<br><br>Dylid cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd â'r sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n gwneud gwaith perthnasol, er mwyn sicrhau bod barn dioddefwyr am eu diogelwch yn hysbys ac yn cael ei hystyried. Dylai'r gwaith cynllunio nodi camau gweithredu ac ymyriadau i fynd i'r afael â risgiau i ddioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl. Dylai gynnwys beth sydd angen ei wneud, pwy sydd angen ei wneud a phryd y dylai pryderon a risgiau gynyddu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mewn achosion mechnïaeth neu remánd, nid ydym yn disgwyl gweld cyswllt uniongyrchol â dioddefwyr ond rydym yn disgwyl i'r gwaith cynllunio ystyried yn briodol unrhyw risgiau neu bryderon parhaus am ddioddefwyr yn yr achos. |
| 2.2.25 | A yw gwaith cynllunio yn nodi sut y bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â rhieni neu ofalwyr y plentyn er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel | Mae gan rieni a gofalwyr wybodaeth amhrisiadwy am y plentyn ac am gyd-destun ei fywyd. Mae angen i ymarferwyr gydnabod mai rhieni a gofalwyr yn aml sydd yn y sefyllfa orau i ddeall anghenion a chryfderau eu plentyn, gan gynnwys sut mae ymgysylltu a chyfathrebu â'r plentyn, ac maent yn gallu chwarae rhan gydweithredol bwysig o ran cadw'r plentyn yn ddiogel. Mae angen i'r GCI fynd ati'n rhagweithiol i greu cyfleoedd i rieni a gofalwyr gymryd rhan weithredol mewn asesiadau risg, cynllunio diogelwch, ymyriadau ac adolygiadau, a chynnig ffyrdd iddynt gyfrannu fel partneriaid yn y gwaith sy'n cael ei wneud. Mae angen i waith cynllunio nodi sut y bydd gwaith yn cael ei wneud ar y cyd â rhieni neu ofalwyr y plentyn er mwyn cadw'r plentyn yn ddiogel.<br><br>Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd rhieni a gofalwyr yn bartneriaid priodol o ran diogelu'r plentyn. Mewn achosion o'r fath, rydym yn disgwyl i'r GCI egluro'r rhesymau dros hyn yn eu gweithgarwch cynllunio. Rydym yn disgwyl eu gweld yn nodi a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol ar rieni a gofalwyr i gydweithio, er enghraifft defnyddio dehonglwyr.<br><br>Ar gyfer plentyn sydd â phrofiad o ofal, dylid cynnwys barn y gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n gweithio gyda'r plentyn yn y gwaith cynllunio hefyd. Os nad yw'r plentyn yn byw gyda'i rieni neu os nad oes ganddo gysylltiad â'i rieni, yna rydym yn disgwyl gweld y GCI yn ymgysylltu ag unrhyw berson perthnasol arall sydd â chyfrifoldebau gofalu neu sy'n ymwneud â'r plentyn wrth gynllunio. Gallai fod yn berson proffesiynol fel gweithiwr cymorth, aelod o'r teulu estynedig neu ffrind i'r teulu. |
| 2.2.26 | A yw gwaith cynllunio yn rhoi digon o sylw i'r amserlenni sydd ar gael, gan gydlynu â gwaith cynllunio unrhyw asiantaethau eraill a'r angen am ddilyniant? | Dylai'r gwaith cynllunio roi sylw i ba mor hir fydd ymgysylltiad y plentyn â'r GCI. Dylai sicrhau bod cynlluniau'n realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlenni sydd ar gael. Dylai'r gwaith cynllunio gydnabod efallai na fydd yn bosibl gweithio ar holl anghenion dynodedig y plentyn o fewn yr amserlenni sydd ar gael. Dylai'r gwaith cynllunio wedyn ystyried beth arall sydd ei angen i gefnogi'r plentyn a diwallu ei anghenion yn y tymor hwy. Dylai'r gwaith cynllunio sicrhau bod asiantaethau eraill yn cael eu cynnwys yn barhaus a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer gadael, lle bo angen. Dylai cynlluniau gadael ystyried sut y gellir cynnal cynnydd, yn ogystal â nodi pa gymorth parhaus y gallai fod ei angen a phwy fydd yn ei ddarparu.<br><br>Pan fydd mwy nag un asiantaeth yn ymwneud â'r plentyn, dylai'r cynllunio fod yn glir ynghylch pa asiantaeth fydd yn arwain ar bob gweithgarwch, sut y bydd gweithgarwch yn cael ei gydlynu, a sut y bydd asiantaethau'n cyfathrebu â'i gilydd i sicrhau bod y gwaith gyda'r plentyn yn gydlynol. Os yw'r plentyn yn destun cynlluniau sy'n cael eu rheoli gan asiantaethau eraill, fel cynlluniau amddiffyn plant, cynlluniau plant mewn angen, cynlluniau addysg, iechyd a gofal, cynlluniau darpariaeth dysgu ychwanegol, neu MAPPA, dylai gwaith cynllunio'r GCI gael ei gydlynu â'r cynlluniau hyn a chyfeirio atynt |

| | | |
|---|---|---|
| | | er mwyn sicrhau bod y gwaith yn gydlynol ac yn gydgysylltiedig. Dylai cynlluniau fod yn integredig a dylent gefnogi ei gilydd.<br><br>Ar gyfer plant yn y ddalfa, dylai'r gwaith cynllunio fod yn gysylltiedig â chynlluniau eraill y ddalfa, fel rheoli ymddygiad, gwrth-fwlio neu gynllunio SECURE STAIRS. Os oes risgiau penodol yn gysylltiedig â lleoli'r plentyn yn y ddalfa, fel gangiau yn dial, rhaid cynllunio ar gyfer y rhain gyda sefydliad y ddalfa. Efallai y bydd angen cynnwys asiantaethau arbenigol cyn gynted â phosibl er mwyn rheoli risgiau a phryderon a chefnogi diogelwch y plentyn ac eraill.<br><br>Dylai'r GCI fod yn ymwybodol, os bydd y plentyn yn cael ei remandio, y gellid ei ryddhau ar unrhyw adeg a dylai'r cynllunio adlewyrchu ansicrwydd yr amserlenni hyn.<br><br>Dylid trefnu'r cynllunio'n briodol, a gellir ei rannu'n ddarnau bach y gellir eu rheoli neu'n weithgarwch ar gyfer y plentyn. |
| 2.2.27 | A yw gwaith cynllunio yn ymateb i newid, gan gynnwys sicrhau trefniadau effeithiol parhaus i reoli'r materion hynny sydd wedi cael eu nodi? | Bydd arolygwyr yn barnu a yw'r gwaith cynllunio yn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn a allai effeithio ar ddiogelwch y plentyn a diogelwch y gymuned (yn gadarnhaol ac yn negyddol). Dylai gwaith cynllunio ymateb i wybodaeth newydd a gwybodaeth sy'n newid yn brydlon a dylid addasu cynlluniau'n briodol i gefnogi trefniadau effeithiol i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel.<br><br>Er mwyn sicrhau bod y cynllunio'n dal i fod yn gyfredol ac yn berthnasol, rhaid i'r GCI ystyried unrhyw newidiadau yng nghyd-destun y plentyn a'i amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach, ei gryfderau a'i ffactorau amddiffynnol a strwythurol. Mae bod yn ymatebol i newid yn golygu y gall cynllunio newid yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn. Er enghraifft, pe bai'r plentyn yn newid neu'n cael ei wahardd o addysg, yn dod yn ddigartref, neu'n dechrau defnyddio neu'n ailddechrau defnyddio sylweddau, byddai angen i'r gwaith cynllunio ddangos ei fod wedi ymateb i'r newidiadau hyn ac wedi gwneud hynny'n brydlon. Gallai ffactorau perthnasol eraill gynnwys newidiadau mewn meddyginiaeth, ymgysylltu neu iechyd meddwl. Lle bo'n briodol, dylai ymarferwyr gael gwybodaeth gan bobl eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn i sicrhau bod dealltwriaeth gyfredol a rennir o'r plentyn, i lywio'r gwaith cynllunio.<br><br>Dylid adolygu'r gwaith cynllunio'n barhaus i wneud yn siŵr bod ymyriadau'n dal yn briodol a bod gwasanaethau'n cael yr effaith a fwriedir. Dylai adolygu'r gwaith cynllunio nodi beth sydd wedi bod yn effeithiol a beth sydd wedi cael ei gyflawni, yn ogystal â gwaith sy'n dal heb ei wneud neu y mae angen ei ailystyried neu ei ailgynllunio. Dylid datrys unrhyw broblemau gyda darparu gwasanaethau a gynlluniwyd ar unwaith, ac ni ddylent aros am adolygiad ysgrifenedig, ffurfiol. Mae angen i'r cynllunio fod yn hyblyg er mwyn cynnal dull gweithredu personol, wedi'i deilwra ar gyfer y plentyn. Rhaid ystyried a chynllunio ar gyfer newidiadau fel remandio i lety cadw ieuenctid neu lety awdurdod lleol, dedfrydau o garchar, rhyddhau ar fechnïaeth, a rhyddhau yn dilyn dedfryd o garchar mewn modd amserol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Nid ydym o reidrwydd yn disgwyl gweld adolygiad ysgrifenedig ffurfiol o gynllun, ond rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth sy'n dangos bod cynllunio wedi ymateb yn briodol i newid. Gall tystiolaeth ddod o adolygiadau ysgrifenedig, cofnodion achos parhaus, nodiadau o banel neu gyfarfod risg, neu drafodaeth gyda'r rheolwr achos.<br><br>Os yw newidiadau perthnasol mewn gwybodaeth yn hysbys, ond nad yw'r GCI wedi ymateb iddynt mewn modd deinamig ac amserol wrth gynllunio, bydd arolygwyr yn ateb y cwestiwn hwn yn negyddol. |
| **2.2.28** | **A yw gwaith cynllunio yn canolbwyntio'n ddigonol ar sut i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel?** | Wrth ateb y cwestiwn hwn, bydd arolygwyr yn ystyried a yw **diogelwch a llesiant y plentyn a'r gymuned wedi cael eu cynllunio'n ddigonol.**<br><br>Dylai'r gwaith cynllunio cychwynnol fod yn brydlon ac yn gymesur â lefel a natur y pryderon ynghylch diogelwch y plentyn a'r gymuned; dylid ei gynnal yn ddigon cynnar yn ystod y cyfnod o weithio gyda'r plentyn i lywio'r gwaith darparu. Dylai cynllunio parhaus fod yn ddeinamig, yn amserol ac yn ymatebol i unrhyw newidiadau mewn ffactorau sy'n ymwneud â chadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel.<br><br>Dylai llais y plentyn fod yn amlwg drwy gydol y broses, ac rydym yn disgwyl i'r broses gynllunio ddangos bod staff y GCI yn deall y plentyn yng nghyd-destun ei fywyd. Dylai cael tystiolaeth hefyd fod y plentyn yn deall cynllunio'n ddigonol a'r hyn sydd ei angen i'w gadw ef ac eraill yn ddiogel.<br><br>Dylai'r cynllunio fod wedi'i deilwra i nodweddion ac amgylchiadau'r plentyn. Dylai fod yn gymesur ag anghenion diogelwch a llesiant y plentyn, pryderon am ddiogelwch eraill a'r gymuned, natur y drosedd a chyd-destun cysylltiad y plentyn â'r GCI.<br><br>Gall cynllunio ar gyfer plentyn sydd â hanes cyfyngedig o droseddu ac ychydig eu ddim pryderon ynghylch cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel fod yn llai manwl na chynllunio ar gyfer plentyn sydd wedi ymwneud mwy â chyfiawnder troseddol, sydd â lefelau uwch o angen neu lefelau uchel o bryder am eu diogelwch neu ddiogelwch pobl eraill a'r gymuned. Os yw'r GCI yn ymwneud â hyn/yn ymgysylltu am gyfnod byr, gallai'r cynllunio ganolbwyntio mwy ar atgyfeiriadau, cynlluniau gadael, a throsglwyddo i wasanaethau prif ffrwd, i sicrhau bod cymorth parhaus ar gael i'r plentyn.<br><br>Dylid cael cyd-ddealltwriaeth o ddisgwyliadau'r cynllun, gyda nodau'r holl weithgarwch ac ymyriadau wedi'u nodi'n glir.<br><br>Mae angen i arolygwyr ystyried eu hatebion i'r holl gwestiynau yn yr adran hon a phenderfynu a yw'r cryfderau'n gorbwyso unrhyw ddiffygion. Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd, ond am ddigon o weithgarwch cynllunio sy'n canolbwyntio ar sut i **sicrhau diogelwch i'r plentyn a'r gymuned**, o ystyried bod y ddwy elfen yn hanfodol ac yn aml yn gysylltiedig. Bydd cynllunio digonol yn golygu bod modd rhoi'r mesurau cywir ar waith i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Os oes diffygion, bydd arolygwyr yn ystyried eu heffaith yng nghyd-destun y plentyn. Efallai y gall arolygwyr ddod i'r casgliad |

| | | |
|---|---|---|
| | | bod y cynllunio cyffredinol yn ddigonol i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Ar y llaw arall, mewn rhai amgylchiadau, gall hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad annigonol, yn seiliedig ar amgylchiadau unigryw'r plentyn.<br><br>Os nad oes unrhyw ffactorau'n gysylltiedig â chadw'r plentyn neu'r gymuned yn ddiogel, bydd yr arolygwyr yn ateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn. |

## Darparu

| **2.3** | **Mae gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan gyflawni newid cadarnhaol a chadw plant a'r gymuned yn ddiogel.** |
|---|---|
| | Dylai'r plentyn elwa o wasanaeth cefnogol, personol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio'n barhaus ar ddarparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn. Dylai hyn gefnogi'r plentyn i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Mae gwasanaethau a llwybrau darparu integredig, a gefnogir drwy gydweithredu effeithiol, yn hanfodol i'r plentyn. Rydym yn disgwyl gweld darpariaeth **sy'n gymesur â natur anghenion,** troseddu, ymddygiad ac amgylchiadau'r **plentyn**, **nid â'r datrysiad**. Os oes gan y plentyn anghenion na ellir eu diwallu drwy'r datrysiad neu'r gefnogaeth bresennol y mae'r plentyn yn ei chael gan y GCI, rydym yn disgwyl gweld trefniadau'n cael eu gwneud i asiantaethau eraill ddiwallu'r anghenion hynny. Mae hyn yn cynnwys cynllunio gadael priodol, atgyfeirio ymlaen, cysylltiadau a wneir â gwasanaethau prif ffrwd neu gyffredinol a threfniadau cynllunio a darparu trosglwyddo.<br><br>**Mae darparu yn cynnwys holl ddarparu uniongyrchol y GCI, ac unrhyw wasanaethau a ddarperir ar ran y GCI.** Gallai hyn gynnwys gweithwyr ar wahân i reolwyr achos yn darparu, fel therapyddion lleferydd, iaith a chyfathrebu, nyrsys, ymarferwyr iechyd meddwl, y rhai sy'n gweithio gyda dioddefwyr neu weithwyr cyfiawnder adferol, a gweithwyr camddefnyddio sylweddau, addysg ac ymyriadau.<br><br>Rydym yn chwilio am dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cofnodion achos, gwaith ysgrifenedig a gwblhawyd gan y plentyn, gwaith celf, a recordiadau a chofnodion o unrhyw weithgarwch neu raglenni sydd wedi'u cwblhau gyda'r plentyn. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried tystiolaeth o nodiadau o gyfarfodydd mewnol neu amlasiantaethol, prosesau ffurfio achosion neu reoli achosion uwch, a'r cyfweliad gyda'r rheolwr achos. Rydym yn barnu ansawdd y ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r ddarpariaeth fod yn amserol, wedi'i theilwra i'r plentyn ac yn canolbwyntio ar anghenion y plentyn. Rydym yn cydnabod y bydd darparu'n rhoi blaenoriaeth briodol i feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol a gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma gyda'r plentyn. Rydym yn disgwyl gweld gweithgarwch yn cael ei ddefnyddio sy'n berthnasol i fywyd y plentyn, ac yn cefnogi, ennyn diddordeb, galluogi ac ysgogi'r plentyn i ymgysylltu a chymryd rhan lawn, mewn ffordd sy'n ystyrlon iddo. |

| | | |
|---|---|---|
| | O dan y safon hon, rydym yn disgwyl gweld darpariaeth ddeinamig ac amserol, sy'n cael ei hadolygu pan fydd amgylchiadau'r plentyn yn newid. Rydym yn chwilio am dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau bod ystyriaeth barhaus a gweithredol yn cael ei rhoi i unrhyw amgylchiadau sy'n newid a bod y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn darpariaeth yn y dyfodol.<br><br>Os yw gweithgarwch asesu a chynllunio wedi methu â nodi a dadansoddi sut i sicrhau newid cadarnhaol, a diogelwch i'r plentyn ac i bobl eraill, bydd arolygwyr yn dal i ddisgwyl gweld darpariaeth sy'n ystyried, yn cydnabod ac yn canolbwyntio'n llawn ar yr hyn sydd ei angen o ran y ffactorau hyn.<br><br>**Mewn achosion mechnïaeth neu remánd,** rydym yn cydnabod y bydd darpariaeth yn cael ei gwneud yng nghyd-destun amserlenni a chanlyniadau ansicr ynglŷn â chyfnod ymwneud neu ymyrraeth y plentyn â'r GCI, a bydd cymhwyso digonolrwydd yn cael ei awgrymu'n unol â hynny.<br><br>Mewn **datrysiadau y tu allan i'r llys**, rydym yn cydnabod y gall ymgysylltiad y plentyn fod yn gwbl wirfoddol, ac rydym yn disgwyl gweld y GCI yn cymryd camau cadarn a rhagweithiol i ymgysylltu â'r plentyn.<br><br>Mewn achosion lle mae'r plentyn wedi cael dedfryd o **garchar** neu wedi'i **remandio**, mae angen i'r GCI gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn cael gwasanaethau priodol yn ystod cyfnod yr ymyriad yn y carchar, yn ogystal ag ar ôl ei ryddhau. | |
| **2.3.1** | **A yw darparu gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?** | |
| 2.3.01 | A yw'r GCI yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu a chynnal perthynas waith gyda'r plentyn, gyda'i gyfranogiad gweithredol, sy'n annog ac yn galluogi ymgysylltu? | Dylai'r GCI ganolbwyntio ar ddatblygu perthynas a sefydlu ymdeimlad o ymddiriedaeth drwy ddeialog barhaus â'r plentyn o'r dechrau'n deg pan fydd yn ymwneud â hwy. Dylid defnyddio dulliau sy'n ennyn diddordeb y plentyn ac sy'n ei ysgogi, sy'n ystyrlon iddo ac sy'n ei alluogi i gymryd rhan lawn.<br><br>Dylai darpariaeth y GCI fod yn gyfannol, yn canolbwyntio ar y plentyn, a rhoi sylw i gyd-destun unigol y plentyn. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI wedi creu'r lle a'r cyfle i feithrin perthynas waith gefnogol a llawn ymddiriedaeth gyda'r plentyn ac wedi blaenoriaethu cydweithio ystyrlon â nhw.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod y plentyn wedi cael cyfle i ganfod y ffordd orau o'i gefnogi i gymryd rhan lawn yn y ddarpariaeth. Disgwyliwn weld gweithgarwch yn cael ei wneud gydag ef, yn hytrach nag iddo ef. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod rhywun wedi gwrando ar y plentyn, ei fod wedi cael dewis pa ddarpariaeth fyddai fwyaf addas iddo, a'i fod wedi cael cyfle i roi adborth ar yr hyn sydd wedi gweithio iddo neu nad yw wedi gweithio iddo. Rydym yn disgwyl i'r ddarpariaeth roi cyfle i'r plentyn siarad am ei brofiad o'r ymyriad a'r hyn sydd wedi cefnogi ei ymgysylltiad neu beidio. Rydym yn disgwyl i'r GCI roi adborth i'r plentyn am sut mae wedi cymryd rhan yn yr ymyriad. Rydym yn chwilio am dystiolaeth bod anghenion lleferydd, iaith, cyfathrebu, niwroamrywiaeth ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | anghenion eraill y plentyn wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu perthynas waith gyda'r plentyn a'i gefnogi i gymryd rhan. Os oes anawsterau yn y berthynas waith, rydym yn disgwyl gweld ymdrechion i archwilio'r rhesymau dros hyn ac i ystyried atebion posibl. Rydym yn disgwyl i weithwyr sy'n ymwneud â'r plentyn eu cymell ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Gall hyn gynnwys defnyddio technegau cyfweld ysgogol, modelu rhag-gymdeithasol, newid hunaniaeth neu ddulliau cyfathrebu a chefnogi eraill. Bydd angen i arolygwyr fod yn fodlon nad yw'r gweithiwr wedi mabwysiadu un dull sy'n addas i bawb tuag at eu gwaith gyda'r plentyn, ond ei fod wedi barnu'r ffordd orau o fanteisio i'r eithaf ar y potensial i'r plentyn ymgysylltu a chymryd rhan yn llwyddiannus.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ymgysylltu effeithiol â'r plentyn, gan fynd y tu hwnt i fynychu apwyntiadau yn unig. Gallai hyn gynnwys eu cefnogi gydag addysg, eiriol ar eu rhan, helpu'r plentyn i ymgysylltu â gwasanaethau eraill, fel camddefnyddio sylweddau, ac archwilio cyfleoedd i'r plentyn ddatblygu hunaniaeth rhag-gymdeithasol.<br><br>Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod staff y GCI wedi ymateb i achosion o beidio ag ymgysylltu gan ddefnyddio dull clir, pwyllog a chymhellol i annog cyfranogiad. Dylai hyn gynnwys defnyddio amrywiaeth o ffyrdd o ymgysylltu â'r plentyn, gan gynnwys paneli cyfranogi neu gyfarfodydd, newid y lleoliad ar gyfer apwyntiadau, neu newid amser yr apwyntiadau. Dylai gweithwyr y GCI geisio deall pam nad yw'r plentyn wedi ymgysylltu â'r ymyriadau. Lle bu'n anoddach ymgysylltu â'r plentyn, bydd angen i ymarferwyr gynnal cydbwysedd priodol rhwng anogaeth a hyblygrwydd, i sicrhau bod gwaith yn aros ar y trywydd iawn ac i osgoi bod pethau'n 'llithro'. Ar gyfer unrhyw ymyriadau y tu allan i'r llys lle mae ymgysylltu'n wirfoddol, disgwyliwn i reolwyr achos ddefnyddio dull pwyllog, cadarn ac ysgogol tuag at beidio ag ymgysylltu. Ni ddylent roi'r gorau i geisio darparu gwasanaeth a chau'r cynnig o ymyriad. Bydd arolygwyr yn llunio barn ar sail dull gweithredu gweithiwr y GCI, fel lefel yr ymdrech, y sgiliau a'r dycnwch y maent wedi'u defnyddio i geisio cynnwys y plentyn yn yr ymyriadau, nid ar ymateb y plentyn. Os oedd peidio â chymryd rhan yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau wedi'u cynllunio, ni fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ateb negyddol.<br><br>Os yw'r plentyn mewn sefydliad diogel, rydym yn disgwyl i weithwyr y GCI nodi lle gallai unrhyw ddiffyg ymgysylltu fod oherwydd cyfyngiadau yn y drefn, a thrafod hyn gyda'r sefydliad. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei baratoi ar gyfer ei ryddhau, gan gynnwys y rheini sydd ar remánd lle gallai'r amserlenni fod yn aneglur, a bod gan y plentyn ddealltwriaeth dda o'r hyn a ddisgwylir ganddo o ran ei ymgysylltiad pan fydd yn ôl yn y gymuned, gan gynnwys gwybodaeth am y rhesymau dros unrhyw amodau |

| | | |
|---|---|---|
| | | trwydded ychwanegol. Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod gweithiwr y GCI wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r plentyn. Rydym yn disgwyl gweld cyfathrebu priodol gyda'r plentyn yn rheolaidd, y tu hwnt i unrhyw drefniadau cynllunio dedfryd. |
| 2.3.02 | A yw darpariaeth yn rhoi digon o sylw i gyd-destun y plentyn, gan gynnwys amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | Fel rhan o ddull plentyn cyfan unigol a chyd-destunol, dylai'r GCI ystyried profiad byw y plentyn, gan gynnwys ei gyd-destun teuluol, amgylcheddol a chymdeithasol. Dylai cynnwys y ddarpariaeth, yr ymyriadau a'r gweithgarwch fod yn berthnasol i fywyd y plentyn.<br><br>Dylai'r tasgau a gweithgarwch fod yn bethau y mae'r plentyn yn gallu eu cyflawni. Dylai'r GCI ystyried lefel y gefnogaeth deuluol sydd ar gael, unrhyw rôl ofalu sydd gan y plentyn yn y teulu, a'r angen am gymorth ychwanegol os oes diffyg cefnogaeth deuluol. Dylai hefyd ystyried argaeledd ac addasrwydd cysylltiadau trafnidiaeth lleol, a ble mae'r plentyn yn byw, er enghraifft mewn ardal wledig neu ar ystâd benodol. Dylai ystyried y cyd-destun y mae'r plentyn yn byw ynddo, adeiladu ar gymorth personol, teuluol a strwythurol, a nodi sut i gefnogi a datblygu cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn. Dylai'r GCI ystyried ymrwymiadau addysgol neu gyflogaeth y plentyn a sicrhau bod y rhain yn cael eu bodloni. Bydd arolygwyr hefyd yn chwilio am dystiolaeth bod staff y GCI wedi defnyddio gwybodaeth am unrhyw broblemau a allai fod gan y rhieni neu'r gofalwyr (fel iechyd meddwl, cam-drin domestig, troseddu neu broblemau cyffuriau neu alcohol) ac wedi ystyried y rhain yn ddigonol i sicrhau darpariaeth effeithiol.<br><br>Dylid gwneud apwyntiadau ar adegau ac mewn mannau sy'n addas ac yn ddiogel i'r plentyn. Dylai fod tystiolaeth bod y plentyn yn gallu deall ac ymateb i'r ymyriadau sy'n cael eu cynnig. Dylid gwneud addasiadau rhesymol i ddiwallu anghenion y plentyn. Rhaid i staff y GCI ofalu eu bod yn osgoi rhagfarn o drin plant fel oedolion wrth helpu plant i gael mynediad at wasanaethau ac ymyriadau. Dylent sicrhau bod yr holl ddarpariaeth yn addas, yn briodol ac wedi'i theilwra i'r plentyn. |
| 2.3.03 | A yw darpariaeth yn ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain er mwyn meithrin gwydnwch? | Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir bod y GCI wedi rhoi ystyriaeth digonol i gryfderau'r plentyn er mwyn cefnogi gwneud newid cadarnhaol. Dylai hyn gynnwys nodweddion personol megis gwaith i gefnogi ymdeimlad o hunan-effeithiolrwydd neu i gryfhau cymhelliant y plentyn i newid. Gall gynnwys ymyriadau i hyrwyddo ffactorau amddiffynnol allanol megis aelodaeth o grwpiau cyfeillgarwch rhag-gymdeithasol neu gymryd rhan mewn gweithgarwch cadarnhaol.<br><br>Dylai'r GCI ofalu ei fod yn osgoi darpariaeth sy'n seiliedig ar ddiffyg, sydd ond yn canolbwyntio ar risgiau neu bryderon y plentyn; a sicrhau bod darpariaeth yn gytbwys i gynnwys ffocws clir ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn ac yn eu meithrin. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r cysyniad o wydnwch systemig yn golygu rhoi'r plentyn yn y canol a chryfhau'r ffactorau amddiffynnol o'i gwmpas, gan gynnwys yn ei deulu, ei gymuned ac yn y gwasanaethau sydd ar gael i'w gefnogi. Rydym yn disgwyl gweld darpariaeth yn atgyfnerthu'r cyfleoedd ar gyfer gwydnwch systemig i gefnogi'r plentyn.<br><br>Dylai darpariaeth o wasanaeth fynd ati i hwyluso presenoldeb y plentyn mewn gweithgarwch cadarnhaol ac adeiladu ar unrhyw weithgarwch cadarnhaol sydd eisoes yn bodoli a nodwyd. Mae yna dystiolaeth y gall mentora helpu plant o ran canlyniadau agweddol, ysgogol, cymdeithasol a rhyngbersonol; anghenion seicolegol ac emosiynol; materion o ymddygiad; canlyniadau academaidd neu ganlyniadau ysgol; a llesiant. Os oes gwasanaethau mentora ar gael, rydym yn disgwyl gweld y rhain yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol. |
| 2.3.04 | A yw darpariaeth yn cyflawni cyfleoedd ar gyfer newid, cyfranogiad ac integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth? | Rydym yn disgwyl i ddarpariaeth rhoi cyfleoedd i'r plentyn newid mewn ffordd gadarnhaol. Dylai gefnogi'r plentyn i gymryd rhan ac ymgysylltu â'r gymuned y mae'n byw ynddi. Dylai staff y GCI ystyried hunaniaeth, cymhelliant a gallu'r plentyn i newid, a dylent ganolbwyntio'n glir ar gryfderau er mwyn sicrhau newid cadarnhaol.<br><br>Dylai staff y GCI ystyried y gymuned lle mae'r plentyn yn byw a cheisio gwella ei ymdeimlad o gymryd rhan, perthyn, integreiddio, a chysylltiad â'r gymuned honno.<br><br>Dylai fod tystiolaeth o fewn darpariaeth o sut mae'r GCI wedi cefnogi neu sut y bydd yn cefnogi mynediad y plentyn at wasanaethau penodol, arbenigol a phrif ffrwd. Rydym yn disgwyl gweld bod y GCI wedi cefnogi unrhyw ymgysylltiad presennol â gwasanaethau yn y gymuned, a'i fod wedi sicrhau nad yw ei ymyriadau ei hun yn tynnu sylw oddi wrth hyn. Dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi'r plentyn i gael mynediad at wasanaethau fel addysg neu ofal iechyd. Gallai hyn gynnwys tystiolaeth o gefnogi'r plentyn mewn apwyntiad neu sesiwn/sesiynau cyntaf gydag asiantaethau eraill fel rhan o waith trosglwyddo neu adael, ar ôl i gysylltiad y plentyn â'r GCI ddod i ben.<br><br>Os yw'r plentyn yn debygol o fod angen ymyriad bellach ar ôl cwblhau ei datrysiad neu ei gymorth, dylai'r GCI gefnogi'r newid hwn yn weithredol, yn enwedig os yw'r plentyn yn troi'n 18 oed.<br><br>Ar gyfer plant mewn sefydliad diogel, mae arolygwyr yn disgwyl gweld tystiolaeth o barhad rhwng elfennau cadwraethol a chymunedol yr ymyriad, gan gynnwys ar gyfer plant sy'n cael eu remandio, lle gallai'r amserlenni ar gyfer darparu fod yn aneglur. Dylid cael tystiolaeth bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y sector diogel a'r gymuned i baratoi ar gyfer rhyddhau'r plentyn. Os yw'r plentyn wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyrsiau yn ystod ei amser yn y ddalfa, dylid adeiladu ar y rhain ar ôl iddo gael ei ryddhau. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth bod rhyddhau ar drwydded dros dro wedi cael ei ystyried fel rhan o'r paratoadau ar gyfer rhyddhau neu fod ceisiadau am fechnïaeth wedi cael eu gwneud sy'n cyd-fynd â risgiau ac anghenion y plentyn. Dylai'r GCI weithio gyda'r sefydliad cadwraethol i wneud unrhyw drefniadau ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer rhyddhau. |
| 2.3.05 | A yw darpariaeth yn cynnwys ac yn ystyried holl ffactorau amrywiaeth y plentyn yn ddigonol? | Mae arolygwyr yn disgwyl gweld bod darpariaeth yn defnyddio dull plentyn cyfan sy'n bersonol, yn gyd-destunol ac sy'n ystyried anghenion penodol y plentyn (fel nodweddion gwarchodedig a nodweddion unigryw'r plentyn). Mae hyn yn cynnwys anghenion sy'n gysylltiedig â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.<br><br>Rydym yn cydnabod y naw nodwedd warchodedig (rhyw, oedran, hil, crefydd a chred, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, hunaniaeth rywiol, ailbennu rhywedd a phriodas neu bartneriaeth sifil) ac yn disgwyl gweld darpariaeth sy'n cydnabod ac yn ystyried effaith pob un o'r rhain ar gyfer y plentyn.<br><br>Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ond dylai'r ddarpariaeth er enghraifft:<br>• ystyried hil neu gefndir ethnig y plentyn yn benodol yng nghyd-destun ei gymuned a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y plentyn<br>• nodi'n glir sut bydd unrhyw anableddau, anawsterau dysgu ac anghenion iechyd meddwl neu niwroamrywiaeth yn cael eu bodloni a'u hystyried<br>• ystyried sut y gall anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu'r plentyn effeithio ar ei ddealltwriaeth a'i ymgysylltiad, a sicrhau y bydd gwaith yn cael ei deilwra'n briodol ac yn unigol i'r plentyn<br>• ystyried effaith rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd ar y plentyn<br>• darparu ar gyfer unrhyw ymrwymiadau crefyddol neu gyfrifoldebau gofal plant y plentyn<br>• ystyried yr holl feysydd allweddol o groestoriadedd, hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol sy'n effeithio ar brofiad bywyd y plentyn.<br><br>Mae'n hanfodol bod pob plentyn yn elwa o wasanaeth cefnogol, personol o ansawdd uchel, beth bynnag fo'u cefndir neu eu nodweddion unigol a'u hamgylchiadau a'u hanghenion darparu, er mwyn sicrhau bod yr holl ffactorau perthnasol wedi cael eu hystyried yn ddigonol.<br><br>Dylai darpariaeth fod yn gymesur ag anghenion y plentyn. Dylid trefnu ymyriadau a gweithgarwch yn y ffordd fwyaf effeithiol a hylaw i'r plentyn, gan ystyried hyd y datrysiad neu'r ymyriad. Dylid bod yn ofalus gyda darparu i beidio â gorlwytho'r plentyn. Dylid rhoi |

| | | |
|---|---|---|
| | | unrhyw gymorth sydd ei angen ar y plentyn i ddatblygu strwythur a threfn ac i sicrhau newid cadarnhaol. Efallai y bydd angen rhannu gweithgarwch ac ymyriadau yn 'doriadau' neu 'gamau' bach gydag amcanion realistig. Mae angen i'r darparu fod yn unigol ac yn seiliedig ar dystiolaeth.<br><br>Mae'r cwestiwn hwn yn hollbwysig o ran dylanwadu ar y sgôr digonolrwydd a'i phennu ar gyfer y cwestiwn allweddol: a yw darparu gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn? |
| 2.3.06 | A yw ymyriadau yn mynd i'r afael ag agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn o fewn cyd-destun y plentyn? | Mae cyd-destun y plentyn yn bwysig; mae angen i staff y GCI ystyried sut beth yw bywyd i'r plentyn a sut y gall ei ymddygiad, ei agweddau a'i gymhelliant fod yn ymateb i'w amgylchiadau a'u cyd-destun.<br><br>Mae arolygwyr yn chwilio am ddarpariaeth a fydd yn mynd i'r afael ag agweddau, cymhellion ac ymddygiad y plentyn, er mwyn i'r plentyn allu deall sut mae'r ffactorau hyn wedi cyfrannu at ei ymddygiad troseddol.<br><br>Mae angen i'r ddarpariaeth helpu a chefnogi'r plentyn i weld ei hun mewn ffordd sy'n annog ymddygiad cadarnhaol a dyfodol adeiladol, gyda ffocws clir yn y dyfodol ar symud bywyd y plentyn ymlaen yn gadarnhaol, a datblygu hunaniaeth ac agweddau rhag-gymdeithasol.<br><br>Lle mae'r GCI yn darparu rhaglenni neu ymyriadau, rydym yn disgwyl i'r rhain fod yn unol â'r ymchwil a'r sylfaen dystiolaeth ac wedi'u teilwra'n briodol i'r plentyn. Bydd arolygwyr yn edrych ar yr ymyriadau a'r gwasanaethau penodol a ddarperir mewn gwirionedd i'r plentyn, a'r rhesymau dros eu dewis yng nghyd-destun y plentyn. Rydym yn disgwyl gweld rhesymeg glir dros ddarparu ymyriadau penodol sy'n egluro sut maent yn diwallu anghenion y plentyn. I rai plant, mae angen sicrhau sefydlogrwydd ac atal dirywiad cyn symud ymlaen i'r gwaith o sicrhau newid cadarnhaol. |
| 2.3.07 | A yw gwaith y GCI yn cyd-fynd ac wedi'i gydlynu yn ddigonol â'r ddarpariaeth o wasanaethau eraill gan gynnwys cynllunio ar gyfer gadael ac atgyfeirio at wasanaethau cyffredinol? | Mae perthnasoedd aml-asiantaeth a phartneriaeth cryf yn sicrhau bod y plentyn yn cael y gefnogaeth fwyaf effeithiol ar yr adeg iawn, mewn ffordd gydgysylltiedig. Mae'r rhain yn galluogi mwy o gysondeb a chydlyniad, ac yn cefnogi rhannu gwybodaeth a dyrannu adnoddau'n effeithiol.<br><br>Dylai'r GCI bob amser ystyried gwaith asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn er mwyn cydlynu, cysoni ac ategu cymorth ac ymyriadau'n well. Mae angen iddo nodi llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer y gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud â'r plentyn neu sy'n gweithio gyda'r plentyn, gydag eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth a phryd, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar gydweithio er budd y plentyn. Dylai'r GCI sicrhau ei fod yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | cael gwybodaeth gan asiantaethau eraill ac yn rhannu gwybodaeth â nhw hefyd er mwyn cysoni a chydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.<br><br>Mae angen i'r GCI gydnabod y gallai fod angen cymorth tymor hwy ar y plentyn ar lefelau unigol, teuluol a chymunedol sy'n ymestyn y tu hwnt i'w cysylltiad â'r GCI. Mae angen iddo archwilio sut bydd yn hwyluso, cydlynu a pharhau â'r cymorth hwn ar ôl i gysylltiad y plentyn â'r GCI ddod i ben.<br><br>Mae angen i'r GCI ystyried trosglwyddo i wasanaethau prif ffrwd, os oes angen, er mwyn sicrhau parhad yn y cymorth i'r plentyn fel y gall barhau i sicrhau newid cadarnhaol.<br><br>Os yw'r plentyn i fod i droi'n 18 oed cyn diwedd ei ymyriad, rydym yn disgwyl gweld ystyriaeth briodol o drefniadau pontio rhwng pobl ifanc ac oedolion, a thystiolaeth o ddulliau diogelu trosiannol. Dylai hyn gynnwys y gwasanaeth prawf yn benodol, lle bo hynny'n briodol, ond hefyd unrhyw wasanaethau eraill sy'n galw am bontio ar gyfer y plentyn (fel iechyd, iechyd meddwl ac addysg). Efallai y bydd y GCI hefyd yn bwriadu parhau i ymwneud â'r plentyn, os yw hynny'n briodol, a pharhau i ddarparu gwasanaethau.<br><br>Ar gyfer plant mewn sefydliad diogel, mae arolygwyr yn disgwyl gweld tystiolaeth o barhad rhwng elfennau cadwraethol a chymunedol yr ymyriad. Dylid cael tystiolaeth bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng y sector diogel a'r gymuned i baratoi ar gyfer rhyddhau'r plentyn. Os yw'r plentyn wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant neu gyrsiau yn ystod ei amser yn y ddalfa, dylid adeiladu ar y rhain ar ôl iddo gael ei ryddhau. Byddwn yn chwilio am dystiolaeth bod rhyddhau ar drwydded dros dro wedi cael ei ystyried fel rhan o'r paratoadau ar gyfer rhyddhau. Dylai sefydliad y ddalfa weithio gyda'r GCI i wneud unrhyw drefniadau ymarferol sy'n ofynnol ar gyfer rhyddhau, fel sicrhau dogfennau adnabod addas. Ar gyfer plant sy'n cael eu remandio, dylid ystyried trefniadau eraill priodol o ran mechnïaeth, gan gynnwys trefniadau cyswllt gyda gwasanaethau y tu allan i'r ardal a phartneriaid os oes angen. |
| 2.3.08 | A yw ansawdd y gwaith gyda'r plentyn yn cael ei adolygu lle bo angen? | Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI yn mynd ati'n rhagweithiol i adolygu ansawdd y gwaith sy'n cael ei ddarparu ac yn ystyried a yw'r gwaith yn cael yr effaith a fwriedir iddo ei gael.<br><br>Dylai'r gwaith adolygu ystyried ymgysylltiad y plentyn hyd yma, ei ymatebion i'r gweithgarwch a'r ymyriadau sydd wedi cael eu darparu, ac a yw'n cyflawni'r newidiadau a ddymunir neu a oes cynnydd yn cael ei wneud. Gall newid cadarnhaol i blentyn fod yn broses raddol, aflinol ac amlddimensiwn. Os bydd y GCI yn nodi unrhyw beth nad yw'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithio tuag at sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn, dylai addasu'r ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r sefyllfa bresennol.<br><br>Mae hyblygrwydd yn bwysig i sicrhau bod dull personol yn cael ei gynnal. Dylid canolbwyntio ar addasu, cael gwared ag unrhyw rwystrau strwythurol, a chynyddu siawns y plentyn o wneud cynnydd cadarnhaol, er mwyn gwireddu ei botensial.<br><br>Gellir nodi ymyriadau newydd neu wahanol, neu gellir gwneud addasiadau i'r ffordd y mae ymyriadau presennol yn cael eu darparu i sicrhau bod gwaith yn cael ei addasu lle bo angen. Er enghraifft, os nad yw'r plentyn yn gallu cael mynediad at ar yr hyn sy'n cael ei gynnig o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mwyach, byddem yn disgwyl i'r GCI ystyried ail-ddilyniannu ymyriadau. Gallai hyn gynnwys cyfeirio at ymyriad arbenigol, neu adolygu prydlondeb ac amlder apwyntiadau i fodloni'r amgylchiadau sydd wedi newid. Gall y dystiolaeth ar gyfer hyn ddod o gofnodion achos, trafodaeth yn ystod cyfweliad arolygu achos, neu o enghreifftiau lle mae'r ddarpariaeth wedi cael ei hadolygu a'i haddasu. |
| 2.3.09 | A ddarparwyd gwasanaethau digonol i fynd i'r afael â'r ffactorau y nodwyd eu bod yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol yn yr achos hwn? | Mae'r cwestiwn hwn yn cysylltu'n ôl â 2.1.10.<br><br>Rydym yn disgwyl gweld darpariaeth ddigonol o waith i fynd i'r afael â ffactorau y nodwyd fel bod yn berthnasol yn yr achos. Os oes rhesymau pam nad yw rhywfaint o'r gwaith a gynlluniwyd wedi'i darparu, bydd arolygwyr am weld y rhesymau dros hyn yn cael eu cofnodi'n briodol yn nyddiadur yr achos neu drwy adborth yn ystod cyfweliad y rheolwr achos. |
| **2.3.10** | **A yw darparu gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn sicrhau newid cadarnhaol ar gyfer y plentyn?** | Mae darpariaeth sydd â ffocws da yn berthnasol i'r plentyn, yn cael ei chyflwyno'n briodol heb lithro, ac yn canolbwyntio'n glir ar yr hyn yr oedd yn ceisio cael ei gyflawni.<br><br>Dylai darpariaeth fod yn bwrpasol ac yn gymesur ag anghenion, nodweddion ac amgylchiadau unigol y plentyn, natur y drosedd a chyd-destun cysylltiad y plentyn â'r GCI. Mae darpariaeth bersonol yn golygu bod cyd-destun y plentyn yn cael ei ddeall, bod y ddarpariaeth yn unigol, wedi'i threfnu a'i theilwra yn unol â hynny, a bod y plentyn yn deall beth sy'n cael ei ddarparu a pham.<br><br>Mae darpariaeth cydlynol yn golygu bod gwasanaethau'n cydweithio'n effeithiol, bod eu gwaith yn gydlynus ac yn gydgysylltiedig, a bod y gwasanaethau'n ategu ei gilydd.<br><br>Mae darpariaeth sy'n adnabod ac wedi'i deilwra i anghenion amrywiaeth y plentyn yn ddigonol yn elfen hollbwysig pan fydd arolygwyr yn ystyried eu dyfarniadau ynghylch ddigonolrwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gall darpariaeth ddigonol ar gyfer plentyn sydd â hanes cyfyngedig o droseddu a dim llawer o anghenion fod yn llai aml a bod â llai o gynnwys nag ar gyfer plentyn sydd wedi ymwneud mwy â chyfiawnder troseddol neu sydd â lefel uwch o angen.<br><br>Mae arolygwyr yn ystyried eu hatebion i'r holl gwestiynau yn yr adran hon ac yn penderfynu a yw'r cryfderau'n gorbwyso unrhyw ddiffygion. Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd, ond am ddarpariaeth ddigonol o wasanaethau er mwyn sicrhau newid cadarnhaol i'r plentyn.<br><br>Os oes bylchau yn y ddarpariaeth, bydd arolygwyr yn ystyried eu heffaith yng nghyd-destun y plentyn. Efallai y gall arolygwyr ddod i'r casgliad bod y ddarpariaeth gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun y plentyn. Ar y llaw arall, mewn rhai amgylchiadau, gall hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad annigonol. Er enghraifft, efallai y bernir bod darpariaeth a fethodd ystyried niwroamrywiaeth plentyn yn annigonol, hyd yn oed os oedd yn cynnwys yr holl ffactorau eraill a oedd yn berthnasol i gyflawni newid cadarnhaol i'r plentyn. |

| | | |
|---|---|---|
| **D 2** | **A yw gweithredu a chyflawni gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn a'r gymuned yn effeithiol?** | |
| | **Mewn achosion lle mae'r plentyn mewn sefydliad diogel,** rydym yn disgwyl i'r GCI gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gwaith priodol yn cael ei wneud i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ystod rhan o'r ddedfryd sydd dan glo, yn ogystal â phan fydd y plentyn yn y gymuned. | |
| 2.3.20 | A yw'r gwasanaethau cywir yn cael eu darparu i sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd i'r plentyn fel sylfeini ar gyfer newid? | Mae egwyddorion 'Plentyn yn gyntaf' yn nodi bod mynd i'r afael â'r risgiau o niwed **i'r plentyn** neu eraill yn hanfodol er mwyn darparu lle diogel ar gyfer datblygiad plentyn, ac ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Gellir deall hyn mewn ffordd gadarnhaol, fel cadw pawb yn ddiogel, ac iechyd a diogelwch, ac rydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth ohono wrth ddarparu i sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd i'r plentyn.<br><br>Mae pryderon diogelwch sy'n ymwneud â'r plentyn a phobl eraill yn aml yn gorgyffwrdd ac yn cydblethu. Bydd arolygwyr yn disgwyl i ymarferwyr fod wedi ystyried hyn yn eu darpariaeth.<br><br>Dylai darpariaeth adeiladu ar gymorth, strwythurau amddiffynnol ac ymyriadau presennol sydd ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y plentyn. Dylai hefyd nodi strwythurau a chymorth newydd, lle bo hynny'n briodol. Dylai'r ddarpariaeth ystyried rôl pobl eraill o ran cadw'r plentyn yn ddiogel. Gallai hyn gynnwys dulliau amlasiantaeth neu bartneriaeth, |

| | | |
|---|---|---|
| | | gweithio gyda rhieni a gofalwyr fel partneriaid (lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol) a gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn i nodi a gweithredu ffyrdd i'w helpu i gadw'n ddiogel, fel cryfderau a gweithgarwch sy'n seiliedig ar berthynas.<br><br>Pan fydd risgiau i'r plentyn y tu allan i'r cartref, mae arolygwyr yn disgwyl gweld darpariaeth yn cynnwys dull diogelu cyd-destunol neu ddull risg y tu allan i'r cartref o weithio gyda'r plentyn. Dylai staff y GCI ddilyn gweithdrefnau diogelu lleol, ac, mewn achosion o ecsbloetio plant, atgyfeirio at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.<br><br>Dylai darpariaeth fod yn ymatebol i ffactorau a allai arwain at newid yn yr hyn sydd ei angen i sicrhau diogelwch y plentyn. Mae angen i staff y GCI gydnabod y ddeinameg gymhleth a allai fod ar waith ar gyfer y plentyn, a sicrhau eu bod yn ystyried ymateb cyfannol sy'n cael ei gydlynu'n glir gyda'r holl asiantaethau, partneriaid neu unigolion dan sylw.<br><br>Dylai'r ddarpariaeth rhoi'r cyfle i'r plentyn fynegi barn am ei ddiogelwch a'i lesiant, a'r hyn sydd ei angen o'i safbwynt ef er mwyn bod yn ddiogel. Dylai'r plentyn gymryd rhan weithredol yn y ddarpariaeth er mwyn sicrhau diogelwch mewn modd cydweithredol. Dylai'r gwaith fod 'gyda'r' plentyn, yn hytrach na rhywbeth sy'n cael ei gyflwyno 'i'r' plentyn.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir bod y GCI wedi cynnwys gwybodaeth am ddiogelwch a llesiant y plentyn gan asiantaethau perthnasol eraill ac wedi defnyddio hynny'n briodol fel rhan o'u darpariaeth.<br><br>Os na ddarparwyd unrhyw wasanaethau oherwydd diffyg ymgysylltiad y plentyn, bydd arolygwyr yn penderfynu a oedd lefel yr ymdrech a wnaeth y GCI i ddarparu gwasanaethau priodol i'r plentyn yn ddigonol.<br><br>Ar gyfer plant yn y ddalfa, gall darpariaeth briodol hefyd gynnwys cyfarfodydd cynllunio diogelwch mewnol, ac ystyried a oedd unrhyw amodau diogelwch yn briodol. |
| 2.3.21 | A yw gwasanaethau'n cael eu darparu ar y cyd â rhieni a gofalwyr y plentyn er mwyn diogelu ac amddiffyn y plentyn a'r gymuned? | Rydym yn disgwyl gweld cyfleoedd rheolaidd i rieni a gofalwyr fod yn rhan o'r ddarpariaeth, ac i gael eu gwahodd i gyfarfodydd a fforymau perthnasol. Mae angen i'r GCI greu cyfleoedd i rieni a gofalwyr gymryd rhan weithredol mewn trafodaethau am risg a gweithgarwch, gwaith diogelwch, ymyriadau ac adolygiadau. Dylid annog rhieni a gofalwyr i gyfrannu fel partneriaid yn y gwaith sy'n cael ei wneud. Pan nad yw'n ddiogel nac yn briodol i rieni a gofalwyr fod yn bartneriaid o ran diogelu'r plentyn neu'r gymuned, rydym |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn disgwyl i'r GCI ddangos tystiolaeth pam nad oedd yn briodol darparu gwasanaethau ar y cyd.<br><br>Rydym yn disgwyl gweld y GCI yn nodi a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol ar rieni a gofalwyr i gydweithio, er enghraifft defnyddio dehonglwyr.<br><br>Ar gyfer plentyn sydd â phrofiad o ofal, dylai'r gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall sy'n gweithio gyda'r plentyn fod yn rhan o'r ddarpariaeth hefyd. Os nad yw'r plentyn yn byw gyda'i rieni neu os nad oes ganddo gysylltiad â'i rieni, yna rydym yn disgwyl gweld y GCI yn cydweithio ag unrhyw berson perthnasol arall sydd â chyfrifoldebau gofalu neu sy'n ymwneud â'r plentyn. Gallai fod yn berson proffesiynol fel gweithiwr cymorth, aelod o'r teulu estynedig neu ffrind i'r teulu.<br><br>Os yw'r plentyn mewn sefydliad diogel, mae angen i arolygwyr weld tystiolaeth bod rhieni a gofalwyr yn cael eu diweddaru a'u cyfathrebu gyda'n rheolaidd a'u bod yn ymwneud â datblygu pecynnau mechnïaeth neu gynlluniau rhyddhau.<br><br>Bydd arolygwyr yn disgwyl gweld bod lefel y cyswllt â rhieni a gofalwyr wedi cael ei ystyried os yw'r plentyn wedi troi'n 18 oed. |
| 2.3.22 | A yw'r ddarpariaeth o wasanaethau yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetio? | Dim ond pan fydd materion yn ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth neu ecsbloetiaeth o ran plentyn y mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol.<br><br>Mae angen i'r GCI sicrhau bod darpariaeth yn mynd i'r afael yn ddigonol ag unrhyw faterion perthnasol sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, erledigaeth ac ecsbloetiaeth, ac mae'n gwneud hynny mewn ffordd gydlynol.<br><br>Gallai'r ddarpariaeth gynnwys amrywiaeth o weithgarwch i fynd i'r afael ag erledigaeth, bod yn agored i niwed ac ecsbloetiaeth. Gallai'r rhain gynnwys gweithgarwch cadarnhaol gyda'r plentyn, dull diogelu cyd-destunol neu ddull risg y tu allan i'r cartref, tarfu ar weithgareddau neu greu mannau a lleoedd diogel i'r plentyn. Gallai'r ddarpariaeth ddigwydd ar y cyd ag asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill, fel gofal cymdeithasol plant neu'r heddlu.<br><br>Gallai pryderon ynghylch pa mor agored i niwed yw plentyn, a risgiau mewn perthynas ag erledigaeth neu ecsbloetio, gynyddu mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, efallai y bydd plentyn yn cael ei remandio neu ei ddedfryd i garchar, yn cael ei symud i lety i ffwrdd o'i gartref, ei deulu a'i grŵp cyfoedion, yn cael ei wahardd o'r ysgol, neu'n cael profiad o ofal.<br><br>Dylai'r ddarpariaeth ymateb i'r hyn sy'n digwydd ym mywyd plentyn. Rydym yn disgwyl i ymarferwyr fod yn effro i unrhyw newidiadau sy'n dangos bod plentyn yn dod yn agored i |

| | | |
|---|---|---|
| | | niwed neu fod elfennau sy'n ei wneud yn agored i niwed yn cynyddu, neu ei fod mewn perygl o brofi erledigaeth neu ecsbloetiaeth, yn enwedig os bydd newidiadau'n awgrymu bod y pryderon yn newydd neu'n cynyddu. Dylai staff y GCI ddangos chwilfrydedd proffesiynol parhaus ynghylch yr hyn sy'n digwydd ym mywyd y plentyn, bod yn effro i'r amrywiaeth o fathau posibl o ecsbloetiaeth ac ymateb yn briodol pan fydd pryderon.<br><br>Mae angen i staff y GCI ddefnyddio iaith briodol mewn perthynas â'r risgiau a nodwyd i'r plentyn a mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael â ffactorau fel cael eu trin fel oedolion a beio dioddefwyr drwy ddarpariaeth. Mae angen i ddarpariaeth fod yn effro i'r holl wahaniaethu a stereoteipiau negyddol a allai arwain at ragdybiaethau ffug ynghylch bai a chyfrifoldeb, a rhaid eu herio. |

| | | |
|---|---|---|
| 2.3.23 | A yw'r gwasanaethau cywir yn cael eu darparu i gadw pobl eraill yn ddiogel, gan reoli risgiau'n ddigonol? | Dim ond mewn achosion lle mae pryderon am ddiogelwch pobl eraill y mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol.<br><br>Mae egwyddorion 'Plentyn yn gyntaf' yn nodi bod mynd i'r afael â'r risgiau o niwed i'r plentyn neu **eraill** yn hanfodol er mwyn darparu lle diogel ar gyfer datblygiad plentyn, ac ar gyfer dioddefwyr a dioddefwyr posibl. Gellir deall hyn mewn ffordd gadarnhaol, fel cadw pawb yn ddiogel, ac iechyd a diogelwch, ac rydym yn disgwyl y bydd tystiolaeth ohono wrth ddarparu i sicrhau diogelwch a sefydlogrwydd i'r plentyn.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am wasanaethau sy'n cael eu darparu sy'n rheoli risgiau a nodwyd yn ddigonol ac yn canolbwyntio ar gadw pobl eraill yn ddiogel. Rydym yn disgwyl gweld darpariaeth sy'n mynd i'r afael â phryderon a risgiau penodol sy'n gysylltiedig â phobl eraill. Rydym yn disgwyl gweld digon o gyswllt ystyrlon â'r plentyn er mwyn gallu darparu ymyriadau adeiladol a chefnogi'r GCI i fonitro ffactorau sy'n ymwneud â diogelwch pobl eraill. Dylid cynnwys llais a barn y plentyn a dylai hyn fod yn amlwg drwy gydol y broses. Dylai fod tystiolaeth bod staff y GCI wedi cefnogi'r plentyn i ddeall beth sydd ei angen i gadw pobl eraill yn ddiogel.<br><br>Dylai'r ddarpariaeth ganolbwyntio ar ymgymryd â gweithgarwch priodol i leihau'r risg i ddioddefwyr y gellir eu hadnabod neu ddioddefwyr posibl a lleihau'r tebygolrwydd o ail-erledigaeth neu o ragor o droseddu yn erbyn eraill. Gallai hyn fod drwy ofynion ffurfiol fel gweithgarwch cyfyngedig, ardaloedd dan waharddiad, amodau, gorchmynion atal, neu weithgarwch anffurfiol sy'n cefnogi diogelwch eraill. Gallai ymyriadau ganolbwyntio ar gefnogi'r plentyn i ddatblygu strategaethau mewnol, gweithio gyda dioddefwyr, gweithgarwch cadarnhaol, neu i ddeall y pryderon sy'n gysylltiedig â niwed i eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Yn ogystal â gwasanaethau a ddarperir yn benodol i'r plentyn, rydym yn disgwyl gweld cydweithio clir gydag unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud â gwaith gyda'r plentyn, gyda'r bwriad o sicrhau'r diogelwch mwyaf posibl i eraill, lle bynnag y bo modd. Gallai hyn fod ar sail amlasiantaeth. Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth glir bod y GCI wedi cynnwys gwybodaeth am ddiogelwch a llesiant pobl eraill o sefydliadau a phartneriaid perthnasol ac wedi defnyddio hynny'n briodol fel rhan o ddarparu.<br><br>Pan fydd risgiau i eraill yn newid neu pan fydd pryderon newydd yn dod i'r amlwg, rydym yn disgwyl i'r ddarparu ymateb i'r rhain.<br><br>P'un a yw'r plentyn wedi ymgysylltu ai peidio, bydd arolygwyr yn disgwyl i'r GCI gydnabod ei gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelu'r cyhoedd. |
| 2.3.24 | A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl yn y ddarpariaeth o wasanaethau? | Dim ond mewn achosion lle mae dioddefwyr gwirioneddol neu ddioddefwyr posibl wedi'u nodi y mae'r cwestiwn hwn yn berthnasol.<br><br>Bydd arolygwyr yn chwilio am ddarpariaeth sy'n rhoi digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr phosibl, a gwaith sy'n cyfrannu at gadw dioddefwr yn ddiogel.<br><br>Dylai'r ddarpariaeth gynnwys gweithgarwch priodol i leihau'r risg i ddioddefwyr y gellir eu hadnabod neu ddioddefwyr posibl a lleihau'r tebygolrwydd o ail-erledigaeth neu droseddu pellach yn eu herbyn. Gallai hyn fod drwy ofynion ffurfiol fel gweithgarwch cyfyngedig, parthau gwahardd, amodau, neu orchmynion atal, neu weithgarwch anffurfiol sy'n cefnogi diogelwch dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl.<br><br>Dylid cyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd â'r sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n gwneud gwaith perthnasol, er mwyn sicrhau bod barn dioddefwyr am eu diogelwch yn hysbys ac yn cael ei hystyried.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r ddarpariaeth gynnwys ymateb i unrhyw ddymuniadau rhesymol gan ddioddefwyr.<br><br>Byddai darpariaeth effeithiol hefyd yn cynnwys monitro gweithredol (gan gynnwys gorfodi, lle bo hynny'n berthnasol) o unrhyw amodau trwydded, amodau eraill neu weithgarwch cyfyngedig eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mewn achosion carcharu, lle ceir dioddefwr sy'n gymwys i gael cyswllt statudol â dioddefwyr, bydd arolygwyr yn disgwyl i atgyfeiriad gael ei wneud i'r Gwasanaeth Prawf yn syth ar ôl dedfrydu. |
| 2.3.25 | A yw'r ymyriadau a ddarperir yn rhoi digon o sylw i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniant? | Bydd arolygwyr yn ystyried hyd y cyfnod o ymgysylltu rhwng y plentyn â'r GCI ac yn edrych ar y gwaith y gellid ei gyflawni'n rhesymol yn ystod yr amserlen honno. Rydym yn gwirio bod trefn yr ymyriadau wedi cael ei hystyried, er mwyn sicrhau bod ffactorau hollbwysig yn cael eu blaenoriaethu.<br><br>Rydym yn cydnabod y gallai ymyriadau fod angen cael eu gwasgaru, eu rhoi mewn trefn a'u torri'n 'darnau' ystyrlon llai ar gyfer y plentyn. Rydym yn disgwyl gweld ffocws ar sefydlu perthynas broffesiynol effeithiol gyda'r plentyn o'r cychwyn cyntaf, er mwyn manteisio i'r eithaf ar ymyriad a chefnogaeth. Rydym yn disgwyl i'r GCI fod yn ymwybodol o'r amserlenni sydd ar gael i weithio gyda'r plentyn a sicrhau ei fod yn defnyddio'r amser hwn yn effeithiol. |
| 2.3.26 | A yw darpariaeth yn ymateb yn effeithiol i newidiadau pan fo angen? | Dylai'r ddarpariaeth ymateb yn brydlon i wybodaeth newydd a gwybodaeth sy'n newid, er mwyn sicrhau bod ymyriadau a chymorth yn cael eu haddasu yn unol â hynny.<br><br>Rhaid i'r GCI ddangos tystiolaeth bod y ddarpariaeth yn dal yn gyfredol ac yn berthnasol i'r plentyn ac ystyried unrhyw newidiadau yng nghyd-destun y plentyn a'i amgylchedd teuluol a chymdeithasol ehangach, ei gryfderau a'i ffactorau amddiffynnol a strwythurol. Gall troseddu pellach neu ymddygiad sy'n peri pryder, newidiadau mewn meddyginiaeth, ymgysylltu, iechyd meddwl, neu lety, er enghraifft, effeithio ar ba ddarpariaeth sydd ei hangen. Dylai'r GCI wedyn adolygu'r modd y darperir gwasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn cael yr effaith y bwriedir iddynt ei chael.<br><br>Os bydd y GCI yn nodi unrhyw beth nad yw'n gweithio tuag at sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned, dylai addasu'r ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r sefyllfa bresennol. Ni ddylai hyn aros am adolygiad ysgrifenedig, ffurfiol. Mae angen i'r ddarpariaeth fod yn hyblyg er mwyn sicrhau bod dull gweithredu personol wedi'i deilwra ar gyfer y plentyn yn cael ei gynnal. Rhaid ystyried newidiadau fel remandio i lety cadw ieuenctid neu lety awdurdod lleol, dedfrydau o garchar, rhyddhau ar fechnïaeth, a rhyddhau yn dilyn dedfryd o garchar. Dylai'r GCI ddangos sut y mae wedi ymateb yn briodol i'r rhain wrth addasu ei ddarpariaeth. Gall nodi ymyriadau newydd, neu wneud addasiadau i'r ffordd y mae ymyriadau presennol yn cael eu darparu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Lle bo'n briodol, dylai hyn gynnwys cael gwybodaeth gan bobl eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn i sicrhau bod dealltwriaeth gyfredol a rennir o'r plentyn, i lywio'r gwaith darparu. Gall pryderon ynghylch diogelwch waethygu dros amser, ac mae gan addasiadau priodol i weithgarwch amlasiantaeth cydlynus a phersonol y potensial i fod o fudd i'r plant a'r gymdeithas ehangach yn y tymor hwy. Gall tystiolaeth ddod o adolygiadau ysgrifenedig, cofnodion achos parhaus, nodiadau o banel neu gyfarfod risg, neu drafodaeth gyda'r rheolwr achos.<br><br>Os yw gwybodaeth berthnasol am newidiadau yn hysbys, ond nad yw'r GCI wedi ymateb i hyn mewn modd deinamig ac amserol yn ei ddarpariaeth, bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ateb yn negyddol.<br><br>Pan fydd y plentyn yn cyrraedd diwedd ei ddatrysiad neu ei ymyriad, dylid cael strategaethau ymadael clir sy'n cydnabod y gwaith sydd angen parhau i gefnogi'r plentyn a'i gadw ef a'r gymuned yn ddiogel. |
| 2.3.27 | A yw ymgysylltu yn cael ei gefnogi'n effeithiol, gan gynnwys cymryd camau gorfodi pan fo hynny'n briodol? | Rydym yn disgwyl gweld bod y GCI wedi ymdrechu i ymgysylltu â'r plentyn cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol. Dylai ymdrechion i hyrwyddo ymgysylltu fod yn ddygn ac yn rhagweithiol ac rydym yn disgwyl gweld y GCI yn siarad â'r plentyn i ddeall y ffactorau a allai gefnogi'r plentyn i ymgysylltu.<br><br>Os yw'n ymddangos mai camau gorfodi ffurfiol yw'r unig opsiwn, dylai'r GCI ystyried cynnal cyfarfod rhagataliol, megis panel gorfodi, panel ymgysylltu neu banel gydymffurfio. Dylen nhw geisio cynnwys y rhieni neu'r gofalwyr ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn, er mwyn grymuso'r plentyn i ymgysylltu cyn cymryd camau gorfodi ffurfiol. Dylai'r gweithgarwch ystyried unrhyw ffactorau amrywiaeth neu strwythurol perthnasol sy'n effeithio ar allu'r plentyn i ymgysylltu.<br><br>Mewn rhai amgylchiadau, mae angen gorfodi fel rhan o gynllunio i reoli diogelwch y plentyn neu bobl eraill. Pan fydd angen cymryd camau gorfodi ffurfiol, dylid gwneud hyn yn brydlon a'i gofnodi yn unol â hynny. |
| **2.3.28** | **A yw darparu gwasanaethau cydlynol a phersonol o ansawdd uchel gyda ffocws da yn cadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel?** | Bydd arolygwyr yn barnu a yw'r ddarpariaeth gyffredinol yn canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel, yn seiliedig ar anghenion a risgiau'r plentyn a nodwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dylai'r ddarpariaeth fod wedi'i theilwra i nodweddion ac amgylchiadau'r plentyn. Dylai ddibynnu ar nodweddion, amgylchiadau unigol ac anghenion diogelwch a llesiant y plentyn, pryderon o ran diogelwch eraill yn y gymuned a chyd-destun cysylltiad y plentyn â'r GCI.<br><br>Mae angen i ddarpariaeth ddigonol ar gyfer y plentyn gael ei theilwra, gyda ffocws da ac yn bersonol yn unol â'r anghenion a'r pryderon a nodwyd. Os yw'r GCI yn ymwneud â hyn am gyfnod byr, gellir canolbwyntio ar y ddarpariaeth neu roi mwy o ystyriaeth i atgyfeiriadau, trefniadau gadael, a throsglwyddo i wasanaethau prif ffrwd, i sicrhau bod cymorth parhaus ar gael i'r plentyn.<br><br>Mae angen i arolygwyr ystyried eu hatebion i'r holl gwestiynau yn yr adran hon a phenderfynu a yw'r cryfderau'n gorbwyso unrhyw ddiffygion. Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd, ond am ddarpariaeth a gweithgarwch digonol sy'n canolbwyntio ar sut i **sicrhau diogelwch** i'r plentyn **ac** i'r gymuned, o ystyried bod y ddwy elfen yn hanfodol ac yn aml yn gysylltiedig. Bydd darpariaeth ddigonol yn golygu bod modd rhoi'r mesurau cywir ar waith i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Os oes diffygion, bydd arolygwyr yn ystyried eu heffaith yng nghyd-destun y plentyn. Efallai y gall arolygwyr ddod i'r casgliad bod y ddarpariaeth gyffredinol yn ddigonol i gadw'r plentyn a'r gymuned yn ddiogel. Ar y llaw arall, mewn rhai amgylchiadau, gall hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad annigonol, yn seiliedig ar amgylchiadau unigryw'r plentyn.<br><br>P'un a yw'r plentyn wedi ymgysylltu ai peidio, bydd arolygwyr yn disgwyl i'r GCI gydnabod ei gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch y plentyn a'r gymuned, a sicrhau bod y risgiau i'r plentyn a'r gymuned yn cael eu lleihau.<br><br>Os nad oes unrhyw ffactorau'n gysylltiedig â chadw'r plentyn neu'r gymuned yn ddiogel, bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ateb 'amherthnasol'. |

## Cyfweliad â rheolwyr achos

| | | |
|---|---|---|
| **2.4** | **A oes mynediad at wasanaethau priodol i sicrhau newid cadarnhaol a diogelwch i'r plentyn a'r gymuned?** | |
| | **Rydym yn disgwyl i'r GCI fod ag ystod gynhwysfawr o wasanaethau ymatebol a phersonol o ansawdd uchel ar waith, sy'n cyflawni newid cadarnhaol ac yn cadw plant a chymunedau'n ddiogel.** | |
| 2.4.04 | A yw goruchwyliaeth y rheolwyr yn diwallu anghenion yr achos? | Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o ryngweithio ffurfiol ac anffurfiol rhwng rheolwyr achos a'u rheolwr llinell yn ystod yr ymyriad hwn. Rydym yn disgwyl gweld y ryngweithio hwn yn cael effaith. Er enghraifft, os yw'r rheolwr llinell wedi nodi cam i'w weithredu, rydym yn disgwyl gweld y rheolwr achos yn ei gwblhau neu fod y rheolwr llinell yn dilyn hyn i fyny os nad yw wedi'i gwblhau. Os yw gweithgarwch asesu neu gynllunio yn anghywir neu'n anghyflawn neu os nad yw'r gwasanaeth a ddarperir i'r dioddefwr yn cael ei wneud yn briodol, rydym yn disgwyl gweld y rheolwr llinell yn nodi'r pryderon perthnasol ac yn gofyn i'r rheolwr achos gymryd camau, gyda gwaith dilynol priodol gan y rheolwr i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau. |
| 2.4.06 | A oes gan y rheolwr achos fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen yn yr achos hwn i sicrhau newid cadarnhaol? | Rydym yn disgwyl i bartneriaeth y GCI sicrhau bod digon o wasanaethau ar gael i sicrhau newid cadarnhaol. Gall y gwasanaethau gael eu darparu'n fewnol gan y GCI, gan asiantaethau partner, neu gan sefydliadau eraill (ar sail wedi'u comisiynu neu heb eu comisiynu). |
| 2.4.08 | A oes gan y rheolwr achos fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen yn yr achos hwn i sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned? | Rydym yn disgwyl i bartneriaeth y GCI sicrhau bod digon o wasanaethau ar gael i sicrhau diogelwch y plentyn a'r gymuned. Gall y gwasanaethau gael eu darparu'n fewnol gan y GCI, gan asiantaethau partner, neu gan sefydliadau eraill (ar sail wedi'u comisiynu neu heb eu comisiynu). |

# Gwaith gyda ddioddefwyr

| **V1.1 Mae gwaith gyda dioddefwyr yn unigol, ymatebol ac o ansawdd uchel gan yrru canlyniadau cadarnhaol a diogelwch i ddioddefwyr.** |
|---|
| Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (Cod Dioddefwyr) yn nodi hawliau dioddefwyr. Mae hefyd yn diffinio gwasanaethau y dylai sefydliadau penodol yng Nghymru a Lloegr eu darparu i ddioddefwyr. O dan y Cod Dioddefwyr, mae'r GCI yn sefydliad a enwir sy'n gyfrifol am sicrhau hawliau dioddefwyr fel y nodir yn y cod. Mae'n debygol y bydd dioddefwyr yn cael eu hawliau drwy gyfuniad o ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u rhestru yn y Cod Dioddefwyr, er enghraifft yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a llysoedd, ochr yn ochr â'r GCI. Mae'r Cod Dioddefwyr ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen hon:<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime.cy<br>O dan y cod, gall y GCI gysylltu â dioddefwyr yn uniongyrchol (ar yr amod bod dioddefwyr wedi cydsynio bod eu gwybodaeth yn cael ei rhannu) a bod ganddynt gyfrifoldeb i ddarparu, ar gais, gwybodaeth am gynnydd y plentyn yn ystod ymyriad neu gymorth a darparu gwybodaeth am wasanaethau priodol sy'n cefnogi dioddefwyr.<br>O dan y cod, rhaid i'r GCI ystyried oedran, aeddfedrwydd, barn, anghenion a phryderon y dioddefwr yn llawn. Rhaid iddynt sicrhau'r canlynol o ran dioddefwyr:<br>• eu bod yn cael eu trin â pharch, urddas, sensitifrwydd, tosturi a chwrteisi<br>• yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus sy'n cael eu parchu'n llawn<br>• bod eu preifatrwydd yn cael ei barchu gan ddarparwyr gwasanaeth yn unol â'u rhwymedigaethau o dan y cyfreithiau preifatrwydd a diogelu data perthnasol<br>• bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'w helpu nhw a'u teuluoedd i ddeall ac ymgysylltu â'r broses cyfiawnder troseddol a bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnig mewn modd proffesiynol, heb wahaniaethu o unrhyw fath.<br><br>Pan fyddwn yn archwilio gwaith a wneir gyda dioddefwyr, rydym yn archwilio achosion lle mae dioddefwr unigol a enwir, sydd wedi cydsynio i'w fanylion cyswllt gael eu rhannu â'r GCI. Rydym yn cael mynediad at gofnodion am gyswllt a gweithio gyda dioddefwyr, ni waeth a ydynt yn cael eu cadw ar system ar wahân neu fel rhan o gofnodion achos y plentyn. |

| | **Cwestiwn arolygu** | **CARaG** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 3.0.03 | A gafodd barn y dioddefwr ei hystyried fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau? | Bydd arolygwyr yn adolygu sut yr ystyriwyd barn y dioddefwr ar gyfer ymyriadau cyn ac ar ôl y llys, yn unol â phrosesau lleol y GCI. Mae hyn yn cynnwys a oedd gwybodaeth sy'n ymwneud â dioddefwyr (naill ai drwy gyswllt uniongyrchol, datganiadau effaith ar ddioddefwyr, papurau'r llys neu Wasanaeth Erlyn y Goron, dogfennau'r heddlu neu ddull arall) wedi'i chynnwys mewn adroddiadau cyn-dedfrydu, adroddiadau panel, adroddiadau atgyfeiriadau gan yr heddlu neu adroddiadau brysbennu. Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried a roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r wybodaeth hon gan awdur yr adroddiad cyn-dedfrydu, y panel gorchymyn atgyfeirio neu yn ystod y broses o wneud penderfyniadau ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys.<br><br>Mae arolygwyr yn disgwyl i'r GCI fod wedi ystyried barn a dymuniadau'r dioddefwr, lle bo hynny'n briodol, fel rhan o'r ddedfryd, y math o ymyriad neu ddatrysiad a'r canlyniad. Mae arolygwyr yn disgwyl i sylw digonol gael ei roi i gymorth i ddioddefwyr a'u diogelwch.<br><br>Os nad yw barn dioddefwyr wedi cael ei hystyried, bydd arolygwyr yn adolygu'r rhesymau dros hyn. |
| 3.0.06 | A oes cofnod clir o nodweddion gwarchodedig y dioddefwr? | Mae ein safonau'n disgwyl bod pob dioddefwr yn elwa ar wasanaeth cefnogol, personol o ansawdd uchel, beth bynnag fo'i gefndir neu ei amgylchiadau a'i nodweddion unigol. Er mwyn ategu'r hyn a ddisgwylir, mae angen i waith gyda dioddefwyr sicrhau bod yr holl ffactorau perthnasol wedi cael eu nodi'n ddigonol, eu cofnodi'n gywir a'u bod wedi cael ymateb priodol.<br><br>Mae arolygwyr yn disgwyl gweld cofnod clir o nodweddion gwarchodedig y dioddefwr ac archwiliad ystyrlon o unrhyw ffactorau amrywiaeth sy'n berthnasol i'r dioddefwr, gan gynnwys tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn gallu rhoi ystyriaeth briodol i'r rhain wrth gysylltu.<br><br>Rydym yn cydnabod y naw nodwedd warchodedig (rhyw, oedran, hil, crefydd a chred, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, hunaniaeth rywiol, ailbennu rhywedd a phriodas neu bartneriaeth sifil) a lle bo'n berthnasol i'r dioddefwr, yn disgwyl gweld y rhain yn cael eu cydnabod a'u dadansoddi ochr yn ochr â chofnodi priodol a chywir.<br><br>Mewn rhai achosion, gall arolygwyr nodi bod nodweddion fel ethnigrwydd yn cael eu cofnodi'n anghywir yng nghofnod y dioddefwr. Yn yr achosion hyn, bydd arolygwyr yn ticio'r negyddol ar gyfer y cwestiwn hwn. |
| 3.1.02 | Sut y gwnaed y cyswllt cychwynnol â'r dioddefwr? | Rydym yn disgwyl i'r GCI gysylltu cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl ar ôl cael manylion a chaniatâd y dioddefwr.<br><br>At ddibenion y cwestiwn hwn, bydd arolygwyr yn ystyried **sut** y gwnaeth y GCI gysylltu yn y lle cyntaf ar ôl iddo gael manylion y dioddefwr. **Nid** yw arolygwyr yn pasio barn yma ynghylch **addasrwydd** y |

| | | |
|---|---|---|
| | | dull o gysylltu. Caiff hynny ei drafod yn ddiweddarach. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y sawl sy’n gweithio gyda dioddefwr yn defnyddio mwy nag un dull cysylltu ar y cychwyn.<br><br>Mae arolygwyr yn cofnodi’r holl ddulliau a ddefnyddiwyd i geisio cychwyn cyswllt â’r dioddefwr, gan gynnwys galwadau ffôn, negeseuon testun, llythyrau neu negeseuon e-bost. |
| 3.1.03 | A oedd y cyswllt cychwynnol â’r dioddefwr yn bersonol? | Rydym yn disgwyl i’r GCI sicrhau bod y cyswllt cychwynnol yn bersonol a bod unrhyw beth perthnasol sy’n hysbys am y dioddefwr a/neu’r drosedd wedi’i ystyried. Gall hyn gynnwys gwybodaeth benodol sy’n cael ei rhoi gan yr heddlu, neu wybodaeth arall y gellir ei chanfod o natur y drosedd, papurau Gwasanaeth Erlyn y Goron, gwaith papur atgyfeirio, cofnod achos y plentyn, neu o unrhyw le perthnasol arall. Wrth benderfynu ar natur a chynnwys y cyswllt cychwynnol, dylai’r sawl sy’n gweithio gyda dioddefwr ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig hysbys sydd gan y dioddefwr, ac unrhyw ffactorau amrywiaeth sy’n berthnasol i’r dioddefwr, gan gynnwys tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i’r rhain pan fydd cyswllt personol yn cael ei wneud. Gall hyn gynnwys ffactorau fel dioddef trosedd casineb, bod ag anabledd, siarad iaith wahanol, neu fod yn blentyn.<br><br>Mae angen i’r GCI fod yn sensitif i faterion fel dyddiad y drosedd, dyddiad geni’r dioddefwr, adegau gwyliau a chyfnodau ŵyl, ac unrhyw ffactorau eraill a allai gael effaith niweidiol ar y dioddefwr.<br><br>Y lleiaf rydym yn ei ddisgwyl yw i bob cyswllt fod yn broffesiynol ac yn sensitif. Rydym yn disgwyl bod llythyrau a negeseuon e-bost yn cael eu llunio’n broffesiynol a bod enwau a chyfeiriadau dioddefwyr yn cael eu sillafu’n gywir ynddynt. Dylid cyfieithu neu ddarparu cyswllt ysgrifenedig mewn fformat haws ei ddarllen, os yw gwybodaeth am y dioddefwr yn awgrymu bod angen hynny.<br><br>Mae angen i’r cyswllt dros y ffôn fod yn anymwthiol a chael ei wneud ar adegau priodol. Efallai y rhoddir cynnig ar wahanol ddyddiau ac amseroedd i sicrhau dull gweithredu personol. Os oes cyswllt wedi’i wneud dros y ffôn neu drwy neges destun, bydd arolygwyr yn ystyried a oes digon o wybodaeth wedi’i chofnodi yng nghofnodion y dioddefwr i benderfynu a oedd y cyswllt yn bersonol ai peidio.<br><br>Mewn achosion lle mae’r person y cysylltir ag ef yn rhiant neu’n ofalwr i ddioddefwr ifanc, dylai’r cyswllt gydnabod y berthynas honno.<br><br>Os yw’r dioddefwr yn oedolyn agored i niwed, dylid ystyried cyswllt ag oedolyn priodol (lle mae wedi ei nodi) i drafod a chytuno a yw cyswllt uniongyrchol â’r dioddefwr yn briodol.<br><br>Dylai pob cyswllt gydnabod unrhyw berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng y plentyn sydd wedi troseddu a’r dioddefwr. Dylai iaith y cyswllt fod yn sensitif i natur y drosedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan ddioddefwyr yr hawl i ddeall a chael eu deall ac felly mae angen sicrhau er mwyn hwyluso hyn bod y cyswllt cychwynnol â dioddefwyr yn bersonol ac wedi'i deilwra'n briodol yn unol â hynny. |
| 3.1.05 | Pa wasanaeth(au) a gafodd y dioddefwr? | Nid yw arolygwyr yn pasio barn yma ynghylch addasrwydd y gwasanaeth a gafwyd gan y dioddefwr ond yn nodi **pa** wasanaeth a gafwyd. Mae arolygwyr yn cofnodi'r holl wasanaethau perthnasol a gafwyd gan y dioddefwr, gan gynnwys:<br>• cyswllt wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â'r sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr<br>• llythyr esboniadol neu ymddiheuriad gan y plentyn<br>• cyfryngu gwennol<br>• cynhadledd cyfiawnder adferol wyneb yn wyneb<br>• cyswllt â SDC y Gwasanaeth Prawf<br>• gwneud iawn uniongyrchol neu anuniongyrchol. |
| 3.1.07 | A yw'r dioddefwr yn cael cymorth i wneud dewisiadau gwybodus am eu hanghenion, gan gynnwys unrhyw waith uniongyrchol gyda phlant? | Wrth ymgysylltu â dioddefwyr, rhaid i'r GCI egluro ei rôl yn glir a chaniatáu i ddioddefwyr wneud dewisiadau gwybodus ynghylch a ydynt yn dymuno ymwneud â'r GCI, beth allai hyn ei olygu ac a ydynt am gael mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael. Dylai hyn gynnwys esboniad manwl o'r cynnig o gymorth, rôl y GCI yn y gwaith o gynllunio diogelwch a chadw'r dioddefwr yn ddiogel, atgyfeirio at wasanaethau eraill, gweithgarwch adferol, a chyfleoedd i wneud iawn (fel y bo'n briodol). Gall hyn gynnwys rhoi taflenni priodol i'r dioddefwr ac esboniad o atgyfeirio ymlaen priodol.<br><br>Rhaid i gyfranogiad dioddefwyr bob amser fod yn wirfoddol a rhaid i gyswllt y GCI â hwy adlewyrchu hyn. Mae angen digon o amser ar ddioddefwyr i fyfyrio ar y cyfraniad y maent yn dymuno ei wneud, heb bwysau.<br><br>Efallai na fydd bob amser yn bosibl ymgymryd â gweithgarwch mewn ffordd a fyddai'n well gan y dioddefwr. Er enghraifft, efallai na fydd gweithgarwch adferol yn briodol oherwydd amgylchiadau'r plentyn, neu efallai na fydd y canlyniad yr hyn yr oedd y dioddefwr wedi'i obeithio. Gall hyn hefyd fod am resymau ymarferol, fel natur y drosedd, diogelwch y dioddefwr neu'r plentyn, pryderon ynghylch ail-erledigaeth, neu hanes y plentyn. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, dylai dioddefwyr deimlo bod rhywun yn gwrando arnynt o hyd, dylid clywed eu hanghenion, a dylid egluro'r rhesymau pam nad yw'n bosibl diwallu eu hanghenion, ochr yn ochr ag esboniad o'r hyn sy'n bosibl.<br><br>Bydd arolygwyr yn ateb y cwestiwn hwn yn gadarnhaol os gwnaed digon o ymdrech i ddarparu neu drafod opsiynau yn ystod y cyswllt cychwynnol â'r dioddefwr, gan gynnwys drwy lythyr, taflenni neu ddolenni, hyd yn oed os yw'r dioddefwr wedi gwrthod ragor o wasanaethau. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.08 | A roddir gwybodaeth glir i’r dioddefwr am yr hyn y gall ei ddisgwyl ar wahanol adegau yn ystod gwaith plentyn â’r GCI? | Dylai’r holl wybodaeth fod yn glir am yr hyn y gall y dioddefwr ei ddisgwyl a’r cynnig sydd ar gael iddo o pan ddechreuodd y GCI ymwneud â hwy a’r plentyn, drwy gydol y cyswllt, a phan fydd cyfraniad y GCI yn dod i ben. Dylai hyn gynnwys amserlenni, amlder a’r math o gyswllt â dioddefwr, opsiynau mewn perthynas â chadw’r dioddefwr yn ddiogel, a diweddariadau priodol mewn perthynas â’r plentyn.<br><br>Mae cod y dioddefwyr yn nodi bod gan ddioddefwyr hawl i gael gwybodaeth gan y GCI am gynnydd y plentyn sydd wedi troseddu a gwybodaeth am wasanaethau priodol sy’n cefnogi dioddefwyr, ar gais. Rydym yn disgwyl gweld y GCI yn cyfleu hyn yn glir i’r dioddefwr.<br><br>Rhaid i’r iaith fod yn syml ac yn ddealladwy i bob dioddefwr.<br><br>Dylai pob cyswllt ei gwneud yn glir bod y dioddefwr yn rhydd i ddewis a ddylid rhoi’r gorau i ymgysylltu â’r GCI ar unrhyw adeg ac y gellir newid y dewis cychwynnol i beidio â chymryd rhan, pe bai’r dioddefwr yn dymuno. Dylai gwybodaeth fod ar gael sy’n egluro beth ddylai’r dioddefwr ei wneud yn yr amgylchiadau hynny a’r cymorth bydd y cael ei gynnig iddo pe bai’n dewis ail-ymgysylltu.<br><br>Os yw gwybodaeth wedi cael ei darparu ar lafar, byddem yn disgwyl cofnodion clir a manwl ac ar y pryd o sgyrsiau yng nghofnod y dioddefwr.<br><br>Bydd arolygwyr yn ateb y cwestiwn hwn yn gadarnhaol os oes tystiolaeth bod digon o wybodaeth wedi’i rhoi i’r dioddefwr yn egluro’r hyn y gall ei ddisgwyl drwy gydol yr amser y bu’r GCI yn ymwneud â hwy a’r plentyn. |
| 3.1.09 | A oes dealltwriaeth dda o anghenion unigol y dioddefwr? | Dylai pob cyswllt â’r dioddefwr roi cyfle iddo fynegi ei anghenion a sicrhau bod y rhai sy’n gweithio gydag ef ac yn ei gefnogi yn deall yr anghenion hyn.<br><br>Mae gan ddioddefwyr yr hawl i wneud datganiad personol i egluro yn eu geiriau eu hunain sut y mae’r drosedd wedi effeithio arnynt, gan gynnwys yn gorfforol, yn emosiynol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall.<br><br>Gall rhieni neu ofalwyr dioddefwyr sydd dan 18 oed gael gwasanaethau o dan y Cod Dioddefwyr yn uniongyrchol, yn ogystal ag ar ran y plentyn. Rydym yn disgwyl gweld anghenion rhieni a gofalwyr yn cael eu deall lle bo hynny’n briodol, yn ogystal ag anghenion y dioddefwr ifanc.<br><br>Mae’r Cod Dioddefwyr yn cydnabod bod dioddefwyr yr ystyrir eu bod yn agored i niwed neu dan fygythiad, sydd wedi dioddef y troseddau mwyaf difrifol, neu sydd wedi cael eu targedu’n gyson, yn fwy tebygol o fod angen cymorth arbenigol. Gall cymorth a chefnogaeth gynnwys cael eich cyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol, cysylltu â chi’n amlach neu gael gwybod am benderfyniadau allweddol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ystyrir bod dioddefwyr yn agored i niwed ac yn gymwys i gael hawliau ychwanegol os yw'r canlynol yn berthnasol:<br><br>• roeddent dan 18 oed ar adeg y drosedd<br>• mae'n debygol yr effeithir ar ansawdd eu tystiolaeth oherwydd eu bod yn dioddef o anhwylder meddwl o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983 neu oherwydd bod ganddynt anabledd corfforol neu eu bod yn dioddef o anhwylder corfforol.<br><br>Wrth asesu a yw dioddefwr dan fygythiad, rhaid i'r GCI ystyried y canlynol:<br><br>• yr ymddygiad tuag at y dioddefwr o ran yr un dan amheuaeth, aelodau o'i deulu neu ei gymdeithion, neu unrhyw berson arall sy'n debygol o fod dan amheuaeth neu'n dyst yn yr achos<br>• oedran y dioddefwr<br>• os yw'n berthnasol, cefndir cymdeithasol a diwylliannol y dioddefwr, ei gredoau crefyddol neu farn wleidyddol, ei darddiad ethnig, ac amgylchiadau domestig a chyflogaeth<br>• natur ac amgylchiadau honedig y drosedd y mae'r achos yn ymwneud ag ef (bydd dioddefwyr trosedd rhywiol neu fasnachu pobl yn cael eu hystyried i fod dan fygythiad)<br>• unrhyw farn a fynegir gan y dioddefwr.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r GCI gydnabod ac ystyried hawliau ychwanegol, lle bo hynny'n briodol, ac nodi'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw'n effeithiol a theilwra cymorth ac ymyriadau'r GCI ar gyfer y dioddefwr.<br><br>Bydd arolygwyr yn ateb y cwestiwn hwn yn gadarnhaol os oes tystiolaeth bod y GCI yn deall ac yn ystyried anghenion y dioddefwr yn ddigonol. Mae hyn yn cynnwys os yw'r dioddefwr yn datgan nad yw'n dymuno cymryd rhan mewn unrhyw fath o gyswllt, neu'n datgan ei fod yn dymuno mynegi sut mae'r drosedd wedi effeithio arno, ond nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw ymyriad na chymorth arall, ar yr amod bod y cyswllt cychwynnol wedi'i deilwra iddo ac wedi rhoi'r cyfle iddo fynegi ei anghenion. |
| 3.1.10 | A yw'r cymorth a gynigir yn hyrwyddo diogelwch a llesiant y dioddefwr yn ddigonol? | Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol lle nad oes cymorth na phryderon ynghylch diogelwch a llesiant wedi'u nodi, neu lle mae'r dioddefwr wedi dewis peidio ag ymgysylltu.<br><br>Dylai pob cyswllt â dioddefwr roi cyfle iddo fynegi ei farn am ei ddiogelwch a'i lesiant a sicrhau bod y rhai hynny sy'n gweithio gydag ef ac yn ei gefnogi yn rhoi digon o ystyriaeth i'r hyn sydd ei angen er mwyn hyrwyddo ei diogelwch a'i lesiant. Dylid gwneud hyn ar y cyd â'r rhai hynny sy'n gweithio gyda'r plentyn, fel bod yr holl ffactorau sy'n cyfrannu at gadw'r dioddefwr yn ddiogel wedi cael eu hystyried yn briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rydym yn disgwyl i'r GCI ystyried yn rhagweithiol y risgiau gwirioneddol a phosibl a wynebir gan y dioddefwr o ganlyniad i'r drosedd neu ar ei hôl. Gall hyn gynnwys pryderon parhaus a gall gynnwys diogelwch corfforol, emosiynol neu seicolegol y dioddefwr.<br><br>Dylid ystyried cymorth fel parthau gwaharddedig, tarfu, cynlluniau diogelwch, rhwydweithiau cymorth, ac atgyfeiriadau at asiantaethau priodol neu wasanaethau arbenigol er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant y dioddefwr. Gall y GCI gynnig, er enghraifft, diweddariadau ar gynnydd y plentyn, cyswllt â'r heddlu, neu gynnig dyfeisiau diogelwch personol. Os yw'r dioddefwr yn adnabod y plentyn (er enghraifft drwy'r ysgol/sefydliadau addysgol, grŵp cyfoedion, daearyddiaeth neu deulu), disgwylir i'r GCI ystyried a rhoi ar waith unrhyw gamau sydd eu hangen i hyrwyddo diogelwch y dioddefwr a lleihau'r tebygolrwydd o droseddu pellach, ail-erledigaeth, bygwth neu ddial. Gallai hyn hefyd gynnwys gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r plentyn i leihau'r risg i'r dioddefwr.<br><br>Os yw gweithgarwch adferol yn cael eu hystyried (gan gynnwys gwneud iawn uniongyrchol), rhaid i'r GCI sicrhau ei bod yn ddiogel i'r dioddefwr gymryd rhan a dylai ymgymryd â gweithgarwch asesu a chynllunio priodol cyn ystyried dod â'r plentyn a'r dioddefwr at ei gilydd. Rhaid trefnu a chefnogi gweithgarwch yn briodol er mwyn sicrhau diogelwch y dioddefwr bob amser.<br><br>Rhaid i unrhyw newidiadau yn ymddygiad y plentyn sy'n effeithio ar ddiogelwch a llesiant y dioddefwr cael eu trafod rhwng y rhai hynny sy'n gweithio gyda'r plentyn a'r rhai hynny sy'n cefnogi'r dioddefwr, a'u cyfleu i'r dioddefwr ac asiantaethau partner, lle bo hynny'n briodol. Er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i hyrwyddo diogelwch y dioddefwr, dylai'r rhai hynny sy'n gweithio gyda'r dioddefwr hefyd gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau o ran cynllunio a darparu ar gyfer y plentyn os ydynt yn debygol o effeithio ar ddiogelwch y dioddefwr.<br><br>Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o'r hyn sy'n ofynnol i hyrwyddo diogelwch a llesiant y dioddefwr yn cael ei chofnodi'n glir ar gofnod y dioddefwr a bod y cymorth priodol yn cael ei gynnig o ganlyniad. |
| 3.1.11 | A oes ymgysylltu effeithiol a meithrin perthynas â'r dioddefwr sy'n galluogi cymorth unigol ac ymatebol? | Rydym yn disgwyl i'r GCI ganolbwyntio ar feithrin perthynas effeithiol â'r dioddefwr o'u cyswllt cyntaf. Mae hyn yn dechrau o'r pwynt cyswllt cychwynnol, sydd yn rhywbeth sydd angen ei deilwra a bod yn unigol ac yna mae angen iddo fod yn rhan annatod o bob cyswllt dilynol â'r dioddefwr.<br><br>Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y GCI wedi canolbwyntio ar feithrin perthynas waith gyda'r dioddefwr sy'n gadarnhaol ac yn llawn ymddiriedaeth, drwy ymateb i brofiad a dymuniadau'r dioddefwr. Dylai'r dioddefwr gael cyfle i gyfrannu'n weithredol at y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig a chymryd rhan ynddynt os yw'n dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, os bydd y dioddefwr yn mynegi pryderon am ei ddiogelwch, rydym yn disgwyl gweld y GCI yn archwilio natur pryderon y dioddefwr ac yn nodi |

| | | |
|---|---|---|
| | | cymorth a/neu fesurau amddiffynnol posibl, yn ogystal ag ailedrych ar hyn yn rheolaidd gyda'r dioddefwr.<br><br>Pan fydd dioddefwr wedi dewis cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y plentyn neu mae o am ymgysylltu â'r GCI, rydym yn disgwyl gweld cytundeb ar beth y bydd hyn yn ei olygu, cofnodion cywir sy'n adlewyrchu'r hyn y cytunwyd arno a thystiolaeth bod hyn wedi digwydd neu am ddigwydd. Bydd hyn i gyd yn canolbwyntio ar ddymuniadau'r dioddefwr.<br><br>Rydym yn disgwyl i'r GCI wneud ymdrechion rhesymol i alluogi'r dioddefwr i gymryd rhan, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag ymgysylltu, fel addasu'r gwasanaeth a ddarperir er mwyn diwallu anghenion amrywiaeth unigol neu amgylchiadau personol y dioddefwr.<br><br>Os bydd y dioddefwr yn dewis cymryd rhan mewn gweithgarwch adferol, rydym yn disgwyl gweld y GCI yn cefnogi'r dioddefwr gyda hyn, yn cynnal asesiadau risg a diogelwch perthnasol, ac yn darparu cymorth yn ystod ac ar ôl unrhyw sgyrsiau neu gyfarfodydd adferol. |
| 3.1.12 | A oes trefniadau a pherthnasoedd effeithiol gydag ymarferwyr ar draws y GCI i alluogi diwallu anghenion y dioddefwr? | Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth yng nghofnodion y dioddefwr o rannu gwybodaeth gan y GCI â rheolwr achos y plentyn, er mwyn sicrhau bod dymuniadau'r dioddefwyr yn cael eu hymgorffori mewn dogfennau, gweithgarwch asesu a chynllunio perthnasol. Dylai hyn fod yn ddwyochrog, gyda rheolwr yr achos yn darparu diweddariadau priodol i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda'r dioddefwr ac yn ei gefnogi. Gallai'r rhain gynnwys diweddariadau ar gynnydd y plentyn, gwaith a wnaed, asesiadau diogelwch, gwneud iawn a, lle bo hynny'n briodol, parodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgarwch adferol.<br><br>Yn unol â'r hyn y cytunwyd arno gyda'r dioddefwr, efallai y bydd pwyntiau allweddol lle mae cyswllt rhwng y rheolwr achos a'r sawl sy'n gweithio gyda'r dioddefwr, er enghraifft adolygiadau panel gorchymyn atgyfeirio neu adolygiadau o'r cynllun dedfrydu, neu bwyntiau allweddol yn ystod datrysiad y tu allan i'r llys. Rydym yn disgwyl gweld cyfathrebu rhagweithiol ac effeithiol rhwng ymarferwyr ar draws y GCI, gan rannu gwybodaeth yn briodol er mwyn gallu diwallu anghenion y dioddefwr.<br><br>Pan fydd rhyw fath o gyswllt uniongyrchol wyneb yn wyneb yn cael ei gynllunio rhwng y dioddefwr a'r plentyn, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o weithgarwch cynllunio cymesur yng nghofnodion achos y dioddefwr sy'n adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud i hwyluso hyn. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y rheolwr achos a'r sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr wedi chwarae rhan allweddol ar y cyd yn y gwaith o ddatblygu sut mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen a'i gyflawni.<br><br>Os oes angen, bydd arolygwyr yn edrych ar gofnodion o waith gyda'r plentyn yn ogystal â chofnodion achos y dioddefwr er mwyn cael tystiolaeth ar gyfer y cwestiwn hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| 3.1.13 | A yw'r gefnogaeth a ddarperir yn diwallu anghenion y dioddefwr? | Mewn rhai achosion, efallai y bydd un drafodaeth gychwynnol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb rhwng y GCI a'r dioddefwr yn ddigon i ddiwallu anghenion y dioddefwr. Efallai y bydd y dioddefwr eisiau egluro sut mae'r broses wedi effeithio arno, trafod ei deimladau am y system cyfiawnder troseddol, neu fynegi rhwystredigaeth ynghylch sut y mae ei achos wedi cael ei drin a chael cyfle i leisio ei farn.<br><br>Gallai cefnogaeth arall gynnwys rhoi gwybodaeth i'r dioddefwr am wasanaethau lleol sy'n darparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i ddioddefwyr troseddau, fel Cymorth i Ddioddefwyr, Barnardo's a/neu unrhyw sefydliadau cymorth lleol priodol eraill. Yn yr amgylchiadau hynny, byddem yn disgwyl gweld y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr yn darparu manylion llinell gymorth Cymorth i Ddioddefwyr, yn rhoi llenyddiaeth a thaflenni i ddioddefwyr, ac yn gwneud atgyfeiriadau priodol.<br><br>Pan ystyrir gwneud iawn uniongyrchol neu anuniongyrchol, rydym yn disgwyl gweld cyswllt rheolaidd gyda'r dioddefwr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am gynnydd y plentyn. Ar gyfer gwneud iawn uniongyrchol neu gyswllt adferol, rydym yn disgwyl gweld bod diogelwch y dioddefwr wedi cael ei ystyried, a bod gwaith paratoi priodol wedi cael ei wneud, cyn unrhyw weithgarwch neu gyfarfodydd adferol.<br><br>Yr agweddau allweddol rydym yn disgwyl eu gweld yw bod y GCI wedi deall yr hyn y mae'r dioddefwr yn ystyried i fod yn ei anghenion ac yn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei ddarparu yn unol â hyn. Bydd gwaith a ddarperir gan asiantaeth neu wasanaeth arall o ganlyniad i atgyfeirio neu gyfeirio gan y GCI hefyd yn cael ei ystyried yn dystiolaeth ar gyfer y cwestiwn hwn.<br><br>Os yw'n amlwg mai dyma beth y mae'r dioddefwr am ei gael allan o'r broses, yna bydd yr arolygwyr yn ateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn. |
| 3.1.13 | A oedd cyswllt priodol gyda swyddog cyswllt dioddefwyr y gwasanaeth prawf? | Os yw plentyn yn cael dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy am drosedd treisgar neu rywiol benodol, neu os yw plentyn yn cael ei gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, mae gan y dioddefwr hawl i gael ei gyfeirio'n awtomatig, o fewn 10 diwrnod i'r ddedfryd, at y Cynllun Cyswllt Statudol â Dioddefwyr Statudol a chael SCD wedi ei neilltuo. Dylai pob GCI fod â phroses ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd ac rydym yn disgwyl gweld cyfeiriad ati yng nghofnodion y dioddefwr lle bo hynny'n berthnasol.<br><br>Ar ôl ei neilltuo, gallai'r SCD drefnu'n annibynnol i gysylltu â'r dioddefwr dan y cynllun hwn. Byddem yn disgwyl gweld dull integredig o ddatblygu a darparu gwasanaethau i'r dioddefwr, gyda chyswllt a chyfathrebu clir rhwng y rhai hynny yn y Gwasanaeth Prawf a'r GCI sy'n cefnogi'r dioddefwr. Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth yng nghofnod achos y dioddefwr o drafodaethau a phenderfyniadau priodol ar rolau a chyfrifoldebau sy'n digwydd a chytundeb ynghylch pwy fydd yn ymgymryd â pha weithgarwch. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Os bydd y SCD yn arwain yr holl weithgareddau, rydym yn disgwyl gweld cyfathrebu rheolaidd rhwng y SCD a’r GCI i roi’r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg o’r gwaith sy’n cael ei wneud.<br><br>Byddem hefyd yn disgwyl gweld tystiolaeth o adolygu a thrafod rhwng y GCI, y SCD a rheolwr achos y plentyn ar gamau pwysig yng nghysylltiad y plentyn â’r GCI. Dylai hyn gynnwys cynllunio dedfrydau, penderfyniadau sgrinio ar lefel MAPPA, a chyfarfodydd amlasiantaethol MAPPA lefel 2 neu 3. Efallai mai ymarferydd y GCI sy’n gyfrifol am weithio gyda’r dioddefwr sy’n arwain y gwaith o gydlynu hyn yn hytrach na rheolwr achos y plentyn.<br><br>Byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth glir o gyswllt â’r SCD cyn i unrhyw benderfyniad cael ei wneud ar amodau trwydded cyn rhyddhau. Dylai unrhyw drafodaethau y mae’r SCD yn eu cael gyda’r dioddefwr sy’n annibynnol ar y GCI i geisio barn y dioddefwr am amodau’r drwydded, gael eu bwydo’n ôl a’u cofnodi yng nghofnod achos dioddefwr y GCI. |
| **3.1.14** | **A yw’r gwaith gyda’r dioddefwr o ansawdd uchel, yn ymatebol ac yn unigol?** | Bydd arolygwyr yn barnu a yw ansawdd cyffredinol y gwaith gyda dioddefwyr yn diwallu anghenion y dioddefwr. Mae angen i arolygwyr ystyried eu hatebion i’r holl gwestiynau yn yr adran hon a phenderfynu a yw’r cryfderau’n gorbwyso unrhyw ddiffygion. Nid ydym yn chwilio am berffeithrwydd, ond am dystiolaeth ddigonol bod trefniadau wedi cael eu datblygu a’u cyflwyno yn unol ag amgylchiadau’r achos a dymuniadau’r dioddefwr.<br><br>Os oes diffygion, bydd arolygwyr yn ystyried eu heffaith yng nghyd-destun yr achos. Fodd bynnag, mae’n bosibl, mewn rhai achosion, y gallai dim rhoi digon o ystyriaeth i un ffactor hollbwysig, fel peidio ag ystyried nodweddion gwarchodedig y dioddefwr wrth gynllunio a gweithredu gwasanaeth ar gyfer dioddefwr trosedd casineb, fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o annigonol.<br><br>Os nad yw dioddefwr wedi ymateb i ymdrechion i gysylltu â nhw neu os yw wedi optio allan o wasanaethau ar ôl cyswllt cyfyngedig, bydd arolygwyr yn gwneud eu penderfyniadau ar sail ansawdd y gwaith i geisio cysylltu â dioddefwyr ac ymgysylltu â nhw. Os yw hynny wedi’i deilwra’n unigol ac wedi’i wneud gan roi digon o ystyriaeth i natur yr achos ac anghenion y dioddefwr, bydd yr arolygwyr yn rhoi ateb cadarnhaol. |

# Cyfweliad â sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr

| | | |
|---|---|---|
| 3.2.04 | A yw goruchwyliaeth y rheolwyr yn diwallu anghenion yr achos? | Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o ryngweithio ffurfiol ac anffurfiol rhwng y sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr a'i reolwr llinell os oes angen yn yr achos, yn enwedig os yw'r dioddefwr wedi bod yn destun trosedd rhywiol neu dreisgar ddifrifol.<br><br>Rydym yn disgwyl gweld unrhyw ryngweithio'n cael effaith. Er enghraifft, os yw'r rheolwr llinell wedi nodi cam i'w weithredu, rydym yn disgwyl gweld y sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr yn ei gwblhau neu fod y rheolwr llinell yn dilyn hyn i fyny os nad yw wedi'i gwblhau. Os nad yw'r gwasanaeth a ddarperir i'r dioddefwr yn cael ei wneud yn briodol, rydym yn disgwyl gweld y rheolwr llinell yn nodi'r pryderon perthnasol ac yn gofyn i'r sawl sy'n gweithio gyda dioddefwr gymryd camau, gyda gwaith dilynol priodol gan y rheolwr i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd wedi'u cwblhau. |
| 3.2.05 | A oedd gennych chi fynediad at y gwasanaethau a oedd eu hangen i sicrhau cymorth i'r dioddefwr yn yr achos hwn? | Rydym yn disgwyl i'r GCI fod yn ymwybodol o'r holl wasanaethau perthnasol sydd ar waith yn lleol i gefnogi'r dioddefwr tra bydd yn gweithio gyda nhw ac ar ôl i'w cyfraniad ddod i ben. Dylai'r rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr fod yn ymwybodol o'r trefniadau sydd ar waith i gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau perthnasol lle bo hynny'n briodol.<br><br>Gall y gwasanaethau hyn fod yn benodol i anghenion dioddefwyr, fel Cymorth i Ddioddefwyr. Fodd bynnag, gall gwasanaethau hefyd fod yn fwy cyffredinol eu natur ond yr un mor berthnasol i ddioddefwyr troseddau, fel gwasanaethau cwnsela neu wasanaethau cyngor ariannol.<br><br>Mae'n annhebygol y bydd y GCI yn comisiynu gwasanaethau allanol i ddioddefwyr eu hunain, ond efallai fod trefniadau ar waith gyda phartneriaethau strategol lleol sy'n gwella'r trefniadau, er enghraifft drwy Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Dylid hefyd ystyried cysylltiadau â gwasanaethau perthnasol sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr yn yr awdurdod lleol, fel gwasanaethau cynghorwyr cam-drin domestig annibynnol. |

[i] *SECURE STAIRS, fel y cyfeirir ato yn y fframwaith integredig (Lloegr) ac o dan gylch gwaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru.*